

# TAG

Edexcel Uwch Gyfrannol TAG mewn lechyd  
a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Sengl)  
(8741)

Edexcel Uwch Gyfrannol TAG Gyfrannol  
mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol  
(Dyfarniad Dwbl) (8742)

Edexcel TAG Uwch mewn lechyd a Gofal  
Cymdeithasol (Dyfarniad Sengl) (9741)

Edexcel TAG Uwch mewn lechyd a Gofal  
Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl) (9742)

Ar gyfer dysgu am y tro cyntaf yn 2005

Mehefin 2005

dysgu uwch, newid bywyd

Manyleb

Mae Edexcel Cyfyngedig yn un o'r prif gyrff arholi a dyfarnu yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Mae'n ymgorffori'r holl gymwysterau a ddyfarnwyd cyn hyn o dan frand Edexcel a BTEC. Rydym yn cynnig amrediad eang o gymwysterau gan gynnwys rhai cyffredinol (academaidd) a galwedigaethol a rhaglenni penodol i gyflogwyr.

Trwy rwydwaith o swyddfeydd yn y DU a gwledydd tramor, mae ein canolfannau'n derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i'w helpu i gyflwyno eu rhaglenni addysg a hyfforddiant i ddysgwyr.

Am wybodaeth bellach ffoniwch ein Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 0870 240 9800, neu ewch i'n gwefan yn [www.edexcel.org.uk](http://www.edexcel.org.uk)

*Gwneir cyfeiriadau at ddeunyddiau trydydd parti yn y fanyleb hon yn ddidwyll. Nid yw Edexcel Cyfyngedig yn cefnogi, yn cymeradwyo nac yn derbyn cyfrifoldeb am gynnwys y deunyddiau, a all fod yn agored i'w newid, nac unrhyw farn a fynegir ynddynt. (Gall y deunydd gynnwys gwerslyfrau, cylchgronau a chyhoeddiadau eraill a gwefannau.)*

Awdurdodwyd gan Jim Dobson  
Paratowyd gan Sarah Harrison

Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn hawlfraint  
© Edexcel Cyfyngedig 2005

Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
(Dyfarniad Sengl) (8741)

Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
(Dyfarniad Dwbl) (8742)

Edexcel TAG Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
(Dyfarniad Sengl) (9741)

Edexcel TAG Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
(Dyfarniad Dwbl) (9742)



# Cynnwys

---

<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>Gorolwg o'r cymhwyster</b>	<b>3</b>
Strwythur	3
Oriau dysgu o dan arweiniad	3
Gorolwg o'r unedau	4
Sail resymegol	5
Dysgu blaenorol a argymhellir	6
Cynnydd	6
Cod dosbarthu	6
Cysylltiadau â chymwysterau eraill	7
<b>Cynnwys y fanyleb</b>	<b>8</b>
<b>Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol</b>	<b>9</b>
<b>Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd</b>	<b>15</b>
<b>Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol</b>	<b>31</b>
<b>Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw</b>	<b>44</b>
<b>Uned 5: Gweithgareddau ar gyfer Iechyd a Lles</b>	<b>50</b>
<b>Uned 6: Iechyd Cyhoeddus</b>	<b>66</b>
<b>Uned 7: Diwallu Anghenion Unigol</b>	<b>78</b>
<b>Uned 8: Hybu Iechyd a Lles</b>	<b>84</b>
<b>Uned 9: Ymchwilio i Glefydau</b>	<b>96</b>
<b>Uned 10: Defnyddio a Deall Ymchwil</b>	<b>112</b>
<b>Uned 11: Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles</b>	<b>124</b>
<b>Uned 12: Deall Ymddygiad Dynol</b>	<b>137</b>
<b>Gwybodaeth asesu</b>	<b>145</b>
Amcanion asesu	145
Asesu allanol	145
Asesu mewnol	146
Iaith yr asesu	148
Datganiad Cymraeg	148
Gofynion statudol	148

<b>Gwybodaeth graddio</b>	<b>149</b>
Bandiau marciau	149
Graddio, cydgrynhoi a chywerthedd	149
Disgrifiadau perfformiad	150
<b>Gwybodaeth ychwanegol</b>	<b>153</b>
Gwneud cais am y cymhwyster hwn	153
Ailsefyll	153
Argaeledd	153
Dysgwyr â gofynion penodol	153
Y cwricwlwm ehangach	153
Cysylltiadau ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol (YMMCD) a rhai ehangach eraill yn y cwricwlwm	154
Cefnogaeth i athrawon	154
<b>Atodiadau</b>	<b>155</b>
Atodiad A: Mapio sgiliau allweddol	157
Atodiad B: Awgrymiadau datblygu sgiliau allweddol	159
Atodiad C: Y cwricwlwm ehangach	171
Atodiad CH: Disgrifiadau perfformiad	173

# Cyflwyniad

---

Mae'r gyfres hon o naw cymhwyster yn cynnwys Tystysgrifau Addysg Gyffredinol mewn:

- Celf a Dylunio Cymhwysol
- Busnes Cymhwysol
- TGCh Gymhwysol
- Peirianeg
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Astudiaethau Hamdden
- Y Cyfryngau
- Y Celfyddydau Perfformio
- Teithio a Thwristiaeth.

Mae'r cymwysterau wedi eu cynllunio i roi cyflwyniad eang i faes galwedigaethol mewn cyd-destun cymhwysol. Maent ar gael i'w dysgu am y tro cyntaf fel cyrsiau dwy flynedd o fis Medi 2005 ac fel cyrsiau un flwyddyn o fis Medi 2006. Caiff y cymwysterau Uwch Gyfrannol eu dyfarnu gyntaf yn haf 2006 a'r cymwysterau TAG Uwch yn haf 2007.

## Edexcel TAG mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae Edexcel TAG mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei datblygu i roi sylfaen addysgol eang ar gyfer hyfforddiant pellach, addysg bellach neu i symud ymlaen i waith addas o fewn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cynlluniwyd y cymwysterau i gael eu cyflwyno mewn cyd-destun sy'n gysylltiedig â'r gweithle ac er mwyn gadael i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o natur amrywiol a chymhleth y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Nid oes unedau dewisol, felly rhoddwyd dewis oddi mewn i bob un o'r unedau a asesir yn fewnol. Gall dysgwyr gymhwyso eu dysgu i unrhyw un o'r grwpiau canlynol o ddefnyddwyr gwasanaethau:

- Iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl hŷn
- unigolion ag anghenion penodol.

Fodd bynnag, er mwyn cael dealltwriaeth o natur holistig gwasanaethau gofal, dylid annog dysgwyr i amrywio eu dewis o ran cyd-destunau ar draws yr unedau a asesir yn fewnol

Er mwyn cyflawni hyn awgrymir eu bod yn cynhyrchu gwaith a asesir yn fewnol oddi wrth o leiaf ddau o'r grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau. Dylai'r dysgwyr ddewis pa rai o'r grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau y maent yn eu hastudio ar gyfer pob uned a asesir yn fewnol gydag arweiniad gan eu canolfannau.

Ceir cyfle i ddewis grŵp cleientiaid yn yr unedau canlynol a asesir yn fewnol:

- Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd
- Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol
- Uned 5: Gweithgareddau ar gyfer Iechyd a Lles
- Uned 6: Iechyd Cyhoeddus
- Uned 8: Hybu Iechyd a Lles
- Uned 9: Ymchwilio i Glefydau

- Uned 10: Defnyddio a Deall Ymchwil
- Uned 11: Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles.

Os bydd dysgwyr yn cynnal cyfweiliadau neu weithgareddau â chleientiaid, fel rhan o'u gwaith a asesir yn fewnol, mae'n hanfodol eu bod yn cael cydsyniad y cleient ac yn sicrhau cyfrinachedd llawn drwyddi draw.

Gall unedau a asesir yn allanol ofyn am gymhwyso dysgu mewn unrhyw un o'r grwpiau cleientiaid a restrwyd ar y dudalen flaenorol.

## Codau cymhwyster

Rhoddir i bob teitl cymhwyster god Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol QCA (FFCC/NQF).

### Codau FFCC QCA

Caiff cod Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FFCC) QCA ei alw'n Rhif Achredu Cymwysterau (RhAC/QAN). Dyma'r cod sydd i'w weld yn Rhestr Gyllido'r Adran Addysg a Sgiliau (DfES), Adrannau 96 a 97, a chaiff ei ddefnyddio am holl ddibenion cyllido cymwysterau. RhAC QCA yw'r rhif a fydd i'w weld ar ddogfennaeth ardystio derfynol y dysgwr.

### Rhif Achredu Cymwysterau QCA (RhAC/QAN)

Dyma'r RhACau am y cymwysterau yn y cyhoeddiad hwn:

Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Sengl) 100/4292/1

Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl) 100/4293/3

Edexcel TAG Uwch mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Sengl) 100/4294/5

Edexcel TAG Uwch mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl) 100/4295/7



# Gorolwg o'r cymhwyster

---

## Strwythur

### Uwch Gyfrannol/TAG Uwch (Dyfarniad Sengl)

Mae'r holl Ddyfarniadau Sengl TAG Uwch yn y gyfres hon yn cynnwys chwe uned â'r un pwysiad ac yn cynnwys is-set Uwch Gyfrannol o dair uned UG. Hanner cyntaf cwrs TAG yw'r UG ac mae'n cyfrannu 50 y cant at gyfanswm marciau TAG. Mae'r U2, ail hanner y TAG Uwch, yn cynnwys y 50 y cant arall o gyfanswm marciau TAG Uwch.


### Uwch Gyfrannol/TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl)

Mae'r holl gymwysterau TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl) yn y gyfres hon yn cynnwys 12 uned â phwysiad cyfartal ac yn cynnwys is-set Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) o chwe uned UG. Yr Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) yw hanner cyntaf cwrs TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl) ac mae'n cyfrannu 50 y cant o gyfanswm marciau TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl). Mae'r U2, ail hanner y TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl), yn cynnwys y 50 y cant arall o gyfanswm marciau TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl).

### Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl)

Mae'r holl gymwysterau Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) yn y gyfres hon yn cynnwys chwe uned UG â'r un pwysiad ac yn cynnwys is-set Uwch Gyfrannol o dair uned UG.

Mae'r diagram isod yn dangos y berthynas rhwng y Dyfarniadau yn y gyfres hon o fanylebau TAG.



## Oriau dysgu o dan arweiniad

Yr oriau dysgu o dan arweiniad am TAG Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Sengl) tair uned yw 180. Yr oriau dysgu o dan arweiniad am TAG Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) chwe uned yw 360.

Yr oriau dysgu o dan arweiniad am TAG Uwch (Dyfarniad Sengl) chwe uned yw 360. Yr oriau dysgu o dan arweiniad am TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl) 12 uned yw 720.

## Gorolwg o'r unedau

Uned	Teitl	Cod uned	Lefel	UG (Sengl)	UG (Dwbl)	TAG (Sengl)	TAG (Dwbl)	Modd Asesu	Asesu ar gael	Am y tro cyntaf
1	Twf a Datblygiad Dynol	6938	UG	Gorfodol	Gorfodol	Gorfodol	Gorfodol	Allanol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 06
2	Cyfathrebu a Gwerthoedd	6939	UG	Gorfodol	Gorfodol	Gorfodol	Gorfodol	Mewnol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 06
3	Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol	6940	UG	Gorfodol	Gorfodol	Gorfodol	Gorfodol	Mewnol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 06
4	Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw	6941	UG		Gorfodol		Gorfodol	Allanol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 06
5	Gweithgareddau ar gyfer Iechyd a Lles	6942	UG		Gorfodol		Gorfodol	Mewnol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 06
6	Iechyd Cyhoeddus	6943	UG		Gorfodol		Gorfodol	Mewnol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 06
7	Diwallu Anghenion Unigol	6944	U2			Gorfodol	Gorfodol	Allanol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 07
8	Hybu Iechyd a Lles	6945	U2			Gorfodol	Gorfodol	Mewnol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 07
9	Ymchwilio i Glefydau	6946	U2			Gorfodol	Gorfodol	Mewnol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 07
10	Defnyddio a Deall Ymchwil	6947	U2				Gorfodol	Mewnol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 07
11	Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles	6948	U2				Gorfodol	Mewnol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 07
12	Deall Ymddygiad Dynol	6949	U2				Gorfodol	Allanol	Ionawr/ Mehefin	Ionawr 07

## Sail resymegol

Mae'r gyfres hon o naw Tystysgrif Addysg Gyffredinol yn rhan o ddarpariaeth Lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FFCC/NQF).

Nodau'r TAGau hyn yw:

- ehangu cymryd rhan mewn dysgu'n ymwneud â galwedigaeth
- rhoi i ddysgwyr brofiad o ddysgu'n ymwneud â galwedigaeth i weld a yw'n addas iddynt
- galluogi dysgwyr i wneud dewisiadau personol dilys ar ôl cwblhau'r cymhwyster
- codi cyrhaeddiad ar Lefel 3/lefel Uwch y FFCC/NQF.

Amcanion cyffredinol y TAGau hyn yw:

- cyflwyno dysgwyr i ddysgu perthnasol i waith
- rhoi cyflwyniad eang i ddysgwyr i'r sector galwedigaethol
- rhoi i ddysgwyr yr wybodaeth dechnegol, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n gysylltiedig â'r pwnc ar y lefel hon
- rhoi i ddysgwyr rai o'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y gweithle neu mewn addysg bellach neu hyfforddiant
- rhoi'r grym i ddysgwyr reoli eu dysgu a'u datblygiad eu hunain
- cynnig amrediad o arddulliau addysgu, dysgu ac asesu i symbylu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae'r gyfres hon o TAGau yn cyfrannu at ansawdd a chydlynedd darpariaeth genedlaethol, fel y dangosir yn glir gan eu lle ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth '14-19 Estyn Cyfleoedd, Codi Safonau'.

Mae'r TAG mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ei gynllunio i roi sail addysgol eang ar gyfer addysg bellach neu i symud i weithio o fewn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol. Gwneir hyn trwy sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau cyffredinol, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen o fewn y sector. Mae'r fanyleb yn cydymffurfio â Meini Prawf Cymhwyster Cyffredinol am TAGau, unrhyw feini prawf ychwanegol am fanylebau TAG (Dyfarniad Dwbl) ac i'r meini prawf pwnc am fanylebau TAG mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n nodi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a chynlluniau asesu sy'n gyffredin i bob manyleb TAG yn y pwnc. Mae meini prawf pwnc yn help i sicrhau safonau cyson a chymharol yn yr un pwnc ar draws cyrff dyfarnu ac yn helpu sefydliadau addysg bellach ac uwch a chyflogwyr i wybod beth sydd wedi ei astudio a'i asesu.

Dyma, yn benodol, yw nodau'r manylebau TAG mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol:

- datblygu a chynnal diddordeb mewn iechyd, blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg), gofal cymdeithasol a materion sy'n effeithio ar y sector gofal
- ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd, blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg) a materion sy'n effeithio ar y sector gofal
- datblygu sgiliau fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad effeithiol i'r sector gofal gan gynnwys sgiliau ymchwilio, gwerthuso a datrys problemau yng nghyd-destun y gweithle
- paratoi ar gyfer astudio a hyfforddi pellach.

Bydd cynnwys yr UG yn canolbwyntio ar anghenion cleientiaid a'r technegau a gwasanaethau proffesiynol a fwriedir ar gyfer diwallu'r anghenion hynny. Asesir dysgwyr yn y meysydd astudio canlynol:

- hawliau, cyfrifoldebau a gwerthoedd
- cyfathrebu mewn sefyllfaoedd gofal
- iechyd a lles.

Bydd cynnwys yr U2 yn datblygu cynnwys yr UG trwy fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaeth a'r materion sydd yn glwm wrtho. Asesir dysgwyr yn y meysydd astudio canlynol:

- darparu gwasanaeth a swyddogaethau ymarferwyr
- deall ymddygiad dynol
- eu gallu i dynnu agweddau ar y meysydd hyn at ei gilydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

Mae'n debyg fod gan ddysgwyr fyddai'n elwa fwyaf o TAG mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol un neu fwy o'r canlynol:

- cymhwyster lefel Ganolradd
- Proffil TGAU Graddau A\*-C
- Diploma Cyntaf BTEC
- Cymwysterau perthnasol eraill ar Lefel 2, gan gynnwys NVQau, ond gyda safon llythrennedd a rhifedd sy'n gyfwerth â ThGAU gradd A\*-C
- peth profiad gwaith perthnasol.

## Cynnydd

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnig cynnydd i addysg bellach, hyfforddiant neu waith gan ei fod yn rhoi cymysgedd o ddysgu damcaniaethol a galwedigaethol.

Mae nifer o lwybrau dilyniant ar gael i ddysgwyr sy'n cwblhau'r TAG mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol yn llwyddiannus:

- i hyfforddiant pellach yn y gweithle
- CGCau (NVQs) mewn Gofal
- Tystysgrifau a Diplomâu Cenedlaethol Uwch BTEC mewn pynciau sy'n ymwneud ag lechyd a Gofal Cymdeithasol
- graddau mewn pynciau sy'n ymwneud ag lechyd a Gofal Cymdeithasol
- cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol pellach ac uwch eraill.

## Cod dosbarthu

Rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol i bob manyleb gan nodi'r maes pwnc y mae'n perthyn iddo. Y cod dosbarth am y fanyleb hon yw 0003.

Dylai canolfannau fod yn ymwybodol na fydd gan ymgeiswyr sy'n gwneud cais am fwy nag un cymhwyster Lefel 3 yn yr un cod dosbarthu ond un radd (yr uchaf) i'w gyfrif at ddibenion tablau perfformiad yr ysgol a'r coleg.

## Cysylltiadau â chymwysterau eraill

Mae'r Edexcel Uwch Gyfrannol a TAG Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn wahanredol heb orgyffwrdd yn sylweddol. Maent yn ategu'r cymwysterau TAG Uwch canlynol:

- TAG Uwch mewn Seicoleg
- TAG Uwch mewn Polisi Cymdeithasol

Ni cheir cyfyngu ar fynediad gyda'r TAGau hyn.

Ar ben hynny, nid oes gorgyffwrdd na chyfyngu ar geisiadau lluosog â chymwysterau Lefel 3 eraill, er enghraifft:

- CGC Lefel 3 mewn Gofal
- CGC Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar
- Edexcel Lefel 3 BTEC Dyfarniad/Tystysgrif/Diploma Cenedlaethol mewn Gofalu
- Edexcel Lefel 3 BTEC Tystysgrif/Diploma Cenedlaethol mewn Blynyddoedd Cynnar
- Edexcel Lefel 3 BTEC Tystysgrif/Diploma Cenedlaethol mewn Astudiaethau Iechyd.

# Cynnwys y fanyleb

---

Yr adrannau cyfarwyddo'r dysgwr yw *Cyflwyniad*, *Dysgu blaenorol a argymhellir* ac *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* ac, am yr unedau a asesir yn fewnol yn unig, *Tystiolaeth asesu*. Adrannau cyfarwyddo'r athro yw'r rhai eraill.

## Mynegai i'r unedau

Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd

Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

Uned 5: Gweithgareddau ar gyfer Iechyd a Lles

Uned 6: Iechyd Cyhoeddus

Uned 7: Diwallu Anghenion Unigol

Uned 8: Hybu Iechyd a Lles

Uned 9: Ymchwilio i Glefydau

Uned 10: Defnyddio a Deall Ymchwil

Uned 11: Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles

Uned 12: Deall Ymddygiad Dynol

Am yr unedau a asesir yn fewnol, gall dysgwyr gymhwyso eu dysgu i unrhyw un o'r grwpiau canlynol o ddefnyddwyr gwasanaethau:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Awgrymir eu bod yn cynhyrchu gwaith a asesir yn fewnol oddi wrth o leiaf ddau o'r grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau. Dylai'r dysgwyr ddewis pa rai o'r grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau y maent yn eu hastudio ar gyfer pob uned a asesir yn fewnol gydag arweiniad gan eu canolfannau.

# Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

---

UG uned orfodol

Asesir yn allanol

---

## Cyflwyniad

Mae angen i ymarferwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddatblygu cronfa wybodaeth i weithio gyda phobl ym mhob cyfnod o'u bywydau.

Bydd yr uned hon yn datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o batrymau twf a datblygiad dynol. Byddwch yn archwilio'r prif agweddau ar dwf a datblygiad a'r profiad o iechyd a lles. Byddwch yn dysgu am:

- agweddau ar dwf a datblygiad dynol trwy'r cyfnodau bywyd gwahanol
- ffactorau all ddylanwadu ar dwf, datblygiad a phrofiad iechyd dynol, gan gynnwys y rhai a etifeddir a'r rhai rydym yn eu magu yn ystod hyd ein hoes
- ystyr bod yn iach a sut y gellir hybu iechyd a lles.

Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen yn yr asesu allanol yn briodol i'r sefyllfa neu ddefnyddwyr y gwasanaethau yn yr uned hon. Gellid ei thynnu oddi wrth unrhyw un o'r canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion arbennig.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn yr adran *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* ac fe'ch asesir ar eich gallu i'w gymhwyso i'r asesiad allanol.

---

## Dysgu blaenorol a argymhellir

Dim.

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 1.1 Cyfnodau bywyd ac agweddau ar dwf a datblygiad dynol

Mae'r adran hon yn yr uned yn canolbwyntio ar dwf a datblygiad dynol ar hyd oes gyfan. Byddwch yn dysgu am y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar dwf a datblygiad dynol yn ystod y cyfnodau bywyd canlynol:

- babandod(0-2 flwydd oed)
- plentyndod cynnar (2-8 mlwydd oed)
- llencyndod (9-18 mlwydd oed)
- oedolaeth gynnar (18-45 mlwydd oed)
- oedolaeth ganol (46-65 mlwydd oed)
- oedolaeth hwyr (65+ mlwydd oed).

Mae pobl yn datblygu amrywiaeth o sgiliau a galluoedd trwy gydol eu bywydau. Byddwch yn dysgu am ddatblygiad:

- sgiliau corfforol – gan gynnwys echddygol bras a manwl
- gallu deallusol/gwybyddol – gan gynnwys sgiliau meddwl ac iaith
- datblygiad emosiynol – gan gynnwys ffurfio hunangysyniad
- sgiliau cymdeithasol – gan gynnwys ffurfio perthnasoedd ag eraill.

Byddwch yn gwybod sut mae twf a datblygiad dynol yn dilyn patrymau gwahanredol ym mhob un o'r gwahanol gyfnodau bywyd. Er enghraifft, mae sgiliau echddygol bras yn datblygu ar eu cyflymaf yn ystod babandod tra bo datblygiad cymdeithasol yn cychwyn yn ystod babandod ac yn parhau i ddatblygu trwy gydol eich bywyd. Byddwch yn dysgu am y newid a'r parhad sy'n nodweddion o dwf a datblygiad dynol ym mhob cyfnod bywyd.

### 1.2 Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad

Byddwch yn astudio amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar dwf a datblygiad dynol ac sydd hefyd yn effeithio ar ein profiad o iechyd a lles.

Dyma'r ddau brif fath o ffactorau y mae angen i chi eu deall:

- ffactorau genetig neu etifeddol
- ffactorau amgylcheddol.

Byddwch yn dysgu bod llawer o'n nodweddion a'n medrau corfforol yn cael eu hetifeddu'n enetig oddi wrth ein rhieni. Byddwch yn dod i ddeall sut gall etifeddu clefyd yn enetig ddigwydd a sut y gall effeithio at ddatblygiad a phrofiad iechyd person.

Byddwch yn dysgu am ystod o ddylanwadau amgylcheddol ar dwf a datblygiad dynol ac iechyd a lles. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ffactorau ffordd o fyw – fel diet, ymarfer, defnyddio cyffuriau, alcohol, ac ysmegu tybaco
- ffactorau cymdeithasol – fel teulu, ffrindiau, gwasanaethau iechyd, grwpiau cymunedol, dosbarth cymdeithasol, cymdeithasoliad a chredoau diwylliannol
- ffactorau amgylchedd ffisegol – fel ansawdd yr aer a d r, llygredd s n, mynediad gyflogaeth, incwm, addysg a chymdogaethau diogel
- ffactorau seicolegol – fel hunan-barch, hunangysyniad, perthynas gyda'r teulu a phartneriaid a straen.



Mae'r ddadl 'natur-magwraeth' ('*nature-nurture*') yn edrych ar y rhyngweithio rhwng ffactorau genetig ac amgylcheddol o ran pennu ein hiechyd a'n lles. Dylech ddeall i ba raddau y gall pobl ddylanwadu ar y ffactorau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles a goblygiadau hyn i unigolion a gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### 1.3 Hybu Iechyd a Lles

Byddwch yn dysgu bod Iechyd a Lles yn gallu cael eu diffinio mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft:

- gellir diffinio Iechyd fel diffyg clefyd sydd weithiau yn cael ei ddisgrifio fel ymagwedd fiofeddygol (*biomedical*) at Iechyd
- yn ogystal â hynny, gellir diffinio Iechyd fel cyflwr cyflawn o ran lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol sydd yn fwy na diffyg clefyd yn unig ac mae'r diffiniad hwn wedi ei seilio ar ymagwedd holistig at Iechyd
- yn aml iawn, mae pobl yn creu eu hystyr eu hunain o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn 'iach'. Mae diffiniadau personol o Iechyd a Lles yn amrywio yn ôl oedran, cefndir cymdeithasol, treftadaeth ddiwylliannol, profiadau unigol person ynghyd â'r amgylchiadau y mae'n byw ynddynt
- gellir dosbarthu afiechydon a chlefydau fel rhai cymdeithasol, seicolegol, emosiynol neu gorfforol a gellir eu diffinio fel ymddatodiad o ran Iechyd a Lles cyffredinol.

Yn aml iawn, bydd llywodraethau a charfannau annog eraill yn rhedeg ymgyrchoedd 'hybu Iechyd'. Byddwch yn dysgu bod nodau amrywiol i hybu Iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwneud pobl yn fwy ymwybodol o faterion yn ymwneud ag Iechyd
- gwella lefelau ffitrwydd yn gyffredinol
- helpu rhwystro afiechyd.

Byddwch yn dysgu am wahanol ddulliau o fynd ati i hybu Iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- canolbwyntio ar atal clefydau (gan gynnwys imiwneiddio, sgrinio); dull meddygol o hybu Iechyd yw hwn
  - annog unigolion i fabwysiadu ffyrdd o fyw iachach trwy ddarparu gwybodaeth (h.y. tystiolaeth o effeithiau ysmegu, alcohol, diet gwael; mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar addysg er mwyn newid ymddygiad.
  - Canolbwyntio ar weithredu gwleidyddol i newid yr amgylchedd ffisegol neu gymdeithasol (h.y. polisi 'dim ysmegu' mewn llefydd cyhoeddus, gwahardd hysbysebu a noddi). Mae'r dull hwn yn gweithredu ar lefel gymdeithasol.
-

## Tystiolaeth asesu

Asesir yr uned hon yn allanol.

Seilir y prawf allanol ar arholiad ysgrifenedig 1½ awr. Bydd hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau strwythuredig wedi eu seilio ar astudiaethau achos. Bydd y deunydd yn yr astudiaethau achos yn codi o:

- a agweddau ar dwf a datblygiad trwy'r holl gyfnodau bywyd gwahanol
- b ffactorau all ddylanwadu ar dwf, datblygiad ac iechyd gan gynnwys y rhai a etifeddir a'r rhai rydym yn eu magu yn ystod hyd ein hoes
- c ystyr bod yn iach a sut y gellir hybu iechyd.

Bydd y papur yn profi eich dealltwriaeth o gronfa wybodaeth yr uned a amlinellir yn adrannau *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* yr unedau ynghyd â'ch gallu i'w chymhwyso. Gofynnir i chi ddansoddi'r materion a'r problemau a gyflwynir yn yr astudiaethau achos. Ar ben hynny, disgwylir i chi werthuso tystiolaeth, barnu a llunio casgliadau oddi wrth ddeunydd a gyflwynir mewn astudiaethau achos.

---

## Cyflwyno'r uned hon

Gall llawer o'r dysgu ddigwydd trwy ddefnyddio gweithgareddau diddorol ac ymarferol. Mewn rhai achosion, bydd defnyddio gweithle ar gyfer arsylwi yn rhoi gwybodaeth berthnasol a defnyddiol. Lle nad oes modd trefnu lleoliad, gall fod angen trafodaethau, senarios ac efelychiadau i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol. Bydd ymweliadau â gweithleoedd fel meithrinfeydd, ysgolion a sefyllfaoedd preswyl yn ddefnyddiol hefyd.

### 1.1 Cyfnodau bywyd ac agweddau ar dwf a datblygiad dynol

Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o brif egwyddorion twf a datblygiad. Mae twf a datblygiad yn ddilyniannol ac yn aml ar gyflymdra gwahanol i unigolion. Dylid bod yn ofalus nad yw dysgwyr yn ystrydebu pan fyddant yn astudio datblygiad ac amrywiaethau mewn datblygiad; dylid eu hannog i weld pob person yn unigolyn. Dylai fod golwg gyffredinol o'r normau ar gyfer pob maes datblygu ym mhob cyfnod bywyd a dylid pwysleisio pwysigrwydd cyfnewidiol agweddau gwahanol ar ddatblygiad. Dylid gwneud dysgwyr yn ymwybodol o batrwm cyfnewidiol sgiliau trwy fywyd, gan gynnwys effeithiau colli rhywfaint o sgil, er enghraifft yn dilyn strôc neu ddamwain. Dylai dysgwyr ganolbwyntio ar agweddau cadarnhaol heneiddio yn ogystal â'r rheini a welir yn rhai negyddol. Er enghraifft, wrth ystyried sgiliau deallusol gallent edrych ar y newid pwyslais mewn dysgu o sgiliau sy'n ymwneud â'r gweithle i ddysgu er mwyn pleser.

Gallai cyflwyno'r uned hon gynnwys arsylwi cleientiaid e.e. babanod, plant a phobl h n. Gellid gwneud hyn mewn meithrinfeydd, ysgolion a lleoliadau preswyl. Gellir defnyddio siaradwyr gwadd anffurfiol i amlygu nodweddion a phrofiadau bywyd o'r gorffennol sy'n berthnasol i'r uned. Gallai siaradwyr anffurfiol gynnwys mamau â babanod a pherthnasau h n a allai gael eu cyfweld gan y dysgwyr. Gallai siaradwyr ffurfiol gynnwys pobl sy'n gweithio'n agos gyda phobl o un o'r cyfnodau bywyd e.e. nyrsys meithrin, gweithwyr a chynhalwyr. Dylid annog dysgwyr i dynnu ar eu gwybodaeth a'u profiadau blaenorol eu hunain er y dylid bod yn ofalus os bydd unrhyw faterion sensitif yn codi.

1.2	<b>Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad</b>	Dylai dysgwyr ddeall y gallai twf a datblygiad (gan gynnwys iechyd a lles) gael eu heffeithio gan wahanol fathau ar ffactorau. Mae dysgwyr yn deall i ba raddau mae ein hetifeddiaeth enetig a'n profiadau bywyd yn chwarae rhan a sut mae hyn wrth wraidd y ddadl 'natur-magwraeth' ( <i>nature-nurture</i> ). Mae'n bwysig fod dysgwyr yn astudio agweddau ar iechyd da. Ar wahân i'r agweddau amlwg sy'n ymwneud ag iechyd corfforol, fel pwysau, diet ac ymarfer, mae'n bwysig fod dysgwyr yn ystyried ffactorau sy'n cyfrannu at les deallusol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'n bwysig i ddysgwyr ystyried agweddau cadarnhaol a negyddol ar ffactorau all effeithio ar ddatblygiad ac iechyd, gan gynnwys y cysylltau rhwng y gwahanol feysydd datblygu. Dylid annog dysgwyr i adnabod ffactorau y mae gan bobl reolaeth drostynt a'r rheini na allant o bosibl eu newid fel rhai ffactorau cymdeithasol, economaidd neu enetig. Wrth ymdrin â ffactorau, dylid bod yn sensitif i'r gwahanol grwpiau diwylliannol ac economaidd gymdeithasol yng nghanolfan y dysgwr. Dylid rhoi sylw i ymchwil ar effaith dosbarth cymdeithasol, yn y gorffennol a'r presennol.
1.3	<b>Hybu lechyd a Lles</b>	Dylid gwneud dysgwyr yn ymwybodol bod yno wahanol ystyron i iechyd ac y gall iechyd olygu pethau gwahanol i bobl wahanol gan ddbynnu ar oedran ac amgylchiadau'r person hwnnw. Dylai dysgwyr geisio deall y cysylltau rhwng nodau gwahanol hybu iechyd a'r dulliau gwahanol o fynd ati. Dylai dysgwyr edrych ar y risgiau i grwpiau cleientiaid gwahanol neu grwpiau fel ysmygwyr neu yfwyr. Byddai adeiladu cronfa o ddeunydd hybu yn adnodd defnyddiol i'r dysgwyr. Oherwydd datblygiadau parhaus mewn ymarfer lechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'n hanfodol i athrawon sicrhau eu bod yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth a'r cyhoeddiadau mwyaf diweddar sydd ar gael wrth gynllunio cyflwyno'r uned.

## Cysylltau

### Unedau eraill

Nid yw'r uned hon yn rhagdybio gwybodaeth flaenorol ar wahân i'r deunydd yr ymdrinnir ag ef fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn CA3 a ChA4. Serch hynny, mae'n adeiladu'n dda ar syniadau a ddatblygwyd yn y TGAU mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n cysylltu'n arbennig ag:

Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

Uned 7: Diwallu Anghenion Unigol

Uned 8: Hybu lechyd a Lles

Uned 9: Ymchwilio i Glefydau

### Diwydiant

Ymweliadau â chanolfannau iechyd lleol i arsylwi a/neu siarad â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn clinigau e.e. rhoi'r gorau i ysmegu, clinig merched iach a dynion iach.

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Beckett C – *Human Growth and Development* (Cyhoeddiadau Sage Cyf, 2002)

Clarke L – *Edexcel Health and Social Care GCSE Teacher Support Pack* (Nelson Thornes, 2002)

Clarke L – *Edexcel Health and Social Care Student Resource Book* (Nelson Thornes, 2002)

Clarke L – *Health and Social Care for Advanced GNVQ* (Stanley Thornes, 2002)

Fisher A et al – *Health and Social Care GCSE* (Folens, 2003)

Haworth and Forshaw – *GCSE Health and Social Care I* (Heinemann, 2002)

Holland M et al – *Advanced Health and Social Care, 2il Argraffiad* (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2000)

Moonie N – *Advanced Health and Social Care, 3ydd Argraffiad* (Heinemann, 2000)

Thomson H et al – *Health and Social Care* (Hodder and Stoughton, 2001)

Walsh M et al – *Advanced Vocational Health and Social Care* (Collins, 2001)

### Gwefannau

Adran Iechyd [www.doh.gov.uk](http://www.doh.gov.uk)

Awdurdod Addysg Iechyd [www.hea.org.uk](http://www.hea.org.uk)

BBC [www.bbc.co.uk](http://www.bbc.co.uk)

Ein Cenedl Iachach [www.ohn.org.uk](http://www.ohn.org.uk)

Peiriant chwilio [www.google.co.uk](http://www.google.co.uk)

Ystadegau'r Llywodraeth [www.statistics.gov.uk](http://www.statistics.gov.uk)

---

## Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd

---

UG uned orfodol

Asesir yn fewnol

---

### Cyflwyniad

Bydd yr uned hon yn rhoi dealltwriaeth i chi o bwysigrwydd cyfathrebu ym mhob gweithgaredd gofalu ac am y gwerthoedd sydd yn glwm wrth ofal. Byddwch yn dysgu am sylfaen gwerthoedd gofal a throsglwyddo gwerthoedd trwy gyfathrebu.

Bydd hyn yn cynnwys:

- gwybod am gyfathrebu ynghyd â'i ddeall
- sylfaen gwerthoedd gofal (*care value base*)
- throsglwyddo gwerthoedd trwy gyfathrebu.

Bydd y dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn briodol i'r sefyllfa, neu ddefnyddiwr y gwasanaeth, a ddewiswyd ar gyfer yr uned. Tynnir hynny oddi wrth un o'r canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion arbennig.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn yr adran *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* ac fe'ch asesir ar eich gallu i'w ddethol a'i gymhwyso i'r cyd-destun cysylltiedig â gwaith rydych chi wedi ei ddewis.

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Dim.

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 2.1 Cyfathrebu

Byddwch yn dod i wybod am fathau gwahanol o gyfathrebu, gan gynnwys:

- iaith — lafar ac ysgrifenedig, ffurfiol ac anffurfiol
- arwyddo a Braille
- amrywiadau diwylliannol, gan gynnwys acenion
- cerddoriaeth, drama, celfyddydau a chrefftau
- cyfnewid gwybodaeth
- hybu perthnasoedd a chynnig cefnogaeth
- trafodaeth (*negotiation*)
- technoleg weledol, electronig ac arall.

Bydd angen i chi ddeall a dangos rhyngweithiad rhyngpersonol a'r sgiliau niferus sydd yn glwm wrth wneud cyfathrebu effeithiol yn bosibl. Mae'r sgiliau yn cynnwys:

- deall gofod personol, lleoliad sefyllfa, a phellter rhwng siaradwyr
- defnyddio iaith y corff, fel sut rydych chi'n eistedd neu'n sefyll, bod yn agored neu'n gaeedig o ran ymddaliad eich corff, agosrwydd, golwg ar eich wyneb, cyswllt llygaid, ystumio a symudiadau'r corff, tyndra'r corff, ystumiau, cysylltu a chyffwrdd, cyflwyniad personol
- sgiliau gwranddo, fel gwranddo gweithredol, gwirio dealltwriaeth, ystyried, aralleirio, bod yn barod i dderbyn, gwranddo'n astud ac ymateb, parchu hunaniaeth a'r ffurfiau o gyfarch sy'n cael eu harddel, cynhesrwydd, diffuantrwydd, a pharch, yn ogystal â pharchu distawrwydd
- defnyddio iaith briodol, gan gynnwys gofyn cwestiynau agored yn hytrach na rhai caeedig, eglurder, cyflymdra, tŷn, traw, uchder sain, anogaeth, calonogi, dull ymlaciedig, dangos empathi, bod yn gyfeillgar, bod yn bendant, monitro eich hunan, rhoi amser
- cadw cyfrinachedd fel y bo'n briodol
- adeiladu perthynas broffesiynol gyda defnyddwyr y gwasanaethau.

Ar ben hynny, byddwch yn dysgu am y rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol. Gall rhwystrau fod yn:

- amgylcheddol, fel sŷn, golau, lleoliad, diffyg preifatrwydd, ymyrraeth, gwrthdymiad, meddiannu gofod personol
- synhwyrdd, fel clywed neu weld
- diwylliannol, fel gwahaniaethau iaith, dehongli ymadroddion, rhagdybio, ystrydebau, cyfundrefnau credu, trallod emosiynol
- gwahaniaethau rhyw ac oedran
- anwybyddu iaith corff eraill, gollwng a gorfodi eich agenda eich hunan, bod yn nawddoglyd neu'n amddiffynnol
- swildod, bod yn ymosodgar
- diffyg hunanymwybyddiaeth
- brys.

Yn ogystal â'r rhwystrau hyn, mae angen i chi ddangos a gwybod am strategaethau i'w goresgyn, fel:

- cymhorthion technolegol
- dehonglwyr, cyfieithwyr ac eiriolwyr
- defnyddio cyngor arbenigol ar gyfer anawsterau cyfathrebu
- addasu'r amgylchedd
- deall gwahaniaethau diwylliannol
- deall tyndra rhwng eich credoau eich hunan ac eraill
- gwirio dealltwriaeth
- hunanymwybyddiaeth ac ymwybyddiaeth o'r angen i wella eich sgiliau eich hunan.

Yn ogystal â chyfathrebu rhyngpersonol bydd angen i chi ddangos a gwybod am gyfathrebu mewn grwpiau. Ymhlith y materion ceir:

- cynllunio, rheoli a diweddu gweithgaredd grŵp
- y camau y gall grwpiau fynd trwyddynt
- sgiliau o annog eraill, cynhwysiad, parchu a dangos gwerth i safbwyntiau eraill er mwyn gwella cydlynid y grŵp
- ffactorau sy'n peri rhwystr fel tra-arglwyddiaethu, pariad, blocio, siarad amherthnasol, anwybyddu, newid y pwnc, defnyddio terminoleg anhygyrch
- sgiliau trafodaeth, ceisio cyngor, cymryd tro.

## 2.2 Sylfaen gwerthoedd gofal

Byddwch chi'n gwybod am y syniad o sylfaen gwerthoedd gofal ynghyd â'i deall. Mae'n cynnwys egwyddorion gwaelodol pob ymarfer lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys hybu cadarnhaol o ran:

- cydraddoldeb mewn ymarfer gofal
- hawliau pobl
- parchu gwahaniaethau a dewisiadau neu flaenoriaethau eraill mewn ffordd gadarnhaol
- ymarfer gwrthwahaniaethol ar sail hil, credo, rhyw, anabledd neu ddiwylliant, statws iechyd, gallu gwybyddol neu iechyd meddwl, cefndir, bro gynefin, statws priodasol neu rywioldeb
- cyfrinachedd ac ymddiriedaeth, wrth gofnodi a chadw cofnodion ac o ran preifatrwydd wrth sgwrsio
- cefnogaeth ac eiriolaeth.

Bydd angen i chi ddeall pwysigrwydd deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â'r modd mae defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu trin. Bydd angen i chi ddysgu'r hyn sydd ei angen ar gyfer amgylchedd gweithio diogel a chadarn sy'n gwerthfawrogi hawliau defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr gofal. Mae hyn yn cynnwys:

- deddfwriaeth cyfle cyfartal (h.y. Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw, Deddf Cysylltiadau Hiliol, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd)
- deddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfrinachedd (h.y. Deddf Gwarchod Data)
- materion moesegol sy'n ymwneud â chyfrinachedd ac ymddiriedaeth

- siarteri, codau ymarfer a pholisiau mewn sefydliadau gofal (h.y. Siarter Cleifion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, codau moeseg, Deddf Gofal yn y Gymuned y Gwasanaeth Iechyd Gwladol).

Ar ben hynny, byddwch yn dysgu bod rhaid i weithwyr gofal drin pob defnyddiwr gwasanaethau heb wahaniaethu annheg achos gall ymarfer gwahaniaethol effeithio ar synnwyr lles pobl ac arwain at golli hunan-barch neu hunanwerth.

Hefyd, mae'n bwysig deall y dylai pobl sy'n derbyn gofal gynnal a datblygu synnwyr o gael grym (empowerment) yn hytrach na themlo'n ddibynnol ar eraill.

Bydd angen i chi ddeall y gall rhai pobl gael eu heffeithio gan anghydraddoldeb o fewn y gymdeithas, fel pobl sy'n anabl, yn hŷn, ag anfantais economaidd a/neu addysgol, wedi eu hymyleiddio neu heb fod â gwasanaethau o fewn cyrraedd hwylus iddynt.

Byddwch yn dysgu am effeithiau ystrydebu a labelu e.e. 'yr oedrannus' neu 'yr anabl'.

Hefyd, byddwch yn adnabod eich credoau a rhagfarnau eich hunan ac yn deall yr angen i herio ymddygiad gwahaniaethol. Bydd gennych ymwybyddiaeth o faterion moesegol wrth gydbwysu hawliau unigolion â hawliau eraill.

Byddwch yn dysgu am egwyddor cydraddoldeb, y cysyniad o oddefgarwch, cylch anfantais, hawliau moesol unigolion, a manteision amrywiaeth yn ein cymdeithas.

### 2.3 Trosglwyddo gwerthoedd

Byddwch yn dysgu am sut mae gwerthoedd yn cael eu cyfleu mewn unrhyw sefyllfa gofal ac yn dangos hynny. Gellir gwneud hyn trwy:

- sefydlu a chynnal perthnasau yn gadarnhaol
- dod i nabod defnyddwyr y gwasanaeth mewn ffordd sensitif a rhannu profiadau
- dangos ymwybyddiaeth o anghenion
- hybu hunaniaeth person mewn ffordd gadarnhaol
- parchu gwahaniaethau unigol
- parchu gwerth unigolion ym mhob rhyngweithiad gan gynnwys urddas personol
- ystyried dewis a blaenoriaeth
- annog annibyniaeth a chefnogaeth
- cyfrinachedd gwybodaeth a thrafodaeth
- canmol.



## Tystiolaeth asesu

Dylai'r dystiolaeth asesu gynnwys adroddiad am rhyngweithiad mewn cyddestun gweithle perthnasol yn y sector gofal, rhyngoch chi a pherson o un o'r sefyllfaoedd neu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl hŷn
- unigolion ag anghenion arbennig.

Gall y rhyngweithiad fod naill ai'n rhyngweithiad grŵp neu'n rhyngweithiad un-i-un. Er mwyn ennill marciau uwch yn yr asesiad hwn, dylid bod wedi cynnal mwy nag un rhyngweithiad a gwneud cymhariaeth rhwng y rhyngweithiadau.

Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys tystiolaeth o bob un o'r canlynol:

- a y mathau a'r amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu rydych chi wedi eu defnyddio ac ymwybyddiaeth o'r sylfaen gwerthoedd gofal
- b trosglwyddo'r gwerthoedd gofal yn y ffordd rydych chi wedi cyfathrebu â'r person dan sylw
- c rhwystrau posibl rhag cyfathrebu a sut gwnaethoch chi eu goresgyn
- ch gwerthusiad o'r rhyngweithiad(au) a'r casgliadau y daethpwyd atynt o'r dystiolaeth a gasglwyd.

Pan fyddwch chi'n cynnal cyfweiliadau neu weithgareddau â chleientiaid, fel rhan o'ch gwaith a asesir yn fewnol, mae'n hanfodol eich bod yn cael caniatâd y cleient ac yn cadw cyfrinachedd llawn trwy'r amser.

---

## Meini prawf asesu

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(a) (AA1)	<p>Bydd adroddiad y dysgwr yn dangos bod ganddo/ganddi wybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o gyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd a sut mae hyn yn cael ei gymhwyso i ryngweithiad â chleient.</p> <p>Byddant yn rhoi o leiaf un enghraifft o'r defnydd o gyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd.</p> <p>Mae'n debyg y bydd peth defnydd o eirfa arbenigol ond bydd hyn yn gyfyngedig.</p> <p>Nid yw'r adroddiad yn gywir bob amser ac yn anaml mae'r dysgwr yn esbonio ei g/waith yn llawn.</p> <p>Ceir peth anghywirdeb a bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(0-10)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwr yn dangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth dda o gyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd a sut mae hyn yn cael ei gymhwyso i ryngweithiad â chleient.</p> <p>Byddant yn rhoi o leiaf dair enghraifft ac esboniad o'r defnydd o gyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd.</p> <p>Ceir defnydd da o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwr bob amser yn esbonio ei g/waith yn llawn.</p> <p>Prin yw'r anghywirdeb neu fylchau a geir.</p> <p style="text-align: right;">(11-15)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o gyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd a sut mae hyn yn cael ei gymhwyso i ryngweithiadau â chleientiaid.</p> <p>Byddant yn rhoi enghreifftiau ynghyd ag esboniadau a chymariaethau manwl yngl n â'r defnydd o gyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd.</p> <p>Ceir defnydd helaeth o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir a'r dysgwr yn esbonio ei g/waith yn llawn.</p> <p>Ni cheir unrhyw anghywirdeb neu fylchau arwyddocaol.</p> <p style="text-align: right;">(16-20)</p>	20

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(b) (AA2)	<p>Mae'r dysgwr yn dangos y gallu i gymhwyso ei g/wybodaeth a'i dd/dealltwriaeth i gyd-destun yn y gweithle.</p> <p>Gwelir y dystiolaeth am hyn yn adroddiad y dysgwr â disgrifiadau byr o sut mae cyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd yn cael eu cysylltu â'r cyd-destun arbennig yn y gweithle.</p> <p>Nid yw'r adroddiad bob amser yn gywir, mae'n ddisgrifiadol a'r esboniad yn gyfyngedig.</p> <p>Ceir peth defnydd o eirfa arbenigol ond mae'n gyfyngedig.</p> <p style="text-align: right;">(0-9)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos y gallu i gymhwyso ei g/wybodaeth a'i dd/dealltwriaeth i gyd-destun yn y gweithle.</p> <p>Gwelir y dystiolaeth am hyn yn adroddiad y dysgwr yn esbonio sut mae cyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd yn cael eu cysylltu â'r cyd-destun arbennig yn y gweithle.</p> <p>Ceir defnydd da o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwr yn cymhwyso gwybodaeth yn llawn.</p> <p style="text-align: right;">(10-14)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos y gallu i gymhwyso ei g/wybodaeth a'i dd/dealltwriaeth yn briodol ac yn gywir mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn y gweithle.</p> <p>Gwelir y dystiolaeth am hyn yng ngallu'r dysgwr i esbonio sut mae cyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd yn cael eu cysylltu nid yn unig â'r cyd-destun arbennig yn y gweithle ond hefyd sut gallant gael eu cymhwyso mewn nifer o gyd-destunau tebyg.</p> <p>Ceir defnydd helaeth o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir a'r dysgwr yn cymhwyso gwybodaeth yn llawn.</p> <p style="text-align: right;">(15-18)</p>	18

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(c) (AA3)	<p>Mae'r dysgwr yn dangos sgiliau sylfaenol wrth ddod o hyd i wybodaeth a phrin yw'r dystiolaeth o ymchwil annibynnol a chasglu tystiolaeth.</p> <p>Mae'r nifer o ffynonellau perthnasol a ddefnyddir yn gyfyngedig.</p> <p>Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig ac nid yw bob amser yn berthnasol.</p> <p>Prin yw'r dadansoddi o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>(0-5)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos sgiliau da wrth ddod o hyd i wybodaeth.</p> <p>Ceir tystiolaeth o ymchwil annibynnol a chasglu gwybodaeth.</p> <p>Tynnir yr wybodaeth oddi wrth nifer o ffynonellau ac mae'n berthnasol ac yn ddigonol.</p> <p>Ceir dadansoddi ond fe all fod diffyg manylder.</p> <p>Gwneir cysylltau perthnasol â materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>(6-8)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos sgiliau ardderchog wrth ddod o hyd i wybodaeth a'i chymhwyso.</p> <p>Mae'r dysgwr yn dangos menter wrth gynllunio ei dd/dulliau ei hun o ddod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth.</p> <p>Mae'r wybodaeth yn berthnasol ac yn helaeth ac wedi ei thynnu oddi wrth nifer o ffynonellau o fathau gwahanol.</p> <p>Ceir llawer o gysylltau priodol â materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>Ceir dadansoddi da, manwl sy'n cynnwys dadansoddi materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>(9-11)</p>	11
(ch) (AA4)	<p>Mae'r dysgwr yn dangos lefel sylfaenol o sgiliau gwerthuso.</p> <p>Mae'r dysgwr yn gallu trafod ond crynodeb yn hytrach na chasgliadau a geir. Mae unrhyw gasgliadau yn syml ac yn cael eu cynnig ar y cyfan heb ddadl i'w cefnogi.</p> <p>(0-5)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos sgiliau gwerthuso da ac yn llunio casgliadau clir, wedi eu rhesymu a'u seilio ar dystiolaeth.</p> <p>(6-8)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos sgiliau gwerthuso ardderchog.</p> <p>Llunnir casgliadau dilys o'r dystiolaeth a gyflwynir. Mae'r casgliadau hyn yn glir, yn fanwl ac wedi eu rhesymu'n dda.</p> <p>(9-11)</p>	11
<b>Cyfanswm y marciau</b>				<b>60</b>

Gweler Atodiad CH: Disgrifiadau Perfformiad am ddisgrifiadau'r AA

# Canllaw asesu

## Band Marciau 1

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad am ymgymryd â rhyngweithiad mewn cyd-destun a ddewiswyd yn y gweithle a ddylai fod naill ai â phobl sy'n sâl, pobl hŷn, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc. Gall y rhyngweithiad fod naill ai ag unigolyn neu grŷp.

### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o natur cyfathrebu effeithiol a'r mathau ac ystod o sgiliau sydd yn glwm wrth gyfathrebu yn y sector gofal. Hefyd, dylent ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sylfaen gwerthoedd gofal a throsglwyddo gwerthoedd trwy gyfathrebu yn unol â'r hyn a nodir ac fel mae'n berthnasol yn adrannau 2.1, 2.2 a 2.3.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos lefel isel iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd. Mae'n rhoi un enghraifft o'r defnydd ohonynt ac mae defnydd cyfyngedig iawn o eirfa arbenigol yn yr adroddiad. Yn aml iawn, nid yw'r adroddiad yn gywir ac mae cryn fylchau ynddo. Nid yw'r dysgwr yn cynnig esboniadau ac mae angen cryn arweiniad i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd. Mae'n rhoi un neu ddwy enghraifft o'r defnydd ohonynt ac mae defnydd cyfyngedig o eirfa arbenigol yn yr adroddiad. Nid yw'r adroddiad bob amser yn gywir ac mae peth bylchau ynddo. Prin yw'r esboniadau ac mae angen peth arweiniad ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos, gyda thystiolaeth, ystod gyfyngedig o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo ar lefel sylfaenol. Dylai fod peth annibyniaeth yn natur y dystiolaeth, e.e. tystiolaeth tyst ac ni ddylai gael ei chyfyngu i dystiolaeth y dysgwyr eu hunain. Ar ben hynny, dylai dysgwyr ddangos sut maent wedi cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau yn gywir mewn cyd-destun yn y gweithle o fewn i'r sector lechyd a Gofal Cymdeithasol, ond efallai na fydd hyn wedi ei gysylltu'n benodol â'r cyd-destun yn y gweithle ei hun.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos defnydd sylfaenol iawn o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn cyd-destun yn y gweithle. Mae'r adroddiad yn ddisgrifiadol heb esboniadau. Defnydd cyfyngedig iawn o eirfa arbenigol a geir a'r adroddiad yn aml yn wallus ac yn esgeulus iawn. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos defnydd sylfaenol o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn cyd-destun yn y gweithle. Mae'r adroddiad yn ddisgrifiadol a phrin yw'r esboniadau. Ceir defnydd cyfyngedig o eirfa arbenigol ac mae'r adroddiad yn aml yn wallus â pheth bylchau. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddefnyddio ystod gyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth wrth ymgymryd â'u hymchwil a dangos sgiliau gan ddefnyddio technegau penodol. Prin fydd y dadansoddi o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle e.e. rhwystrau rhag cyfathrebu.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos sgiliau sylfaenol iawn wrth ddod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio un ffynhonnell yn unig. Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig iawn a heb fod yn berthnasol yn aml. Ni cheir dadansoddiad o faterion a phroblemau'n ymwneud â'r gweithle. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos sgiliau sylfaenol wrth ddod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio un neu ddwy ffynhonnell. Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig a heb fod yn berthnasol bob amser. Prin yw'r dadansoddi o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i werthuso tystiolaeth, disgrifio pwyntiau da a drwg yn y rhyngweithiad gan gynnig crynodebau yn hytrach na chasgliadau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn disgrifio nifer gyfyngedig o bwyntiau da a drwg (un neu ddau bwynt da a drwg). Cynigir crynodeb byr ac mae angen cryn arweiniad ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn disgrifio nifer resymol o bwyntiau da a drwg (tri neu bedwar pwynt da a drwg). Cynigir crynodeb ac mae angen peth arweiniad ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

**Band Marciau 2**

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir a manwl am ymgymryd â rhyngweithiad mewn cyd-destun a ddewiswyd yn y gweithle a ddylai fod naill ai â phobl sy'n sâl, pobl h n, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc. Dylai'r rhyngweithiad fod naill ai ag unigolyn neu gr p.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos, y tu hwnt i lefel sylfaenol, wybodaeth a dealltwriaeth o natur cyfathrebu effeithiol a'r mathau ac ystod o sgiliau sydd yn glwm wrth gyfathrebu yn y sector gofal, nodweddion cyfathrebu mewn grwpiau, y sylfaen gwerthoedd gofal a throsglwyddo gwerthoedd trwy gyfathrebu mewn gofal. Mae angen i'r rhain fod yn unol â'r hyn a nodir ac fel mae'n berthnasol yn adrannau 2.1, 2.2 a 2.3.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos lefel foddhaol o wybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd. Maent yn rhoi tair enghraifft o'r defnydd ohonynt gydag esboniadau byr. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ond nid mor aml â phosibl. Mae'n gywir ond heb gael ei esbonio'n dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd. Maent yn rhoi tair neu bedair enghraifft o'r defnydd ohonynt gydag esboniadau da. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir trwy'r rhan fwyaf o'r adroddiad. Mae'n gywir â pheth esboniad ond heb ei esbonio'n llawn. Ychydig iawn o arweiniad sydd ei angen ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos, gyda thystiolaeth, ystod o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo y tu hwnt i lefel sylfaenol. Dylai'r dystiolaeth gynnwys sgiliau cyfathrebu effeithiol yn ogystal â throsglwyddo gwerthoedd y dylid cyfeirio ato'n benodol gan y dysgwr. Dylai fod peth annibyniaeth yn natur y dystiolaeth, e.e. dylid dod o hyd i dystiolaeth tyst oddi wrth fwy nag un ffynhonnell. Ni ddylai'r rhain gael eu cyfyngu i dystiolaeth y dysgwyr eu hunain. Ar ben hynny, dylai dysgwyr ddangos sut maent wedi cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau yn gywir mewn cyd-destun yn y gweithle o fewn i'r sector lechyd a Gofal Cymdeithasol a dylent ymwneud yn benodol â chyd-destun y gweithle ei hun.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos defnydd boddhaol o ystod o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo. Mae'r adroddiad yn dangos bod yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau wedi cael eu cymhwyso'n foddhaol mewn cyd-destun yn y gweithle ond yn aml nid yw hyn yn cael ei esbonio'n llawn. Mae angen arweiniad cyfyngedig arnynt i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos defnydd da o ystod o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo. Mae'r adroddiad yn dangos bod yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau wedi cael eu cymhwyso'n dda mewn cyd-destun yn y gweithle er nad yw hyn yn gyflawn. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn arnynt i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau da wrth ddod o hyd i wybodaeth oddi wrth nifer o ffynonellau, gan gynnwys tystiolaeth o ddangos sgiliau. Gwneir cysylltau â materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle, e.e. rhwystrau rhag cyfathrebu. Bydd dysgwyr yn medru awgrymu ffyrdd o oresgyn y fath rwystrau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau boddhaol wrth ddod o hyd i wybodaeth wedi ei thynnu oddi wrth dair ffynhonnell. Bydd o leiaf un o'r ffynonellau hyn yn dangos sgiliau ymchwilio annibynnol. Bydd yr wybodaeth yn berthnasol ac yn ddigonol a bydd dadansoddiad byr ond fe all fod yn brin o fanylion. Bydd dysgwyr yn derbyn arweiniad cyfyngedig.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau da wrth ddod o hyd i wybodaeth wedi ei thynnu oddi wrth dair neu bedair ffynhonnell. Bydd un neu ddwy o'r ffynonellau hyn yn dangos sgiliau ymchwilio annibynnol. Bydd yr wybodaeth yn berthnasol ac yn ddigonol a bydd dadansoddiad ond fe all fod yn brin o fanylion. Bydd dysgwyr yn derbyn arweiniad cyfyngedig iawn.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i werthuso tystiolaeth a gwneud rhai casgliadau rhesymedig am eu gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn y sector gofal a throsglwyddo gwerthoedd trwy gyfathrebu.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir i'r dysgwyr ddangos sgiliau gwerthuso boddhaol a thynnu casgliadau byr ond rhesymedig. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir i'r dysgwr ddangos sgiliau gwerthuso da a thynnu casgliadau rhesymedig wedi eu seilio ar dystiolaeth. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

### Band Marciau 3

Er mwyn ennill y marciau uwch yn yr asesiad hwn, dylid bod wedi cyflawni mwy nag un rhyngweithiad a gwneud cymhariaeth rhwng y rhyngweithiadau.

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir, manwl a threiddgar am ymgymryd â mwy nag un rhyngweithiad mewn cyd-destun a ddewiswyd yn y gweithle a ddylai fod naill ai â phobl sy'n sâl, pobl hŷn, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc. Dylai'r rhyngweithiadau fod naill ai ag unigolyn neu grŵp a dylent ddigwydd mewn sefyllfaoedd gwahanol yng nghyd-destun y gweithle, e.e. gofal personol, amser bwyd, ymgymryd â gweithgareddau.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos, yn yr adroddiad, wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o natur cyfathrebu effeithiol a'r mathau ac ystod o sgiliau sydd yn glwm wrth gyfathrebu yn y sector gofal, y sylfaen gwerthoedd gofal a throsglwyddo gwerthoedd trwy gyfathrebu mewn gofal. Mae angen i'r rhain fod yn unol â'r hyn a nodir ac fel mae'n berthnasol yn adrannau 2.1, 2.2 a 2.3.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd. Mae'n darparu tystiolaeth a chymariaethau boddhaol yn glŵn â'u defnydd trwy'r adroddiad i gyd. Mae'r adroddiad yn defnyddio geirfa arbenigol gywir ymron pob sefyllfa. Mae'n gywir ac fel arfer, wedi ei esbonio'n dda. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos lefel uchel iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo gwerthoedd. Mae'n darparu digonedd o dystiolaeth a chymariaethau yn glŵn â'u defnydd trwy'r adroddiad i gyd. Mae'r adroddiad yn defnyddio geirfa arbenigol gywir ym mhob sefyllfa. Mae'n gywir ac wedi ei esbonio'n dda iawn. Mae'r dysgwr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos, gyda thystiolaeth, ystod o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo ar lefel uchel. Dylai'r dystiolaeth gynnwys sgiliau cyfathrebu effeithiol yn ogystal â throsglwyddo gwerthoedd y dylid cyfeirio atynt yn benodol gan y dysgwr. Gan ddefnyddio technegau priodol, wedi eu rhoi a'u dyfeisio gan y dysgwr, dylai fod tystiolaeth annibynnol o'r sgiliau hyn, e.e. tystiolaeth tyst. Dylid deillio tystiolaeth oddi wrth ddau rhyngweithiad. Ar ben hynny, mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos sut maent wedi cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau yn gywir ac yn annibynnol, gyda'r arweiniad lleiaf, i gyd-destun yn y gweithle yn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol a'u cysylltu'n benodol â'r cyd-destun yn y gweithle.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos defnydd da o ystod o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo. Mae'r adroddiad yn dangos lefel uchel o gymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn cyd-destun yn y gweithle. Dylent gyflawni dau rhyngweithiad ac esbonio sut maent yn wahanol i'w gilydd. Mae'r adroddiad yn defnyddio geirfa arbenigol gywir ym mron pob sefyllfa. Mae'n gywir ac fel arfer wedi ei esbonio'n dda. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.



Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos defnydd ardderchog o ystod o sgiliau cyfathrebu a throsglwyddo. Mae'r adroddiad yn dangos lefel uchel iawn o gymhwysu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau yng nghyd-destun y gweithle. Dylent gyflawni dau ryngweithiad ac esbonio'n llawn sut yr oedd y rhain yn wahanol i'w gilydd. Mae'r adroddiad yn defnyddio geirfa arbenigol gywir ym mhob sefyllfa. Mae'n gywir ac wedi ei esbonio'n dda iawn. Mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau ardderchog wrth ddod o hyd i wybodaeth a dyfeisio a chynllunio eu dulliau eu hunain i ddod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth, defnyddio technegau priodol ac ystod eang o ffynonellau gwybodaeth. Hefyd, mae'n rhaid iddynt ddadansoddi materion sy'n ymwneud â'r gweithle yngl n â'r defnydd o'r sylfaen gwerthoedd gofal a sgiliau cyfathrebu. Dylid dadansoddi rhwystrau gwahanol rhag cyfathrebu ac awgrymu strategaethau i oresgyn y rhwystrau hyn.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos sgiliau da iawn wrth ddod o hyd i wybodaeth trwy eu dulliau eu hunain oddi wrth o leiaf dair ffynhonnell o fathau gwahanol. Bydd yr wybodaeth yn berthnasol ac yn eang a cheir dadansoddiad manwl fydd yn cynnwys rhai materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle. Dim ond weithiau bydd dysgwyr yn derbyn cymorth.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos sgiliau ardderchog wrth ddod o hyd i wybodaeth trwy eu dulliau eu hunain oddi wrth o leiaf bedair ffynhonnell o fathau gwahanol. Bydd yr wybodaeth yn berthnasol ac yn eang a cheir dadansoddiad da, manwl fydd yn dadansoddi llawer o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddadansoddi a gwerthuso tystiolaeth gan dynnu casgliadau dilys a barnu'n rhesymedig oddi wrth y dystiolaeth a gyflwynir a dangos lefel uchel o feddwl a menter annibynnol.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir bod y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso da iawn ac yn tynnu casgliadau rhesymedig gyda pheth manylder. Dim ond weithiau bydd angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir bod y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso ardderchog ac yn tynnu casgliadau rhesymedig a manwl. Dim ond weithiau mae angen cymorth arnynt i gwblhau'r gwaith. Mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

---

## Cyflwyno'r uned hon

Dylai canolfannau nodi'r defnydd o'r derminoleg 'cyd-destun y gweithle' yma. Mae hyn yn cyfeirio at sefyllfa gofal benodol a all fod ar gyfer naill ai pobl h n, unigolion ag anghenion arbennig, y rhai sy'n sâl neu blant ifanc.

Hefyd, bydd angen mynd i'r afael â ffyrdd gwahanol o ddangos tystiolaeth o sgiliau os yw dysgwyr i ddiwallu'r meini prawf asesu lefel uwch ar gyfer yr uned hon. Fel arfer bydd angen arwain dysgwyr o ran cyd-destun y gweithle maent yn ei ddefnyddio ar gyfer eu hadroddiad. Fel y gellir gweld yn y cyflwyniad, cânt ddewis naill ai sefyllfa gofal i bobl h n, pobl sy'n sâl, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc. Bydd angen i ddysgwyr ymarfer gwneud nodiadau ar eu rhyngweithiadau ag eraill yn sefyllfa'r ystafell ddsbarth.

Dylai canolfannau nodi efallai na fyddai ysgol gynradd, er ei bod yn hygyrch, yn gyd-destun delfrydol o ran y gweithle i ddod o hyd i dystiolaeth am yr uned hon. O ran plant ifanc, byddai meithrinfa lle mae elfen fwy o ofal yn gyd-destun mwy priodol. Lle na all dysgwyr, am ba reswm bynnag, ddod o hyd i'w tystiolaeth i'r rhyngweithiad mewn sefyllfa gofal, gallant chwarae rôl cyfathrebu mewn cyd-destun yn y gweithle. Dylai canolfannau nodi, fodd bynnag, nad yw hyn bob amser yn hawdd os yw dysgwyr i osgoi ymddygiad ystrydebol.

### 2.1 Cyfathrebu

Er bod tuedd ymarferol gref i'r uned hon, bydd angen i ddysgwyr feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o gyfathrebu, y gwahanol sgiliau a mathau o gyfathrebu, rhwystrau sy'n effeithio ar gyfathrebu a strategaethau i oresgyn rhwystrau.

Argymhellir ymweliadau â sefyllfaoedd gofal gwahanol (yng nghyd-destunau'r gweithle) gan fod y rhain yn galluogi dysgwyr i edrych ar 'gyfathrebu' yn digwydd o fewn sefyllfa ac archwilio sut mae 'cyfathrebu' yn digwydd.

Ar ben hynny, bydd angen i ddysgwyr ddeall ystod o ffactorau sy'n ymwneud â defnyddio sgiliau cyfathrebu yn effeithiol mewn sefyllfaoedd rhyngpersonol a gr p a'r sefyllfaoedd gwahanol lle mae cyfathrebu yn digwydd mewn sefyllfa gofal (yng nghyd-destun y gweithle) fel amser bwyd, ymgymryd â gweithgareddau a gofal personol.

Gall dysgwyr nodi rhwystrau rhag cyfathrebu a strategaethau i oresgyn rhwystrau naill ai yn ystod ymweliad neu yn eu sefyllfaoedd chwarae rôl eu hunain. Wedyn bydd angen i ddysgwyr archwilio eu sgiliau eu hunain a sut y gallant gyfathrebu mewn sefyllfa gofal.

### 2.2 Sylfaen gwerthoedd gofal

Bydd angen i ddysgwyr ddeall egwyddorion y sylfaen gwerthoedd gofal sydd wrth wraidd holl ymarfer lechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â'r blynyddoedd cynnar.

Awgrymir gwneud defnydd helaeth o fideo, chwarae rôl ac efelychu fel y gall dysgwyr ymarfer eu sgiliau mewn sefyllfa ymlaciedig cyn bod angen dangos sut mae gwerth yn cael ei gyfleu.

### 2.3 Trosglwyddo gwerthoedd

Ceir cyflwyno'r uned drwy brofiadau a thrwy ddefnyddio fideo o gyfathrebu mewn cyd-destunau lechyd a Gofal Cymdeithasol, (gall rhaglenni teledu fel Holby City a Casualty fod yn ddefnyddiol yma). Yn anad dim, dylid astudio trosglwyddo gwerthoedd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i symud tuag at ddeall sut mae gwerthoedd yn cael eu trosglwyddo trwy broses o gyfathrebu.

## Cysylltau

Unedau eraill	Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol Uned 7: Diwallu Anghenion Unigol
Dyfarniadau galwedigaethol eraill	Diplomâu Cenedlaethol BTEC mewn Gofal, Blynyddoedd Cynnar ac Iechyd CGC Lefel 3 mewn Gofal

---

## Adnoddau

Gwerslyfrau	Burnard P et al – <i>Caring and Communicating</i> (Palgrave Macmillan, 1997) Egan G – <i>The Skilled Helper, 6ed Argraffiad</i> (Sage, 1997) Fuzey J – <i>Improving Communication Skills for Better Care</i> (Hartman) Pease A – <i>Body Language</i> (Gwasg Sheldon, 2003) Robb M – <i>Communication, Relationships and Care: A Reader</i> (Routledge, 2004) Vanservellen G – <i>Communication skills for the Health Professional: Concepts and Techniques</i> (Aspen, 1996)
Gwefannau	Adran Iechyd <a href="http://www.doh.gov.uk">www.doh.gov.uk</a> Awdurdod Addysg Iechyd <a href="http://www.hea.org.uk">www.hea.org.uk</a> BBC <a href="http://www.bbc.co.uk">www.bbc.co.uk</a> Our Healthier Nation <a href="http://www.ohn.org.uk">www.ohn.org.uk</a>
Fideo	Gallai rhaglenni teledu fel Casualty a Holby City fod yn ddefnyddiol i'r uned hon.

---



## Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

---

UG uned orfodol

Asesir yn fewnol

---

### Cyflwyniad

Bydd yr wybodaeth a enillwch o'r uned hon yn gadael i chi ddeall bod ymarfer gofal cadarnhaol yn dibynnu ar ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r gymdeithas amryfal yr ydym yn byw ynddi a bod hybu sylfaen gwerthoedd gofal yn gallu gwella'r cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau gael mynd at wasanaethau.

Ar ôl cwblhau'r uned hon byddwch yn deall bod gan gyrff a chymdeithas gyfrifoldeb i warchod a diogelu hawliau'r sawl sy'n fregus ac mai'r unig ffordd effeithiol o wneud hyn yw trwy bolisi a deddfwriaeth ffurfiol.

Bydd y dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn briodol i'r sefyllfa, neu ddefnyddiwr y gwasanaeth, a ddewiswyd ar gyfer yr uned. Tynnir hynny oddi wrth un o'r canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn yr adran *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* ac fe'ch asesir ar eich gallu i'w ddethol a'i gymhwyso i'r cyd-destun yn y gweithle rydych chi wedi ei ddewis.

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 3.1 Gwerthoedd a hawliau unigol

Yn yr adran hon byddwch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd egwyddor cydraddoldeb, yn enwedig mewn cymdeithas amlddiwylliannol ac amrywiol.

Byddwch yn deall yr angen, o fewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, i gael sylfaen gwerthoedd sy'n pwysleisio:

- cyfrinachedd
- cyfathrebu effeithiol
- ymarfer gwrthwahaniaethol
- rhoi grym (*empowerment*)
- parch at ddewis yr unigolyn, hunaniaeth, diwylliant a chredoau.

Byddwch yn darganfod sut mae cyrff wedi cydnabod hawliau defnyddwyr gwasanaethau trwy bolisiau a dulliau gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys polisiau cyfrinachedd ac eiriolaeth a'r gwahanol ffyrdd o unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau os nad yw eu hanghenion arbennig nhw wedi cael eu diwallu'n ddigonol.

### 3.2 Rhwystrau rhag mynediad

Prif ffactor sy'n llesteirio rhai defnyddwyr gwasanaethau rhag cael gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt yw'r rhwystrau y maent yn dod ar eu traws. Mae'r fath rwystrau yn cynnwys:

- rhwystrau iaith/cyfathrebu
- rhwystrau trefniadaethol
- rhwystrau emosiynol
- rhwystrau daearyddol a rhwystrau corfforol.

Byddwch yn dallu dangos sut gall rhwystrau effeithio ar hawl unigolyn i fynediad a sut y gellir eu goresgyn trwy ymarfer trefniadaethol.

Ar ben hynny, mae rhai defnyddwyr gwasanaethau yn profi gwahaniaethu, labelu, ystrydebu neu ragfarn wrth gyrchu gwasanaethau. Bydd angen i chi adnabod, a dangos gwybodaeth o'r prif grwpiau mewn cymdeithas sy'n agored i'r fath driniaeth annheg.

Byddwch yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o seiliau gwahaniaethu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhyw
- anabled
- ethnigrwydd.

Ar ben hynny, bydd angen i chi allu esbonio'r mathau ar wahaniaethu sy'n digwydd fel gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol a sut maent yn gymwys mewn cyd-destun penodol.

Bydd angen i chi allu esbonio a thrafod canlyniadau gwahaniaethu ar yr unigolyn, fel:

- cael eich ymyleiddio (*marginalised*)
- eithrio cymdeithasol
- llai o gyfleoedd mewn bywyd
- tynnu grym (*disempowerment*)
- cylch gormes.

### 3.3 Creu amgylchedd cadarnhaol

Gofynnir i chi ddangos dealltwriaeth o sut y gall yr wybodaeth gael ei chymhwyso i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol.

Dau ffactor sy'n ganolog o ran creu amgylchedd gofal cadarnhaol yw'r ymarferwr unigol a'r sefydliad.

Fel ymarferwyr gofal, mae gennym gyfrifoldeb i herio ymddygiad ac ymarferion sy'n gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaethau ac ar yr un pryd, hybu rhyngweithio ac ymarfer cadarnhaol pa bryd bynnag y bo modd.

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o effaith gadarnhaol a negyddol cysyniadau fel:

- cymdeithasoli
- rhagfarnau
- normau
- gwerthoedd
- credoau.

A hyn i gyd o fewn i faes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ar yr un pryd, byddwch yn dysgu sut gall derbyn a chymhwyso sylfaen gwerthoedd gofal, gan ddefnyddio iaith briodol a herio ymddygiad eraill, helpu creu amgylcheddau gofal mwy cadarnhaol.

Hefyd, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o sut gall maint, strwythur a diwylliant trefniadaethol arwain at ymarfer gwahaniaethol ac ar y gwaethaf, wahaniaethu sefydliadol. Byddwch yn deall sut gall sefydliadau oresgyn y fath anfanteision trwy ddatblygu a gweithredu polisi ac ymarfer cadarnhaol.

Byddwch yn gallu cymhwyso eich gwybodaeth o sut gall sefydliadau oresgyn y fath ddylanwadau negyddol a hybu amgylchedd mwy cadarnhaol trwy dderbyn, monitro a gwerthuso polisiau a dulliau gweithredu gan gynnwys:

- polisi cyfle cyfartal
- datganiadau o genhadaeth
- codau ymarfer – UKCC/BASW
- recriwtio a dethol
- datguddio arferion annerbyniol
- cyfrinachedd
- eiriolaeth
- iechyd a diogelwch
- hyfforddiant ac addysg/datblygu proffesiynol
- nyrs benodol/gweithiwr allweddol
- cwyn a disgyblaeth
- mynediad i bobl anabl.

### 3.4 Sut mae cymdeithas yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau

Mae gan gymdeithas gyfrifoldeb moesol i ddiogelu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Er mwyn cwrdd â'r cyfrifoldeb hwnnw, gweithredwyd deddfwriaeth i amddiffyn defnyddwyr gwasanaethau rhag gwahaniaethau trwy nodi systemau unioni cam a sut gellir hybu hawliau defnyddwyr trwy'r gwasanaethau y maent yn eu cyrchu.

Bydd angen i chi wybod am gyfrifoldebau sefydliad a phwysigrwydd deddfwriaeth

Bydd angen i chi:

- dysgu prif gysyniadau deddfwriaeth ddiweddaraf y DU a'r UE
- deall y goblygiadau i sefydliadau gofal o beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth y DU a'r UE
- deall sut mae systemau unioni cam (*systems of redress*) wedi cael eu datblygu i ddiogelu a hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau, fel dulliau o ymdrin â chwynion o fewn sefydliad, tribiwnlysoedd, Comisiwn Cyfle Cyfartal, Comisiwn Cysylltiadau Hiliol, Comisiwn Iawnderau Dynol a Chomisiwn Iawnderau Anabledd.

---

## Tystiolaeth asesu

Bydd y dystiolaeth asesu ar gyfer yr uned hon yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig ar sut mae un o'r grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau a nodir isod yn cyrchu gwasanaethau.

Bydd y dystiolaeth a gyflwynir yn briodol i un o'r sefyllfaoedd neu ddefnyddwyr gwasanaethau canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl hŷn
- unigolion ag anghenion penodol

Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- a hawliau defnyddwyr gwasanaethau wrth gyrchu gwasanaethau
- b y rhwystrau potensial a brofir gan y grŵp hwnnw o ddefnyddwyr gwasanaethau wrth gyrchu gwasanaethau ac effeithiau'r rhwystrau hyn
- c polisiâu ac ymarferion ar ran ymarferwyr a sefydliadau sy wedi eu cynllunio i greu amgylchedd gofal cadarnhaol, cymhwysu'r polisiâu perthnasol a'r dulliau gweithredu sy'n cael eu derbyn a'u rhoi ar waith gan y sefydliad sy'n hybu mynediad cadarnhaol i'w grŵp penodol nhw o ddefnyddwyr gwasanaethau
- ch gwerthuso sut mae deddfwriaeth yn diogelu a hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau gan esbonio cyfrifoldebau sefydliadau o dan y deddfau perthnasol ac egluro'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Pan fyddwch chi'n cynnal cyfweiliadau neu weithgareddau â chleientiaid, fel rhan o'ch gwaith a asesir yn fewnol, mae'n hanfodol eich bod yn cael caniatâd y cleient ac yn cadw cyfrinachedd llawn trwy'r amser.

---



## Meini prawf asesu

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(a) (AA1)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Gall y dysgwyr gynnig esboniad sylfaenol o bwysigrwydd sylfaen gwerthoedd o ran cynnal yr hawliau hyn er gall y ddealltwriaeth fod yn gyfyngedig.</p> <p>Nid yw'r adroddiad yn gywir bob amser ac yn anaml mae'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p style="text-align: right;">(0-10)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth dda o hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Gall y dysgwyr esbonio pwysigrwydd sylfaen gwerthoedd o ran cynnal yr hawliau gan ddangos dealltwriaeth dda.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwyr bob amser yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p style="text-align: right;">(11-15)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Gall y dysgwyr esbonio'n glir bwysigrwydd y sylfaen gwerthoedd o ran cynnal yr hawliau hyn a dangos dealltwriaeth ardderchog.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir a'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p style="text-align: right;">(16-20)</p>	20
(b) (AA2)	<p>Gall y dysgwyr ddangos cymhwysiad sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth i rwystrau potensial rhag mynediad. Ceir tystiolaeth o hyn trwy eu gallu i restru a disgrifio rhwystrau ynghyd â'u heffeithiau. Mae angen arweiniad ar y dysgwyr i fedru cymhwyso'r wybodaeth hon i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol.</p> <p style="text-align: right;">(0-9)</p>	<p>Gall y dysgwyr ddangos cymhwysiad cywir o wybodaeth a dealltwriaeth i rwystrau potensial rhag mynediad. Ceir tystiolaeth o hyn trwy eu gallu i adnabod ac esbonio rhwystrau ynghyd â'u heffeithiau. Mae'r dysgwyr yn medru cymhwyso'r wybodaeth hon i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol.</p> <p style="text-align: right;">(10-14)</p>	<p>Gall y dysgwyr ddangos lefel uchel o gymhwysiad o wybodaeth a dealltwriaeth i rwystrau potensial rhag mynediad. Ceir tystiolaeth o hyn trwy eu gallu i adnabod, esbonio a thrafod rhwystrau ynghyd â'u heffeithiau. Mae'r dysgwyr yn medru cymhwyso'r wybodaeth hon yn briodol ac yn gywir i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol.</p> <p style="text-align: right;">(15-18)</p>	18

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(c) (AA3)	Mae'r dysgwyr yn dangos gallu sylfaenol i ymchwilio a dadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol. Maent yn gallu adnabod o leiaf un ffordd y gall sefydliadau hybu amgylchedd mwy cadarnhaol trwy ddatblygu a gweithredu polisi ac ymarfer cadarnhaol.  (0-5)	Mae'r dysgwyr yn dangos gallu da i ymchwilio a dadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol. Maent yn gallu esbonio o leiaf ddwy ffordd y gall sefydliadau hybu amgylchedd mwy cadarnhaol trwy ddatblygu a gweithredu polisi ac ymarfer cadarnhaol.  (6-8)	Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o allu i ymchwilio a dadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol. Maent yn gallu dadansoddi ac esbonio o leiaf dair ffordd y gall sefydliadau hybu amgylchedd mwy cadarnhaol trwy ddatblygu a gweithredu polisi ac ymarfer cadarnhaol.  (9-11)	11
(ch) (AA4)	Mae'r dysgwyr yn dangos y gallu i werthuso sut mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r dysgwyr yn medru adnabod a disgrifio cyfrifoldebau sefydliadau o dan y deddfau perthnasol. Dangosir gwybodaeth sylfaenol o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy adnabod a disgrifio o leiaf un o'r dulliau hyn.  (0-5)	Mae'r dysgwyr yn dangos gallu da i werthuso sut mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r dysgwyr yn medru disgrifio ac esbonio cyfrifoldebau sefydliadau o dan y deddfau perthnasol. Dangosir gwybodaeth dda o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy ddisgrifio ac esbonio o leiaf ddau o'r dulliau hyn.  (6-8)	Mae'r dysgwyr yn dangos gallu ardderchog i werthuso sut mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r dysgwyr yn medru dadansoddi ac esbonio cyfrifoldebau sefydliadau o dan y deddfau perthnasol. Dangosir lefel uchel o wybodaeth o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy ddadansoddi ac esbonio'n glir o leiaf dri o'r dulliau hyn.  (9-11)	11
				<b>60</b>

Gweler Atodiad CH: Disgrifiadau Perfformiad am ddisgrifiadau'r AA

## Canllaw asesu

### Band Marciau 1

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad o sut mae defnyddwyr gwasanaethau a ddylai fod naill ai pobl sy'n sâl, pobl h n, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc yn cyrchu gwasanaethau.

Gellir ymgymryd â'r gweithgaredd naill ai ag unigolyn neu gr p.

Mae'n rhaid i ddysgwyr weithio'n unigol os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gydag unigolyn a chânt weithio naill ai'n unigol neu gyda phartner neu gr p os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gyda gr p. Os ydynt yn gweithio fel rhan o gr p neu gyda phartner, mae'n rhaid sicrhau mai tystiolaeth y dysgwyr yn eu geiriau eu hunain yw'r dystiolaeth.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau gan esbonio pwysigrwydd sylfaen gwerthoedd wrth gynnal yr hawliau hyn.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos lefel isel iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Maent yn adnabod un agwedd ar sylfaen gwerthoedd ac yn rhoi disgrifiad sylfaenol ohoni. Yn aml iawn, nid yw'r adroddiad yn gywir ac mae cryn fylchau ynddo. Nid yw'r dysgwr yn cynnig esboniadau ac mae angen cryn arweiniad i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Maent yn adnabod un neu ddwy agwedd ar sylfaen gwerthoedd ac yn rhoi disgrifiadau sylfaenol ohonynt. Nid yw'r adroddiad bob amser yn gywir ac mae peth bylchau ynddo. Prin yw'r esboniadau ac mae angen peth arweiniad ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o rwystrau potensial rhag mynediad.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos lefel sylfaenol iawn o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o rwystrau potensial rhag mynediad. Maent yn gallu rhestru a rhoi dau ddisgrifiad sylfaenol iawn o'r rhwystrau a'u heffeithiau. Maent yn rhoi disgrifiadau byr o sut mae hyn yn cael ei gymhwyso i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol. Mae angen cryn arweiniad arnynt i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos lefel sylfaenol o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o rwystrau potensial rhag mynediad. Maent yn gallu rhestru a rhoi dau neu dri disgrifiad sylfaenol o'r rhwystrau a'u heffeithiau. Maent yn rhoi disgrifiadau o sut mae hyn yn cael ei gymhwyso i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol. Mae angen peth arweiniad arnynt i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos y gallu i ymchwilio a dadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol ac esbonio sut mae polisi ac ymarfer yn helpu sefydliadau i hybu amgylchedd mwy cadarnhaol.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu sylfaenol iawn i ymchwilio a dadansoddi un ffactor sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol. Maent yn nodi un ffordd y mae polisi ac ymarfer yn helpu sefydliadau i hybu amgylchedd mwy cadarnhaol. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu sylfaenol i ymchwilio a dadansoddi dau ffactor sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol. Maent yn nodi o leiaf ddwy ffordd y mae polisi ac ymarfer yn helpu sefydliadau i hybu amgylchedd mwy cadarnhaol. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos y gallu i werthuso sut mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r dysgwyr yn gallu esbonio cyfrifoldebau sefydliadau o dan y deddfau perthnasol a dangos gwybodaeth o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy ddisgrifio ac esbonio dulliau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu sylfaenol iawn i werthuso un ffordd y mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Mae dysgwyr yn gallu adnabod a disgrifio un cyfrifoldeb i sefydliadau o dan y deddfau perthnasol ar lefel sylfaenol iawn. Mae dysgwyr yn dangos gwybodaeth sylfaenol iawn o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy adnabod a disgrifio un dull yn simplistig. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu sylfaenol i werthuso dwy ffordd y mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Maent yn gallu adnabod a disgrifio dau gyfrifoldeb i sefydliadau o dan y deddfau perthnasol ar lefel sylfaenol. Mae dysgwyr yn dangos gwybodaeth sylfaenol o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy adnabod a disgrifio dau ddull. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

## Band Marciau 2

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir a manwl o sut mae defnyddwyr gwasanaethau a ddylai fod naill ai yn bobl sy'n sâl, pobl h n, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc, yn cyrchu gwasanaethau.

Gellir ymgymryd â'r gweithgaredd naill ai ag unigolyn neu gr p.

Mae'n rhaid i ddysgwyr weithio'n unigol os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gydag unigolyn a chânt weithio naill ai'n unigol neu gyda phartner neu gr p os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gyda gr p. Os ydynt yn gweithio fel rhan o gr p neu gyda phartner, mae'n rhaid sicrhau mai tystiolaeth y dysgwyr yn eu geiriau eu hunain yw'r dystiolaeth.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau gan esbonio pwysigrwydd sylfaen gwerthoedd wrth gynnal yr hawliau hyn.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos lefel foddhaol o wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Maent yn adnabod ychydig o agweddau ar sylfaen gwerthoedd ac yn rhoi disgrifiadau boddhaol ohonynt. Mae'r adroddiad yn gywir ar y cyfan ond mae cryn fylchau. Prin mae'r esboniadau a gynigir gan y dysgwyr ac mae angen cryn arweiniad i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos lefel glir o wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Maent yn adnabod rhai agweddau ar sylfaen gwerthoedd ac yn rhoi disgrifiadau clir ohonynt. Mae'r adroddiad yn gywir ond mae cryn fylchau. Mae'r dysgwyr yn cynnig rhai esboniadau ac mae angen cryn arweiniad i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o rwystrau potensial rhag mynediad.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos lefel foddhaol o gymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o rwystrau potensial rhag mynediad. Maent yn gallu rhestru a rhoi dau ddisgrifiad boddhaol o'r rhwystrau a'u heffeithiau. Maent yn rhoi disgrifiadau o sut mae hyn yn cael ei gymhwysu i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol. Mae angen arweiniad cyfyngedig arnynt i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos lefel glir o gymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o rwystrau potensial rhag mynediad. Maent yn gallu rhestru a rhoi dau neu dri disgrifiad clir o'r rhwystrau a'u heffeithiau. Maent yn rhoi disgrifiadau da o sut mae hyn yn cael ei gymhwysu i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn arnynt i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos y gallu i ymchwilio a dadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol ac esbonio sut mae polisi ac ymarfer yn helpu sefydliadau i hybu amgylchedd mwy cadarnhaol.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos lefel foddhaol o allu o ran ymchwilio a dadansoddi dau ffactor sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol. Maent yn nodi dwy ffordd y mae polisi ac ymarfer yn helpu sefydliadau i hybu amgylchedd mwy cadarnhaol. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu clir i ymchwilio a dadansoddi dau neu dri ffactor sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol. Maent yn nodi dwy neu dair ffordd y mae polisi ac ymarfer yn helpu sefydliadau i hybu amgylchedd mwy cadarnhaol. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos y gallu i werthuso sut mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r dysgwyr yn gallu esbonio cyfrifoldebau sefydliadau o dan y deddfau perthnasol a dangos gwybodaeth o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy ddisgrifio ac esbonio dulliau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu boddhaol i werthuso dwy neu dair ffordd y mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Maent yn gallu disgrifio dau neu dri chyfrifoldeb i sefydliadau o dan y deddfau perthnasol ar lefel foddhaol. Mae dysgwyr yn dangos gwybodaeth foddhaol o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy roi esboniadau o ddau neu dri dull. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu da i werthuso tair ffordd y mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Maent yn gallu disgrifio tri chyfrifoldeb i sefydliadau o dan y deddfau perthnasol ar lefel dda. Mae dysgwyr yn dangos gwybodaeth dda o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy roi esboniadau o dri dull. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

## Band Marciau 3

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir, manwl a thrylwyr o sut mae defnyddwyr gwasanaethau a ddylai fod naill ai yn bobl sy'n sâl, pobl h'n, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc yn cyrchu gwasanaethau.

Gellir ymgymryd â'r gweithgaredd naill ai ag unigolyn neu gr p.

Mae'n rhaid i ddysgwyr weithio'n unigol os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gydag unigolyn a chânt weithio naill ai'n unigol neu gyda phartner neu gr p os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gyda gr p. Os ydynt yn gweithio fel rhan o gr p neu gyda phartner, mae'n rhaid sicrhau mai tystiolaeth y dysgwyr yn eu geiriau eu hunain yw'r dystiolaeth.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau gan esbonio pwysigrwydd sylfaen gwerthoedd wrth gynnal yr hawliau hyn.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos lefel dda iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Gall dysgwyr esbonio pwysigrwydd sylfaen gwerthoedd yn glir a dangos dealltwriaeth glir ohono. Mae'r adroddiad yn gywir ar y cyfan ac wedi ei esbonio'n dda fel arfer. Dim ond weithiau bydd angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Gall dysgwyr esbonio pwysigrwydd y sylfaen gwerthoedd yn glir a dangos dealltwriaeth ardderchog ohoni. Mae'r adroddiad yn gywir ac wedi ei esbonio'n dda. Mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos cymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth o rwystrau potensial rhag mynediad.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos lefel dda iawn o gymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth o rwystrau potensial rhag mynediad. Maent yn gallu adnabod, esbonio a thrafod tri o'r rhwystrau a'u heffeithiau. Maent yn rhoi esboniadau clir o sut mae hyn yn cael ei gymhwysio i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol. Dim ond weithiau mae angen cymorth arnynt i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos lefel ardderchog o gymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth o rwystrau potensial rhag mynediad. Maent yn gallu adnabod, esbonio a thrafod tri neu bedwar o'r rhwystrau a'u heffeithiau. Maent yn rhoi esboniadau ardderchog o sut mae hyn yn cael ei gymhwysio i hybu amgylcheddau gofal cadarnhaol. Mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos y gallu i ymchwilio a dadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol ac esbonio sut mae polisi ac ymarfer yn helpu sefydliadau i hybu amgylchedd mwy cadarnhaol.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu da iawn i ymchwilio a dadansoddi tri ffactor sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol. Maent yn nodi tair ffordd y mae polisi ac ymarfer yn helpu sefydliadau i hybu amgylchedd mwy cadarnhaol. Dim ond weithiau bydd angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos lefel ardderchog o allu o ran ymchwilio a dadansoddi pedwar ffactor sy'n dylanwadu ar greu amgylchedd gofal cadarnhaol. Maent yn nodi pedair ffordd y mae polisi ac ymarfer yn helpu sefydliadau i hybu amgylchedd mwy cadarnhaol. Mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos y gallu i werthuso sut mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r dysgwyr yn gallu esbonio cyfrifoldebau sefydliadau o dan y deddfau perthnasol a dangos gwybodaeth o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy ddisgrifio ac esbonio dulliau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu da iawn i werthuso tair ffordd y mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Mae dysgwyr yn gallu disgrifio tri neu bedwar cyfrifoldeb i sefydliadau o dan y deddfau perthnasol ar lefelau da iawn. Mae dysgwyr yn dangos gwybodaeth dda iawn o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy roi esboniadau o dri neu bedwar dull. Dim ond weithiau bydd angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gallu ardderchog i werthuso pedair ffordd y mae deddfwriaeth yn diogelu ac yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Mae dysgwyr yn gallu disgrifio pedwar cyfrifoldeb i sefydliadau o dan y deddfau perthnasol ar lefel ardderchog. Mae dysgwyr yn dangos gwybodaeth ardderchog o'r dulliau unioni cam sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy roi esboniadau am bedwar dull. Mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

---

## Cyflwyno'r uned hon

- |     |   |  |
|-----|---|--|
| 3.1 | <b>Gwerthoedd a hawliau unigol</b>      | Wrth gwblhau'r adran hon, dylai dysgwyr fod wedi datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd egwyddor cydraddoldeb o fewn cymdeithas amlddiwylliannol. Yn arbennig, byddant yn datblygu dealltwriaeth o sut gall sylfaen gwerthoedd gofal hybu a diogelu hawliau defnyddwyr gwasanaethau ac arwain at fwy o gyfoethogi diwylliannol o fewn cyd-destun gofal. Ar ben hynny, bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth o sut y gall polisiâu a dulliau gweithredu sefydliadau helpu hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. |
| 3.2 | <b>Rhwystrau rhag mynediad</b>          | Bydd dysgwyr yn ymchwilio i natur a gwreiddiau gwahaniaethu. Bydd y rhan hon yn yr uned yn gadael i ddysgwyr adnabod y grwpiau neu ddefnyddwyr gwasanaethau hynny sydd yn y perygl mwyaf o ran gwahaniaethu a sut y cânt eu heffeithio ganddo.   |
| 3.3 | <b>Creu amgylchedd gofal cadarnhaol</b> | Yn y rhan hon o'r uned, bydd dysgwyr yn archwilio sut gall agweddau ymarferwyr a sefydliadau wahaniaethu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Ar yr un pryd, bydd hyn yn gadael i ddysgwyr archwilio sut y gellir meithrin amgylchedd gofal cadarnhaol trwy'r sylfaen gwerthoedd gofal, defnyddio iaith yn gadarnhaol, herio ymddygiad gwahaniaethol a thrwy bolisiâu a dulliau gweithredu.   |



3.4	Sut mae cymdeithas yn hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau	Bydd dysgwyr yn dod i ddeall pam mae angen i gymdeithas gyflwyno mesurau i ddiogelu a hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Bydd dysgwyr yn medru adnabod deddfau ac esbonio cyfrifoldeb yr ymarferwr a'r sefydliad o dan y gyfraith yn ogystal ag adnabod hawliau a systemau unioni cam defnyddwyr gwasanaethau.
-----	--	---

## Cysylltau

Unedau eraill	<p>Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol</p> <p>Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd</p> <p>Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw</p> <p>Uned 7: Diwallu Anghenion Unigol</p> <p>Uned 10: Defnyddio a Deall Ymchwil</p> <p>Uned 12: Deall Ymddygiad Dynol</p>
Diwydiant	<p>Lleoliad gwaith yn ddymunol</p> <p>Argymhellir ymweliadau diwydiannol</p> <p>Argymhellir siaradwyr gwadd yn fawr</p>

## Adnoddau

Gwerslyfrau	<p>Alport G W – <i>The Nature of Prejudice, 3edd Argraffiad</i> (Perseus Publishing, 1998) ISBN 0201001799</p> <p>Bickermore K and Drake R – <i>Understanding Equal Opportunities</i> (Harvester Wheatsheaf, 1998) ISBN 0134333195</p> <p>Moore S – <i>Social Welfare Alive</i> (Stanley Thornes Pub, 1995) ISBN 0748714022</p> <p>Swain J et al – <i>Disabling Barriers Enabling Environments</i> (Sage Publications Ltd, 2004) ISBN 0761942653</p> <p>Walsh M, Stephens P and Moore S – <i>Social Policy and Welfare</i> (Stanley Thornes Pub, 2000) ISBN 0748745912</p> <p>Webb R and Tossell D – <i>Social Issues for Carers</i> (Hodder Headline Plc, 2004) ISBN 0340535988</p> <p>Young P – <i>Mastering Social Welfare</i> (MacMillan Press Ltd, 2000) ISBN 0333973277</p>														
Gwefannau	<table> <tr> <td>Campaign for Real Education</td> <td><a href="http://www.cre.org.uk">www.cre.org.uk</a></td> </tr> <tr> <td>Comisiwn Hawliau Anabledd</td> <td><a href="http://www.drc-gb.org">www.drc-gb.org</a></td> </tr> <tr> <td>Comisiwn Cyfle Cyfartal</td> <td><a href="http://www.eoc.org.uk">www.eoc.org.uk</a></td> </tr> <tr> <td>Polisi Cyhoeddus a Pholisi Cymdeithasol (ym Mhrifysgol Robert Gordon)</td> <td><a href="http://www2.rgu.ac.uk/publicpolicy/main.htm">www2.rgu.ac.uk/publicpolicy/main.htm</a></td> </tr> <tr> <td>Senedd Ewropeaidd</td> <td><a href="http://www.europarl.eu.int">www.europarl.eu.int</a></td> </tr> <tr> <td>Undeb Ewropeaidd</td> <td><a href="http://europa.eu.int">http://europa.eu.int</a></td> </tr> <tr> <td>Ymgyrch Hawliau Dynol</td> <td><a href="http://www.hrc.org">www.hrc.org</a></td> </tr> </table>	Campaign for Real Education	<a href="http://www.cre.org.uk">www.cre.org.uk</a>	Comisiwn Hawliau Anabledd	<a href="http://www.drc-gb.org">www.drc-gb.org</a>	Comisiwn Cyfle Cyfartal	<a href="http://www.eoc.org.uk">www.eoc.org.uk</a>	Polisi Cyhoeddus a Pholisi Cymdeithasol (ym Mhrifysgol Robert Gordon)	<a href="http://www2.rgu.ac.uk/publicpolicy/main.htm">www2.rgu.ac.uk/publicpolicy/main.htm</a>	Senedd Ewropeaidd	<a href="http://www.europarl.eu.int">www.europarl.eu.int</a>	Undeb Ewropeaidd	<a href="http://europa.eu.int">http://europa.eu.int</a>	Ymgyrch Hawliau Dynol	<a href="http://www.hrc.org">www.hrc.org</a>
Campaign for Real Education	<a href="http://www.cre.org.uk">www.cre.org.uk</a>														
Comisiwn Hawliau Anabledd	<a href="http://www.drc-gb.org">www.drc-gb.org</a>														
Comisiwn Cyfle Cyfartal	<a href="http://www.eoc.org.uk">www.eoc.org.uk</a>														
Polisi Cyhoeddus a Pholisi Cymdeithasol (ym Mhrifysgol Robert Gordon)	<a href="http://www2.rgu.ac.uk/publicpolicy/main.htm">www2.rgu.ac.uk/publicpolicy/main.htm</a>														
Senedd Ewropeaidd	<a href="http://www.europarl.eu.int">www.europarl.eu.int</a>														
Undeb Ewropeaidd	<a href="http://europa.eu.int">http://europa.eu.int</a>														
Ymgyrch Hawliau Dynol	<a href="http://www.hrc.org">www.hrc.org</a>														

## Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

---

UG uned orfodol

Asesir yn allanol

---

### Cyflwyniad

Bydd yr wybodaeth a enillwch o'r uned hon yn eich helpu i ddeall pwysigrwydd ffactorau cymdeithasol mewn ymarfer lechyd a Gofal Cymdeithasol effeithiol. Bydd yn datblygu eich gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y gall ffactorau cymdeithasol effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau a sut mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ymarfer gofal. Byddwch yn dysgu am:

- y gwahanol ddewisiadau dull o fyw y mae pobl yn eu gwneud a'r digwyddiadau yn ystod eu bywyd maent yn eu profi, sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles
- y gwahanol ffactorau cymdeithasol all effeithio ar iechyd a lles
- sut y cyflawnir ymarfer gofal effeithiol trwy berthnasoedd ansawdd uchel rhwng gweithwyr gofal proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau
- y sylfaen gwerthoedd gofal a sut mae'n cael ei hybu gan ymarferwyr gofal mewn rhyngweithiadau â defnyddwyr gwasanaethau mewn cyd-destunau yn y gweithle.

Bydd y dystiolaeth y gofynnir amdani yn yr asesu allanol yn briodol i'r sefyllfa neu ddefnyddwyr y gwasanaethau yn yr uned hon. Gellid tynnu hynny oddi wrth unrhyw un o'r canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn Beth sydd angen i chi ei ddysgu ac fe gewch eich asesu ar eich gallu i gymhwyso hyn i'r asesu allanol.

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 4.1 Dewisiadau dull o fyw a digwyddiadau yn ystod eich bywyd

Mae'r adran hon yn yr uned yn canolbwyntio ar sut yr effeithir ar iechyd a lles person gan;

- digwyddiadau yn ystod ei fywyd
- y dewisiadau dull o fyw a wneir.

Byddwch yn dysgu am sut mae digwyddiadau rhagweladwy ac anrhagweladwy yn effeithio ar unigolion mewn ffyrdd gwahanol yn ystod eu bywyd. Hefyd, byddwch yn dysgu sut gallai'r digwyddiadau hyn effeithio ar unigolion yn gorfforol, cymdeithasol, emosiynol ac yn ddeallusol. Bydd eich dysgu yn canolbwyntio ar:

- y dewisiadau dull o fyw y mae pobl yn eu gwneud – bydd y rhain yn cynnwys y diet sy gan berson, faint o ymarfer mae person yn ei wneud a'r gweithgareddau hamdden mae'n ymwneud â nhw. Gallai hyn gynnwys y fath agweddau â chymdeithasu â phobl eraill, defnyddio alcohol, defnyddio cyffuriau a.a. Nid bwriad yr enghreifftiau a roddir yw cyflwyno rhestr gynhwysfawr ohonynt
- digwyddiadau rhagweladwy/anrhagweladwy, fel dechrau yn yr ysgol, priodi/ffurfio partneriaeth, gwaith, marw/profedigaeth
- digwyddiadau anrhagweladwy, fel salwch difrifol, perthynas yn chwalu, damweiniau, colli swydd, anawsterau ariannol, symud i ardal newydd, dyrchafiad/darostyngiad.

Byddwch yn dysgu am y ffyrdd y mae pobl yn ymdopi â newid, sut mae newid mawr yn arwain at ddysgu newydd a'r ffyrdd y mae pobl yn rheoli'r newidiadau hyn. Byddwch yn dysgu am y mathau ar gynhaliaeth y gallai pobl ei derbyn oddi wrth y teulu, ffrindiau a chydweithwyr.

Bydd angen i chi lunio barn resymedig am sut mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar bobl yng nghyd-destunau'r gweithle a llunio casgliadau dilys.

### 4.2 Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles

Mae'r adran hon yn yr uned yn canolbwyntio ar y ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a lles person. Bydd angen i chi ddysgu pam mae'r ffactorau hyn yn bwysig i ymarferwyr gofal yn eu hymarfer yn y gweithle. Hefyd, byddwch yn dysgu sut gallai ffactorau cymdeithasol effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau mewn ffordd gadarnhaol a negyddol mewn cyd-destunau yn y gweithle. Caiff ffactorau cymdeithasol effaith ar yr unigolyn yn gorfforol, cymdeithasol, emosiynol ac yn ddeallusol yn unol â'r cyfnod bywyd y mae'r unigolyn ynddo ar hyn o bryd. Byddwch yn dysgu am effaith:

- dosbarth cymdeithasol a dosraniad incwm
- tlodi a'r gwahaniaeth rhwng tlodi absoliwt a chymharol
- rhyw berson
- ethnigrwydd
- y broses gymdeithasoli gan gynnwys y cyfryngau cynradd ac eilaidd yn y broses cymdeithasoli a dylanwad pwysau gr p cyfoedion
- mathau gwahanol ar berthnasoedd cymdeithasol fel y teulu, cyfeillgarwch, cydweithwyr.

Bydd effaith gyfunol y ffactorau hyn a'r gydbertynas rhyngddynt yn bwysig o ran deall ymarfer mewn cyd-destunau yn y gweithle.

Byddwch yn dysgu am sut gallai newidiadau yn y ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar unigolion gael effaith fawr ar eu hiechyd a'u lles.

Byddwch yn dysgu sut i lunio barn resymedig a dod at gasgliadau dilys am effaith y ffactorau hyn mewn cyd-destunau yn y gweithle.

#### 4.3 Perthnasoedd gweithwyr gofal proffesiynol/ defnyddwyr gwasanaethau

Mae'r adran hon yn yr uned yn canolbwyntio ar ymarfer gofal effeithiol. Mae wedi ei seilio ar weithredu'r sylfaen gwerthoedd gofal gan ymarferwyr gofal wrth weithio â defnyddwyr gwasanaethau. Byddwch yn dysgu:

- sut mae perthnasoedd ymarferwyr gofal â defnyddwyr gwasanaethau wedi newid i ganoli fwyfwy ar ddefnyddwyr gwasanaethau
- sut gall ystrydebu ddigwydd mewn sefyllfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol, a'r ffyrdd y gallai hyn ddigwydd
- sut mae ystrydebu cadarnhaol a negyddol yn effeithio ar iechyd a lles cymdeithasol defnyddwyr gwasanaethau
- sut mae'r sylfaen gwerthoedd gofal yn cael ei gweithredu gan ymarferwyr gofal mewn sefyllfaoedd iechyd a Gofal Cymdeithasol
- sut gall defnyddwyr gwasanaethau gael grym trwy eu rhyngweithiadau â gweithwyr gofal proffesiynol
- sut gallai hunangysyniad a hunan-barch defnyddiwr gwasanaethau gael eu hadeiladu gan ymarfer gofal effeithiol.

Bydd angen i chi fedru llunio barn resymedig a gwerthuso tystiolaeth.

---

## Tystiolaeth asesu

Asesir yr uned hon yn allanol.

Seilir y prawf allanol ar arholiad ysgrifenedig 1½ awr. Bydd hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau strwythuredig wedi eu seilio ar astudiaethau achos a senarios byr.

Bydd eich gwaith yn dangos tystiolaeth o:

- a ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar iechyd a lles
- b dewis o ddull o fyw a digwyddiad cwrs bywyd
- c ymarferwr gofal/perthnasoedd gwasanaethau a defnyddwyr.

Bydd y papur yn profi eich dealltwriaeth o sylfaen wybodaeth yr uned ynghyd â'ch gallu i'w chymhwyso yn unol â'r hyn a amlinellir yn yr adrannau *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* yn yr unedau. Gofynnir i chi gynnal dadansoddiad o'r materion a'r problemau a gyflwynir yn yr astudiaethau achos. Ar ben hynny, disgwylir i chi werthuso tystiolaeth, llunio barn a dod i gasgliadau ar sail y deunydd a gyflwynir yn yr astudiaethau achos.

---

## Cyflwyno'r uned hon

Prif bwrpas yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae ffactorau cymdeithasol yn dylanwadu ar lechyd a Gofal Cymdeithasol mewn cyd-destunau yn y gweithle.

Asesir yr uned hon yn allanol. Mae'n bwysig fod dysgwyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol a chymhwyso'r rhain i gyd-destunau lechyd a Gofal Cymdeithasol yn y gweithle.

Disgwylir i ddysgwyr archwilio data, gwerthuso a llunio casgliadau am faterion sy'n ymwneud â'r gweithle. Wrth gyflwyno 'cynnwys' yr uned hon disgwylir y bydd gwaith y ganolfan yn canolbwyntio ar y cyd-destunau yn y gweithle a nodir yng nghyflwyniad yr uned. Trwy arbenigo yn y meysydd hyn, ymdrinnir â'r cynnwys a nodir yn *Beth sydd angen i chi ei ddysgu*.

Mae samplau o ddeunyddiau asesu ynghyd â chynlluniau marcio ar gael i gyd-fynd â'r fanyleb hon a bydd deunydd asesu o'r gorffennol ar gael yn fwyfwy. Dylai dysgwyr ddeall terminoleg asesu, er enghraifft, disgrifio, esbonio, gwerthuso a dylid clustnodi amser addysgu i gynorthwyo dysgwyr yn hyn o beth.

Dylid cynllunio cyflwyno'r uned hon gan gofio'r asesu allanol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn ennill y marc gorau posibl sy'n adlewyrchu eu gwir botensial.

---

## Cysylltau

### Unedau eraill

Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

Mae cyswllt rhwng y ddwy uned UG hyn a'r uned hon ac er nad oes rhaid, maent yn debyg o gael eu haddysgu cyn cyflwyno'r uned hon. Bydd yr uned hon yn sylfaen dda ar gyfer astudio pellach ar lefel U2 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Gall dysgwyr fod wedi astudio TGAU lechyd a Gofal Cymdeithasol neu gyrsiau eraill sy'n ymwneud ag iechyd. Serch hynny, nid yw hyn yn rhagofyniad i ymwneud â'r uned hon.

Mae cyswllt rhwng yr uned a'r unedau canlynol hefyd:

Uned 10: Defnyddio a Deall Ymchwil

Uned 12: Deall Ymddygiad Dynol

---

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Best S, Griffiths J and Hope T – *Active Sociology (AS & A Level)* (Longman, 2000) ISBN 0582405416

Brown K – *Introductory Sociology for AS Level* (Polity Press, 2002) ISBN 0745627889

Moonie N – *Advanced Health & Social Care* (Heinemann, 2002) ISBN 0435455893

Nettleton S and Guistafsson E – *The Sociology of Health & Illness* (Reader, 2002) ISBN 0745622917

Trowler P – *Investigating Health, Welfare & Honesty (Sociology in Action)* (Collins, 1989) ISBN 0003222276

Wilson P and Kidd A – *Sociology for GCSE* (Collins Education, 1998) ISBN 0003224449

### Gwefannau

Adran Gwaith a Phensiynau

[www.dss.gov.uk](http://www.dss.gov.uk)

Adran Iechyd

[www.doh.gov.uk](http://www.doh.gov.uk)

Advice Guide

[www.adviceguide.org.uk](http://www.adviceguide.org.uk)

BBC

[www.bbc.co.uk](http://www.bbc.co.uk)

Prosiect ICT â ffocws  
ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol

[www.ictprosiect.co.uk/H&SC](http://www.ictprosiect.co.uk/H&SC)

Social Science Information Gateway

[www.sosig.ac.uk](http://www.sosig.ac.uk)

Ystadegau'r Llywodraeth

[www.statistics.gov.uk](http://www.statistics.gov.uk)

---



## Uned 5: Gweithgareddau ar gyfer Iechyd a Lles

---

UG uned orfodol

Asesir yn fewnol

---

### Cyflwyniad

Yn yr uned hon byddwch yn ymchwilio i weithgareddau mewn sefyllfaoedd iechyd a gofal. Byddwch yn dysgu am fathau ar weithgareddau, eu manteision a'u gwerth o ran iechyd a lles.

Byddwch yn ennill profiad a sgiliau ymarferol wrth ddewis, cynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Dyma'r deilliannau dysgu ar gyfer yr uned hon

- gwybodaeth o'r mathau ar weithgareddau a'u manteision i ddefnyddwyr gwasanaethau
- sgiliau a dealltwriaeth wrth gynllunio gweithgareddau
- gweithredu a gwerthuso gweithgareddau fel y nodwyd yn y dystiolaeth asesu.

Bydd y dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn briodol i'r sefyllfa, neu ddefnyddiwr y gwasanaeth, a ddewiswyd ar gyfer yr uned. Tynnir hynny oddi wrth un o'r canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn yr adran *Beth sydd angen i chi ei ddysgu ac fe'ch asesir ar eich gallu i'w ddethol a'i gymhwyso i'r cyd-destun yn y gweithle rydych chi wedi ei ddewis.*

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Dim.

---



## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 5.1 Mathau o weithgareddau a'u manteision

Mae'n rhaid i chi wybod am yr amrywiaeth ganlynol o weithgareddau sy'n diwallu anghenion gwahanol ddefnyddwyr gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd.

Gellir dosbarthu mathau ar weithgareddau ar gyfer iechyd a lles fel hyn:

- gweithgareddau corfforol
- gweithgareddau deallusol
- gweithgareddau cymdeithasol
- gweithgareddau emosiynol.

Gall gweithgareddau corfforol gynnwys dawnasio, chwarae gemau, cropian a defnyddio cyfarpar lle chwarae.

Gall gweithgareddau deallusol gynnwys darllen, lluniadu, gwrando ar storïau, croeseiriau a phosau eraill.

Gall gweithgareddau cymdeithasol gynnwys canu, mynd i'r theatr, bwyta allan gydag eraill a pherfformio dramâu.

Gall gweithgareddau emosiynol gynnwys peintio, chwarae gyda dŵr neu dywod, gweithio gyda phren neu glai, a gwrando ar gerddoriaeth yn ogystal â chymryd rhan wrth ei chreu.

Mae'n rhaid i chi wybod am y manteision y mae gweithgareddau gwahanol yn eu darparu — a'u deall — yn nhermau iechyd a lles.

Gellir dosbarthu manteision ar gyfer iechyd a lles fel hyn hefyd:

- manteision corfforol
- manteision deallusol
- manteision cymdeithasol
- manteision emosiynol.

Bydd manteision corfforol yn cynnwys datblygu a rheoli cyhyrau mawr a bach, sgiliau llawdriniol, gwelliannau cardiofasgwlaidd a ffitrwydd.

Bydd manteision deallusol yn cynnwys canolbwyntio, datrys problemau, defnyddio'r dychymyg a datblygu iaith.

Bydd manteision cymdeithasol yn cynnwys cydweithredu ag eraill, hunan-barch a rhoi grym (*empowerment*), gan gynnwys a chan ymwneud ag eraill a datblygu cyfeillgarwch.

Mae manteision emosiynol yn cynnwys rhyddhau straen (*stress*), pleser a hapusrwydd, ymlacio a theimlo'n ddiogel.

### 5.2 Cynllunio a gweithredu gweithgareddau

Mae'n rhaid i chi wybod sut i ddewis gweithgareddau priodol yn ogystal â sut i gynllunio i weithredu'r gweithgareddau.

Wrth ddewis a chynllunio gweithgareddau dylech ystyried y rhain o safbwynt defnyddwyr y gwasanaethau:

- anghenion cyffredinol — yn gorfforol, cymdeithasol, emosiynol ac yn ddeallusol
- diddordebau
- iaith a diwylliant
- yr angen am gymorth a goruchwyliaeth.

Mae angen ystyried y sefyllfa yn ofalus hefyd, gan gynnwys agweddau arbennig ar y sefyllfa fel diogelwch, adnoddau ac amser. Ymhlith y materion hyn ceir:

- maint y grŵp – mawr, bach neu'n unigol
- cyfleusterau sydd ar gael
- rhwystrau rhag mynediad
- materion iechyd a diogelwch
- cwricwla neu raglenni datblygu
- amserau'r flwyddyn a'r dydd
- natur y sefyllfa ofal – e.e. y cartref, cartrefi gwarchodwyr plant, gofal dydd neu breswyl, meithrinfa, ysgol, ysbyty, cartrefi lloches.

Wrth gynllunio gweithgareddau, bydd angen i chi:

- ymgynghori â'r tîm gofal a chael eu caniatâd
- ystyried materion perthnasol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch
- datblygu'r camau neu gyfnodau gwahanol mewn gweithgaredd, gan gynnwys amseru'r camau neu gyfnodau hyn
- nodi gweithgareddau allai gael eu cynnal gyda help a chymorth lleiaf
- gwybod pryd bydd angen cymorth a goruchwyliaeth arnoch chi a phryd bydd angen cymorth a goruchwyliaeth bellach ar ddefnyddwyr y gwasanaethau
- nodi'r adnoddau sydd eu hangen
- trefnu a pharatoi'r gweithgaredd, gan gynnwys gofod, adnoddau ffisegol a'r defnyddwyr gwasanaethau dan sylw.

Wrth weithredu gweithgareddau bydd angen i chi:

- esbonio'r gweithgaredd
- cynnal diogelwch
- sylwi ar ddefnyddwyr y gwasanaethau
- rhyngweithio a chyfathrebu â defnyddwyr y gwasanaethau a gweithwyr gofal
- monitro ac arsylwi adweithiau a galluoedd defnyddwyr y gwasanaethau
- gwybod pryd i ymyrryd i roi arweiniad neu help
- bod yn ddatgysylltiedig wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd
- bod yn ymwybodol o'r amser priodol i ddod â gweithgaredd i ben
- rhoi trefn ar bethau a thaclo ar ôl gweithgaredd yn ôl yr angen.

### 5.3 Gwerthuso gweithgareddau

Rhan bwysig o ymgymryd ag unrhyw weithgaredd yw cynnal gwerthusiad i benderfynu a oedd y gweithgaredd yn llwyddiannus, nodi unrhyw broblemau a meysydd y gellir eu gwella ac ystyried sut y gellid datblygu'r gweithgaredd yn y dyfodol.

Dylai eich gwerthusiad gynnwys y canlynol:

- nodi'r manteision i ddefnyddwyr y gwasanaethau a chymharu'r rhain â'r manteision a gynlluniwyd
- ystyried costau adnoddau ac amser
- archwilio'r gweithgaredd o ran ei gynllunio, ei drefnu a'i weithredu

- safbwyntiau ac adweithiau defnyddwyr y gwasanaethau, y staff yn y sefyllfa gofal a dysgwyr neu diwtoriaid eraill, fel y bo'n berthnasol
  - trafod datblygiad posibl y gweithgaredd
  - esbonio sut y byddai'r gweithgaredd wedi gorfod cael ei addasu i ddiwallu anghenion defnyddwyr eraill y gwasanaethau mewn cyd-destunau gwahanol yn y gweithle
  - defnyddio dulliau gwahanol o asesu llwyddiant y gweithgaredd.
- 

## Tystiolaeth asesu

Dylai'r dystiolaeth asesu gynnwys adroddiad am weithgaredd yr ydych wedi ymgymryd ag ef mewn cyd-destun perthnasol yn y gweithle yn y sector gofal gydag un o'r grwpiau canlynol o ddefnyddwyr gwasanaethau:

- pobl sy'n sâl
- pobl h n
- pobl ag anghenion penodol
- plant ifanc.

Gall y gweithgaredd fod naill ai gydag unigolyn neu gr p bach.

Os yw'r gweithgaredd gydag unigolyn, yna dylech weithio ar eich pen eich hunan.

Gellir ymgymryd â gweithgaredd gr p gyda phartner neu gr p o ddysgwyr eraill yn gweithio gyda'ch gilydd ond yn yr achos yma, mae'n rhaid gwneud eich rôl chi yn glir a'r dystiolaeth yn eiddo i chi eich hunan ac yn cael ei chyflwyno yn eich geiriau chi.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o'r canlynol i gyd:

- a y mathau ar weithgareddau yr ydych wedi eu hystyried a'r rhesymau dros ddewis eich gweithgaredd gyda'r defnyddwyr gwasanaethau a ddewiswyd
- b y manteision i ddefnyddwyr y gwasanaethau o ran iechyd a lles
- c cynllunio ar gyfer y gweithgaredd gan gynnwys ystyried diogelwch a gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd
- ch gwerthuso'r gweithgaredd gan gynnwys y manteision i ddefnyddwyr y gwasanaethau.

Pan fyddwch chi'n cynnal cyfweiliadau neu weithgareddau â chleientiaid, fel rhan o'ch gwaith a asesir yn fewnol, mae'n hanfodol eich bod yn cael caniatâd y cleient ac yn cadw cyfrinachedd llawn trwy'r amser.

---

## Meini prawf asesu

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(a) (AA1)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o gynnwys yr uned. Bydd adroddiad y dysgwyr yn dangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r mathau ar weithgareddau sy'n addas ar gyfer cleient arbennig.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn rhoi o leiaf un enghraifft o'r mathau ar weithgareddau y gwnaethant eu hystyried gan roi rheswm cryno dros ddewis y gweithgaredd yna gyda'r cleient.</p> <p>Mae'n debyg y bydd peth defnydd o eirfa arbenigol. Ond bydd hyn yn gyfyngedig.</p> <p>Nid yw'r adroddiad yn gywir bob amser ac nid yw'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn dda yn aml.</p> <p>Ceir peth anghywirdeb a bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(0-10)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r mathau ar weithgareddau sy'n addas ar gyfer cleient arbennig.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn rhoi o leiaf dair enghraifft a thri esboniad o'r mathau ar weithgareddau y gwnaethant eu hystyried gan roi rheswm clir dros ddewis y gweithgaredd yna gyda'r cleient.</p> <p>Ceir defnydd da o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwyr bob amser yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p>Prin yw'r anghywirdeb a'r bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(11-15)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o'r mathau ar weithgareddau sy'n addas ar gyfer cleient arbennig.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn rhoi o leiaf bedair enghraifft o'r mathau ar weithgareddau y gwnaethant eu hystyried a byddant yn rhoi rheswm dros ddewis y gweithgaredd yna gyda'r cleient a'i esbonio'n dda.</p> <p>Ceir defnydd helaeth o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ac mae'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p>Ni cheir unrhyw anghywirdeb na bylchau sylweddol.</p> <p style="text-align: right;">(16-20)</p>	20

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(b) (AA2)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos y gallu i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y manteision i iechyd a lles y cleient.</p> <p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn dangos o leiaf un o'r manteision o'r gweithgaredd arbennig a ddewiswyd, i'r cleient, ond mae'r adroddiad yn ddisgrifiadol a'r esbonio'n gyfyngedig.</p> <p>Mae'n debyg y bydd peth defnydd o eirfa arbenigol. Ond bydd hyn yn gyfyngedig.</p> <p>Nid yw'r adroddiad yn gywir bob amser ac nid yw'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn dda yn aml.</p> <p>(0-9)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos y gallu i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y manteision i iechyd a lles y cleient.</p> <p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn dangos o leiaf dair o'r manteision i iechyd a lles y cleient o'r gweithgaredd arbennig maent wedi ei ddewis.</p> <p>Ceir defnydd da o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn yn aml.</p> <p>(10-14)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos y gallu i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y manteision i iechyd a lles y cleient mewn ffordd sy'n briodol ac yn gywir.</p> <p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn esbonio o leiaf bedair o'r manteision i iechyd a lles y cleient o'r gweithgareddau arbennig maent wedi eu dewis.</p> <p>Ceir defnydd helaeth o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ac mae'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p>(15-18)</p>	18
(c) (AA3)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau sylfaenol o ran cynllunio, gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd. Prin yw'r dystiolaeth o weithio'n annibynnol a chasglu dystiolaeth.</p> <p>Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig ac nid yw bob amser yn berthnasol. Bydd y dysgwyr yn defnyddio o leiaf un ffynhonnell gwybodaeth.</p> <p>Prin yw'r dadansoddi o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>(0-5)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau da o ran cynllunio, gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd. Ceir dystiolaeth o weithio'n annibynnol a chasglu dystiolaeth.</p> <p>Tynnir yr wybodaeth oddi wrth nifer o ffynonellau ac mae'n berthnasol ac yn ddigonol. Bydd y dysgwyr yn defnyddio o leiaf dair ffynhonnell gwybodaeth.</p> <p>Ceir dadansoddi ond fe all fod diffyg manylder.</p> <p>Gwneir cysylltau perthnasol â materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>(6-8)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau ardderchog o ran cynllunio, gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn dangos menter wrth gynllunio eu dulliau eu hunain hun o ddod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth.</p> <p>Mae'r wybodaeth yn berthnasol ac yn helaeth ac wedi ei thynnu oddi wrth nifer o ffynonellau o fathau gwahanol. Byddant yn defnyddio o leiaf bedair ffynhonnell gwybodaeth.</p> <p>Ceir dadansoddi da, manwl sy'n cynnwys dadansoddi materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>(9-11)</p>	11

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(ch) (AA4)	<p>Mae'r dysgwr yn dangos lefel sylfaenol o sgiliau gwerthuso.</p> <p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn gwerthuso'r gweithgaredd ac yn nodi'r manteision i'r cleient ond mae'r adroddiad yn ddisgrifiadol a'r esbonio'n gyfyngedig.</p> <p>Mae'r dysgwr yn gallu trafod ond crynodeb yn hytrach na chasgliadau a geir. Mae unrhyw gasgliadau yn syml ac yn cael eu cynnig ar y cyfan heb ddadl i'w cefnogi.</p> <p>(0-5)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos lefel dda o sgiliau gwerthuso.</p> <p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn gwerthuso'r gweithgaredd ac yn nodi'r manteision i'r cleient gyda chasgliadau rhesymedig.</p> <p>Mae'r dysgwr yn gallu trafod ac yn llunio casgliadau sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth.</p> <p>(6-8)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos sgiliau gwerthuso ardderchog.</p> <p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn gwerthuso'r gweithgaredd ac yn trafod y manteision i'r cleient gyda chasgliadau manwl wedi eu rhesymu'n dda.</p> <p>Mae'r dysgwr yn gallu llunio casgliadau dilys o'r dystiolaeth a geir a'r rhain yn glir yn fanwl ac wedi eu rhesymu'n dda.</p> <p>(9-11)</p>	11
<b>Cyfanswm y marciau</b>				<b>60</b>

Gweler Atodiad CH: Disgrifiadau Perfformiad am ddisgrifiadau'r AA

## Canllaw asesu

### Band Marciau 1

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad am weithgaredd yr ymgwymerwyd ag ef mewn cyd-destun a ddewiswyd yn y gweithle. Dylai fod naill ai gyda phobl sy'n sâl, pobl h n, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc.

Gellir ymgymryd â'r gweithgaredd naill ai ag unigolyn neu gr p.

Mae'n rhaid i ddysgwyr weithio'n unigol os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gydag unigolyn a chânt weithio naill ai'n unigol neu gyda phartner neu gr p os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gyda gr p. Os ydynt yn gweithio fel rhan o gr p neu gyda phartner, mae'n rhaid sicrhau mai tystiolaeth y dysgwyr yn eu geiriau eu hunain yw'r dystiolaeth.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ystod gyfyngedig o weithgareddau, anghenion gwahanol grwpiau o bobl fyddai'n ymgymryd â'r gweithgareddau hyn — pobl sy'n sâl, yn h n, ag anghenion penodol neu yn ifanc iawn — a manteision y gweithgareddau hyn. Ar ben hynny, mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddewis, cynllunio, gweithredu a gwerthuso un gweithgaredd yn unol â'r hyn a nodir yn neilliannau dysgu ac adrannau 5.1, 5.2 a 5.3 yr uned hon.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol iawn o un neu ddau weithgaredd. Dim ond un neu ddwy enghraifft byddant yn eu rhoi o'r gweithgareddau maent wedi eu hystyried gan roi rheswm byr iawn am eu dewis. Mae defnydd cyfyngedig iawn o eirfa arbenigol yn eu hadroddiad ac mae'n aml yn anghywir ac yn esgeulus iawn. Nid yw'r dysgwyr yn cynnig unrhyw esboniadau ac mae angen cryn arweiniad arnynt i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddau weithgaredd. Dim ond dwy enghraifft byddant yn eu rhoi o'r gweithgareddau maent wedi eu hystyried gan roi rheswm syml iawn am eu dewis. Mae defnydd cyfyngedig iawn o eirfa arbenigol yn eu hadroddiad ac nid yw bob amser yn gywir a chanddo peth bylchau. Prin yw'r esboniadau a gynigir gan y dysgwyr ac mae angen peth arweiniad arnynt i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Bydd dysgwyr yn dangos cymhwysio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, yn gywir ond gydag arweiniad i ddefnyddiwr gwasanaethau, unigolyn neu gr p mewn cyd-destun yn y gweithle o fewn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd hyn yn golygu eu bod yn dewis gweithgaredd ac yn nodi'r manteision fydd gan y gweithgaredd hwn i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn ogystal â hynny, bydd yn golygu cynllunio gweithgaredd, gan ystyried yr holl gamau y mae'n rhaid eu cymryd, a gweithredu a gwerthuso'r gweithgaredd. Efallai na fydd hyn yn ymwneud yn benodol â'r cyd-destun yn y gweithle ei hun.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos defnydd sylfaenol iawn o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn cyd-destun yn y gweithle. Bydd y dysgwyr yn nodi un neu ddwy o fanteision hyn i ddefnyddwyr gwasanaethau ond byddant yn cynnig disgrifiadau yn hytrach nag esboniadau. Mae'r defnydd o eirfa arbenigol yn eu hadroddiad yn gyfyng ac nid yw'n gywir yn aml. Nid yw'r dysgwr yn cynnig esboniadau ac mae angen cryn arweiniad i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos cymhwysiad sylfaenol o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn cyd-destun yn y gweithle. Byddant yn nodi dwy o fanteision hyn i ddefnyddwyr gwasanaethau a byddant yn cynnig esboniadau syml. Mae'r defnydd o eirfa arbenigol yn eu hadroddiad yn gyfyng iawn ac mae'n anghywir yn aml. Prin yw'r esboniadau ac mae angen peth arweiniad ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddefnyddio ystod gyfyng o ffynonellau gwybodaeth ac ymgymryd â'u gweithgaredd a dangos sgiliau gan ddefnyddio technegau penodol. Prin yw'r sgiliau a ddangosir wrth ddod o hyd i wybodaeth, a fydd yn gyfyng a heb fod yn berthnasol bob amser.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau sylfaenol iawn wrth gynllunio, gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd. Dim ond un neu ddwy ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddiant, ac mae'r wybodaeth yn gyfyngedig iawn a heb fod yn berthnasol yn aml. Ni cheir dadansoddiad o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau sylfaenol wrth gynllunio, gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd. Dim ond dwy ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddiant ac mae'r wybodaeth yn gyfyngedig a heb fod yn berthnasol bob amser. Prin yw'r dadansoddi o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Dysgwyr i werthuso tystiolaeth er mwyn dod at gasgliadau syml am y gweithgaredd, gan ddisgrifio pwyntiau da a drwg ond gan gynnig crynodebau yn hytrach na chasgliadau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn disgrifio nifer gyfyng o bwyntiau da a drwg (un neu ddau bwynt da a drwg) o ran y gweithgaredd. Cynigir crynodeb byr gan ddangos un neu ddwy o'r manteision i'r cleientiaid ond ni chynigir dadl ategol. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn disgrifio nifer resymol o bwyntiau da a drwg (tri neu bedwar pwynt da a drwg) o ran y gweithgaredd. Cynigir crynodeb byr gan ddangos dwy neu dair o'r manteision i'r cleientiaid ond ni chynigir dadl ategol. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

## Band Marciau 2

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir a manwl am weithgareddau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, anghenion defnyddwyr y gwasanaethau a manteision y gweithgaredd mewn cyd-destun a ddewiswyd yn y gweithle. Dylai fod naill ai gyda phobl sy'n sâl, pobl h n, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc.

Gellir ymgymryd â'r gweithgaredd naill ai ag unigolyn neu gr p.

Mae'n rhaid i ddysgwyr weithio'n unigol os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gydag unigolyn a chânt weithio naill ai'n unigol neu gyda phartner neu gr p os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gyda gr p. Os ydynt yn weithio fel rhan o gr p neu gyda phartner, mae'n rhaid sicrhau mai tystiolaeth y dysgwyr yn eu geiriau eu hunain yw'r dystiolaeth.



*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Bydd dysgwyr yn dangos, y tu hwnt i lefel sylfaenol, wybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ystod o weithgareddau, anghenion gwahanol grwpiau o bobl fyddai'n ymgymryd â'r gweithgareddau hyn — pobl sy'n sâl, yn h n, ag anghenion penodol neu yn ifanc iawn — a manteision y gweithgareddau hyn. Ar ben hynny, mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o ran dewis, cynllunio, gweithredu a gwerthuso un gweithgaredd yn unol â'r hyn a nodir yn neilliannau dysgu ac adrannau 5.1, 5.2 a 5.3 yr uned hon.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos lefel foddhaol o wybodaeth a dealltwriaeth am dri gweithgaredd. Byddant yn rhoi tair enghraifft o'r gweithgareddau y maent wedi eu hystyried gan roi rheswm boddhaol am eu dewis. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ond nid mor aml â phosibl. Mae'n gywir ond heb gael ei esbonio'n dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth am bedwar gweithgaredd. Byddant yn rhoi pedair enghraifft o'r gweithgareddau y maent wedi eu hystyried gan roi rheswm clir am eu dewis. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir trwy'r rhan fwyaf o'r adroddiad. Mae'n gywir â pheth esboniad ond heb ei esbonio'n llawn. Ychydig iawn o arweiniad sydd ei angen ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Bydd dysgwyr yn dangos, gyda thystiolaeth, ystod o sgiliau y tu hwnt i lefel sylfaenol. Dylai fod annibyniaeth yn natur y dystiolaeth e.e. tystiolaeth tyst a dylid cywain tystiolaeth oddi wrth fwy nag un ffynhonnell. Ni ddylai'r rhain gael eu cyfyngu i dystiolaeth y dysgwr ei hun yn unig. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r dysgwyr fedru cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn gywir. Heb fawr o arweiniad, dylai'r dysgwr allu cynllunio gweithgaredd ar gyfer gr p o ddefnyddwyr gwasanaethau mewn cyd-destun yn y gweithle o fewn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol, a dylai'r gweithgaredd ymwneud yn benodol â'r cyd-destun yn y gweithle ei hun.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos cymhwysiad boddhaol o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn cyd-destun yn y gweithle. Bydd y dysgwyr yn nodi tair o fanteision hyn i ddefnyddwyr gwasanaethau a byddant yn cynnig esboniadau clir. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ond nid mor aml â phosibl. Mae'n gywir ond heb gael ei esbonio'n dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos cymhwysiad clir o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn cyd-destun yn y gweithle. Byddant yn nodi tair neu bedair o fanteision hyn i ddefnyddwyr gwasanaethau a byddant yn cynnig esboniadau da. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir trwy'r rhan fwyaf o'r adroddiad. Mae'n gywir â pheth esboniad ond heb ei esbonio'n llawn. Ychydig iawn o arweiniad sydd ei angen ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau da wrth ddod o hyd i wybodaeth a defnyddio nifer o ffynonellau, gan gynnwys tystiolaeth ar gyfer dangos sgiliau. Gwneir cysylltiadau â materion a phroblemau yn y gweithle e.e. rhwystrau rhag ymgymryd â gweithgareddau. Bydd dysgwyr yn medru awgrymu rhai ffyrdd o oresgyn y fath rwystrau. Dylid disgrifio rheoliad a gweithrediad y gweithgaredd yn fanwl ynghyd â thystiolaeth gan y staff gofal a defnyddwyr y gwasanaethau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau boddhaol wrth gynllunio, gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd. Byddant yn defnyddio tair ffynhonnell gwybodaeth ac mae'r wybodaeth yn gyfyng ond yn berthnasol, fel arfer. Ceir dadansoddiad syml o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle ond mae'r manylu yn brin. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau da wrth gynllunio, gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd. Byddant yn defnyddio pedair ffynhonnell gwybodaeth ac mae'r wybodaeth yn gyfyng ond yn berthnasol, fel arfer. Ceir dadansoddiad o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle ond mae'r manylu yn brin. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Dysgwyr i werthuso tystiolaeth o ffynonellau gwahanol a chynhyrchu rhai casgliadau rhesymedig am fanteision, cynllunio a gweithredu'r gweithgaredd yr ymgwymerwyd ag ef.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir bod y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso boddhaol. Rhoddir gwerthusiad o'r gweithgaredd a fydd yn dangos rhai o'r manteision i'r cleient. Mae'r dysgwyr yn llunio casgliadau boddhaol wedi eu seilio ar dystiolaeth ac mae angen arweiniad cyfyngedig i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir bod y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso da. Rhoddir gwerthusiad o'r gweithgaredd a fydd yn dangos y rhan fwyaf o'r manteision i'r cleient. Mae'r dysgwyr yn llunio casgliadau boddhaol wedi eu seilio ar dystiolaeth a dangosir hyn yn y casgliadau sydd wedi eu hesbonio'n glir. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

### Band Marciau 3

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir, manwl a thrylwyr am weithgareddau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, anghenion defnyddwyr y gwasanaethau a manteision ymgymryd â gweithgaredd mewn cyd-destun a ddewiswyd yn y gweithle. Dylai fod naill ai gyda phobl sy'n sâl, pobl h n, unigolion ag anghenion penodol neu blant ifanc.

Gellir ymgymryd â'r gweithgaredd naill ai ag unigolyn neu gr p.

Mae'n rhaid i ddysgwyr weithio'n unigol os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gydag unigolyn a chânt weithio naill ai'n unigol neu gyda phartner neu gr p os ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd gyda gr p. Os ydynt yn gweithio fel rhan o gr p neu gyda phartner, mae'n rhaid sicrhau mai tystiolaeth y dysgwyr yn eu geiriau eu hunain yw'r dystiolaeth.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o ystod o weithgareddau, anghenion gwahanol grwpiau o bobl fyddai'n ymgymryd â'r gweithgareddau hyn — pobl sy'n sâl, yn h n, ag anghenion penodol neu yn ifanc iawn — a manteision y gweithgareddau hyn. Ar ben hynny, mae'n rhaid iddynt ddangos gwybodaeth, dealltwriaeth ac ystod o sgiliau o ran dewis, cynllunio, gweithredu a gwerthuso un gweithgaredd yn unol â'r hyn a nodir yn neilliannau dysgu ac adrannau 5.1, 5.2 a 5.3 yr uned hon.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth am bedwar gweithgaredd. Byddant yn rhoi pedair enghraifft o'r gweithgareddau y maent wedi eu hystyried gan

esbonio'r rheswm am eu dewis yn dda. Byddant yn rhoi pedair enghraifft o'r gweithgareddau y maent wedi eu hystyried gan esbonio'r rheswm am eu dewis yn dda. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mron pob sefyllfa. Mae'n gywir ac fel arfer wedi ei esbonio'n dda. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth am fwy na phedwar gweithgaredd. Byddant yn rhoi mwy na phedair enghraifft o'r gweithgareddau y maent wedi eu hystyried gan esbonio'r rheswm am eu dewis yn dda. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mhob sefyllfa. Mae'n gywir ac wedi ei esbonio'n dda iawn. Mae'r dysgwr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Bydd dysgwyr yn dangos y defnydd o dechnegau priodol — wedi eu rhoi a'u dyfeisio ganddynt eu hunain — gyda thystiolaeth annibynnol o'r sgiliau hyn e.e. tystiolaeth tyst gan weithwyr gofal a chydweithwyr neu diwtoriaid. Dylid cywain tystiolaeth oddi wrth sefyllfaoedd gwahanol, yn unigol ac fel grŵp a dylai ddod o ffynonellau gwahanol. Mae'n rhaid i'r dysgwr allu cymhwysu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'n gywir ac yn annibynnol, gyda'r arweiniad lleiaf, i gyd-destun yn y gweithle o fewn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos cymhwysiad cywir a phriodol, ar y cyfan, o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn cyd-destun yn y gweithle. Byddant yn esbonio pedair o fanteision hyn i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mron pob sefyllfa. Mae'n gywir ac fel arfer wedi ei esbonio'n dda. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos cymhwysiad cywir a phriodol o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn cyd-destun yn y gweithle. Byddant yn esbonio'n glir fwy na phedair o fanteision hyn i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mhob sefyllfa. Mae'n gywir ac wedi ei esbonio'n dda iawn. Mae'r dysgwr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau ardderchog wrth ddod o hyd i wybodaeth a dyfeisio a chynllunio eu dulliau eu hunain o ddod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth, gan ddefnyddio technegau priodol ac ystod eang o ffynonellau gwybodaeth. Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddadansoddi materion sy'n ymwneud â'r gweithle o ran ymgymryd â'r gweithgaredd, fel cyfyngiadau amser, prinder adnoddau neu bryderon ynglŷn â diogelwch.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau da iawn wrth gynllunio, gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd. Maent yn dangos sgiliau da iawn wrth ddod o hyd i wybodaeth gyda'u dulliau eu hunain, oddi wrth o leiaf bedair ffynhonnell gwybodaeth. Bydd yr wybodaeth yn berthnasol ac yn eang a bydd dadansoddiad manwl fydd yn cynnwys rhai materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle. Dim ond weithiau bydd dysgwyr yn derbyn cymorth.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau da iawn wrth gynllunio, gweithredu a dadansoddi'r gweithgaredd. Maent yn dangos sgiliau ardderchog ddod o hyd i wybodaeth gyda'u dulliau eu hunain, oddi wrth fwy na phedair ffynhonnell gwybodaeth o fathau gwahanol. Bydd yr wybodaeth yn berthnasol ac yn eang a bydd

dadansoddiad da, manwl fydd yn dadansoddi llawer o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Dysgwyr i ddadansoddi a gwerthuso tystiolaeth, llunio casgliadau dilys a dod i farn sy wedi ei rhesymu'n dda ar sail y dystiolaeth a gyflwynir.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir bod y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso da iawn. Byddant yn gwerthuso'r gweithgaredd ac yn trafod o leiaf bedair o'r manteision i'r cleient. Mae'r casgliadau wedi eu rhesymu'n dda ac yn fanwl a dim ond weithiau mae angen cymorth arnynt i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir bod y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso ardderchog. Byddant yn gwerthuso'r gweithgaredd ac yn trafod mwy na pedair o'r manteision i'r cleient. Mae'r casgliadau yn glir ac wedi eu rhesymu'n dda ac yn fanwl ac mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

---

## Cyflwyno'r uned hon

- Mae'n rhaid i ddysgwyr sy'n ymgymryd â gwaith gr p sicrhau bod athrawon yn medru adnabod eu gwaith fel darn unigol a'i fod yn ddigon gwahanol i waith aelodau eraill y gr p y gweithion nhw ynddo. Dylai dysgwyr ddweud pa feysydd gwaith oedd yn gr p neu'n unigol gan adael i'r athro/athrawes asesu cyfraniad y dysgwyr unigol.
- 5.1 Mathau o weithgareddau a'u manteision**
- Mae angen i ddysgwyr wybod am ystod eang o weithgareddau y gellir eu cynnal â gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau. Bydd angen i ddysgwyr gael eu cyflwyno i amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth addas a bydd angen help wrth ddod o hyd i wybodaeth oddi wrth ffynonellau gwahanol.
- Awgrymir y gallai dysgwyr ddechrau trwy nodi'r gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw eu hunain.
- Bydd angen iddynt ddod i wybod am natur y gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau — pobl sy'n sâl, y rheini sy'n h n, pobl ag anghenion penodol a phlant ifanc. Gellir gwneud hyn trwy ymweliadau, siaradwyr o'r tu allan a ffynonellau eilaidd yn ogystal â thrwy eu defnyddio eu hunain fel adnoddau. Bydd angen i ddysgwyr gael gwybod am anghenion gwahanol i ddefnyddwyr gwasanaethau hyn.
- Bydd angen cyflwyno ac archwilio meysydd datblygu gwahanol yn eithaf manwl yma — rhai corfforol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol. Gall dysgwyr ddadansoddi eu meysydd datblygu eu hunain a gweithio allan sut gall gwahanol weithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw eu hunain fod o fudd iddynt yn gorfforol, deallusol, cymdeithasol ac yn emosiynol. Yna gellir cymhwyso hyn i ddefnyddwyr y gwasanaethau gyda'r dysgwyr yn gweithio ar eu pennau eu hunain, mewn parau neu mewn grwpiau.
- 5.2 Cynllunio a gweithredu gweithgareddau**
- Dylai dysgwyr wybod am sut i gynllunio gweithgareddau gan gynnwys ystyried yr holl adnoddau a'r holl gamau sydd eu hangen gan gynnwys diogelwch, natur y gr p a'r sefyllfa. Bydd angen iddynt ddeall bod angen help a chefnogaeth ar lawer o bobl ac y bydd angen peth cymorth a goruchwyliaeth arnynt nhw eu hunain wrth iddynt gynnal gweithgaredd.

Bydd hyn yn golygu llawer o weithgaredd gr p yn y lle cyntaf gyda dysgwyr yn rhannu syniadau fel mewn sesiwn tanio syniadau, anogaeth ar ran y person sy'n cyflwyno'r uned a gwaith mewn grwpiau bach. Unwaith eto, bydd ymweld â sefyllfaoedd gofal i weld sut mae gweithgareddau yn cael eu cynllunio yn ddefnyddiol a byddai ymweliad gan weithiwr gofal i esbonio'r camau a gymerwyd yn eu sefyllfa nhw o gymorth hefyd.

Mae angen i diwtoriaid/athrawon sicrhau bod dysgwyr yn deall bod angen ymgynghori â gweithwyr gofal yn ogystal â chael caniatâd ac y bydd angen iddynt ddeall, mewn rhai cyd-destunau, fod rhaglen o weithgareddau fel rhan o gwricwlwm neu gynllun datblygu.

Dylai dysgwyr ymgymryd â chynllunio ymarfer yn y dosbarth mewn grwpiau bach ac fel unigolion. Gellir rhannu cynllunio ymarfer ag aelodau eraill o'r gr p a'i drafod gydag adborth y person sy'n cyflwyno'r uned.

Mae'n rhaid i ddysgwyr wybod sut i ymgymryd â gweithgaredd a rheoli pob agwedd ar weithgaredd. Bydd angen iddynt wybod sut i esbonio, cyfathrebu a rhyngweithio yn ogystal â gwybod sut i'w hymglymu eu hunain mewn gweithgaredd gan gadw rhywfaint o bellter. Bydd angen iddynt ddeall pwysigrwydd arsylwi a phryd mae angen help, arweiniad ac ymyriad.

Byddai'n ddefnyddiol i ddysgwyr efelychu gweithgareddau yn y dosbarth gydag aelodau eraill y gr p yn chwarae rôl fel defnyddwyr gwasanaethau.

### 5.3 Gwerthuso gweithgareddau

Gellir ymgymryd â gwerthuso pwyntiau da a'r math o broblemau neu bethau all fynd o chwith, yn y dosbarth hefyd ynghyd â chreu syniadau ar gyfer eu gwella. Hefyd, gellid trafod manteision y gweithgaredd i ddefnyddwyr y gwasanaethau ynghyd â'r manteision o'i ehangu i gyd-destunau eraill sy'n ymwneud â'r gweithle.

Gall dysgwyr arbrofi â dulliau gwahanol o asesu gweithgareddau a rhoi adborth fel defnyddio rhestrau gwirio, datganiadau tystion oddi wrth ei gilydd, defnyddio eu tiwtor/athro, cymryd nodiadau, gofyn am farn 'defnyddiwr y gwasanaeth', defnyddio recordydd fideo neu gasetiau, holiaduron, 'cyfweiliadau' strwythuredig neu ddistrywthur ac adroddiadau ysgrifenedig.

---

## Cysylltau

### Dyfarniadau galwedigaethol eraill

Diploma Cenedlaethol BTEC mewn Blynyddoedd Cynnar: Uned 10: Gweithgareddau Chwarae a Dysgu

CGC Lefel 3 mewn Gofal: Uned X14

CGC Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar: Uned M7

---

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Banks B — *Activities for Older People in Care* (Butterworth Heinemann, 2000)

Clarke L — *Edexcel Health and Social Care GCSE Teacher Support Pack* (Nelson Thornes, 2002)

Clarke L — *Edexcel Health and Social Care Student Resource Book* (Nelson Thornes, 2002)

Clarke L et al — *Health and Social Care for Advanced GNVQ* (Stanley Thornes, 2002)

Fisher A et al — *Health and Social Care GCSE* (Folens, 2003)  
ISBN 184303364X

Holland Meg et al — *Advanced Health and Social Care, 2il argraffiad* (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2000) ISBN 0198328265

Macmillan B — *Word and Music Games for Toddlers and Twos* (Hamlyn, 2004) ISBN 0600609944

Moonie N — *Advanced Health and Social Care, 3ydd Argraffiad* (Heinemann, 2000) ISBN 0435455893

Thomson H et al — *Health and Social Care* (Hodder and Stoughton, 2001)  
ISBN 0340775475

Walsh M et al — *Advanced Vocational Health and Social Care* (Collins, 2001)  
ISBN 0003291006

### Gwefannau

Adran Iechyd [www.doh.gov.uk](http://www.doh.gov.uk)

Awdurdod Addysg Iechyd [www.hea.org.uk](http://www.hea.org.uk)

BBC [www.bbc.co.uk](http://www.bbc.co.uk)

Ein Gwlad Iachach [www.ohn.org.uk](http://www.ohn.org.uk)

Peiriant Chwilio [www.google.co.uk](http://www.google.co.uk)

Ystadegau'r Llywodraeth [www.statistics.gov.uk](http://www.statistics.gov.uk)

---



## Uned 6: Iechyd Cyhoeddus

---

UG uned orfodol

Asesir yn fewnol

---

### Cyflwyniad

Bydd yr uned hon yn datblygu eich gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion, polisiau ac ymarferion iechyd cyhoeddus yn y DU.

Mae maes iechyd cyhoeddus yn canolbwyntio ar ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles poblogaethau mawr o bobl. Dylech fod yn ymwybodol o'r effaith sydd gan ffactorau cymdeithasol ac economaidd a dewisiadau dull o fyw ar statws iechyd poblogaethau a chymunedau yn y DU. Hefyd, dylech ddeall sut mae problemau iechyd cyhoeddus yn codi a dylech wybod am y dulliau a ddefnyddir i fonitro, atal ac ymladd materion iechyd cyhoeddus o bwys.

Bydd y dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn briodol i'r sefyllfa, neu ddefnyddiwr y gwasanaeth, a ddewiswyd ar gyfer yr uned. Tynnir hynny oddi wrth un o'r grwpiau canlynol o ddefnyddwyr gwasanaethau:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn yr adran Beth sydd angen i chi ei ddysgu ac fe'ch asesir ar eich gallu i'w ddethol a'i gymhwyso i'r cyd-destun yn y gweithle rydych chi wedi ei ddewis.

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Dim.

---



## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

- 6.1 Iechyd Cyhoeddus: gwreiddiau, nodau a data**
- Mae iechyd cyhoeddus yn ymwneud â diogelu a gwella iechyd y boblogaeth yn hytrach nag iechyd yr unigolyn.
- Dylech ddeall gwreiddiau'r system iechyd cyhoeddus yn y DU o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a dylech wybod am y problemau iechyd cyhoeddus a achoswyd gan drefoli a diwydiannu yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd dylech ddeall sut câi ymyriadau iechyd amgylcheddol eu defnyddio i atal clefydau rhag lledaenu a gwella safonau iechyd cyhoeddus yn genedlaethol.
- Dylech ddeall nodau polisi ac ymarfer iechyd cyhoeddus yn y DU gyfoes, gan gynnwys:
- monitro statws iechyd y gymuned,
  - adnabod anghenion iechyd y boblogaeth
  - datblygu rhaglenni i leihau risg a sgrinio cynnar ar gyfer clefydau
  - rheoli clefydau trosglwyddadwy
  - datblygu polisiâu sy'n hybu iechyd y boblogaeth
  - cynllunio a gwerthuso darpariaeth genedlaethol gofal iechyd.
- Ar ben hynny dylech ddeall sut y deuir o hyd i ddata epidemiolegol ac ymddygiad iechyd a sut maen nhw'n cael eu defnyddio gan ymarferwyr a llunwyr polisi iechyd cyhoeddus i adnabod, monitro ac ymateb i faterion iechyd cyhoeddus. Dylech wybod pam mae'n bwysig i ymarferwyr iechyd cyhoeddus astudio nifer yr achosion o ran clefydau ynghyd â'u lledaeniad a phatrymau dull o fyw cyfnewidiol poblogaeth y DU.
- 6.2 Materion cyfredol mewn iechyd cyhoeddus**
- Mae materion iechyd cyhoeddus yn faes gweithgaredd gan y llywodraeth sy'n dod yn fwyfwy pwysig ac yn peri pryder oddi mewn i'r proffesiynau iechyd a gofal.
- Dylech wybod am:
- patrymau ac anghydraddoldeb ym mhrofiad iechyd a salwch poblogaeth y DU
  - achosion ac esboniadau posibl am y patrymau hyn ac am newidiadau diweddar yn statws iechyd cyhoeddus poblogaeth y DU
  - y cysylltiadau rhwng newid cymdeithasol, dewisiadau dull o fyw a materion iechyd cyhoeddus sy'n ymddangos ar hyn o bryd – gan gynnwys cynnydd mewn gordewdra, canserau, camddefnyddio sylweddau, afiechyd meddwl a chlefydau cysylltiad rhywiol.
- Nod sylfaenol gweithgaredd iechyd cyhoeddus cyfredol yw gwella iechyd y genedl a lleihau anghydraddoldeb iechyd ym mhoblogaeth y. Fel canlyniad, dylech wybod am y targedau a bennir gan y llywodraeth ganolog i wella iechyd cyhoeddus yn gyffredinol ac er mwyn mynd i'r afael â phroblemau iechyd cyhoeddus penodol. Dylech wybod am y strategaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol a'r mentrau cyfredol sydd wedi eu cynllunio i gyrraedd targedau a nodau'r llywodraeth.
- 6.3 Hybu a diogelu iechyd cyhoeddus yn y DU**
- Defnyddir nifer o strategaethau a dulliau i hybu a diogelu iechyd cyhoeddus yn y DU. Dylech wybod am y canlynol:
- Mesurau a thriniaethau arbenigol sy'n anelu at leihau niwed amgylcheddol isgynnyrch gwastraff diwydiannol, biolegol a'r cartref gan gynnwys trin d r, carthffosiaeth ac aer.

- Mesurau iechyd cyhoeddus sy'n anelu at ddiogelu'r boblogaeth rhag clefydau heintus (gan gynnwys rhaglenni goruchwyllo clefydau, imiwneiddio a sgrinio) a lleihau anghydraddoldeb yn y profiad iechyd.
- Gweithredu gan awdurdodau lleol a'r llywodraeth yn ganolog ar ailgylchu, rheoli gwastraff, lleihau llygredd, diogelwch bwyd a diogelu'r amgylchedd naturiol yn y DU.
- Swyddogaethau a gweithgareddau swyddogion iechyd amgylcheddol, staff gwasanaethau iechyd cyhoeddus a phobl sy'n gweithio mewn asiantaethau diogelu'r amgylchedd yn monitro a gweithredu polisiau a deddfwriaeth iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol yn y DU.
- Y swyddogaeth sydd gan garfanau pwysu (*Greenpeace*, Cyfeillion y Ddaear, *Compassion in World Farming*, er enghraifft) a sefydliadau rhyngwladol anllywodraethol (e.e. Sefydliad Iechyd y Byd a'r Cenhedloedd Unedig) wrth fonitro ac ymateb i faterion amgylcheddol ac iechyd cyhoeddus byd-eang all effeithio ar boblogaeth y DU.

## Tystiolaeth asesu

Mae angen i chi gynhyrchu adroddiad am astudiaeth yr ydych wedi ei gwneud o fater iechyd cyhoeddus. Dylai'r mater effeithio – neu gall y mater effeithio yn y dyfodol – ar iechyd, datblygiad neu les gr p o ddefnyddwyr gwasanaethau.

Bydd tystiolaeth asesu nodweddiadol yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig. Dylai hwn dynnu ar amrywiaeth o ffynonellau o ddata eilaidd i roi disgrifiad manwl a strwythuredig o'r mater iechyd cyhoeddus.

Dylai'r dystiolaeth gynnwys sôn am natur y mater a'r effaith bosibl y gall y mater ei chael ar un o'r grwpiau canlynol o ddefnyddwyr gwasanaethau:

- pobl sy'n sâl
- plant ifanc
- pobl h n
- pobl ag anghenion penodol.

Hefyd, dylai'r dystiolaeth gynnwys dadansoddiad o strategaethau a allai gael eu defnyddio i leihau'r risgiau a gysylltir â'r mater ac i ddiogelu iechyd cyhoeddus.

Mae'n rhaid i'ch gwaith ddangos tystiolaeth o:

- a ddealltwriaeth glir o natur mater iechyd cyhoeddus sy'n berthnasol i'r gr p o ddefnyddwyr gwasanaethau a ddewiswyd
- b dadansoddi ac esbonio'r cysylltiadau rhwng ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a dull o fyw ac iechyd a diogelwch cyhoeddus y gr p o ddefnyddwyr gwasanaethau a ddewiswyd
- c y gallu i ddefnyddio ac ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i'r mater iechyd cyhoeddus yr ydych wedi ei ddewis

ch gwerthusiad o'r ffyrdd o leihau risgiau i iechyd a diogelwch cyhoeddus.

Pan fyddwch chi'n cynnal cyfweiliadau neu weithgareddau â chleientiaid, fel rhan o'ch gwaith a asesir yn fewnol, mae'n hanfodol eich bod yn cael caniatâd y cleient ac yn cadw cyfrinachedd llawn trwy'r amser.

## Meini prawf asesu

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(a) (AA1)	<p>Bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o gynnwys yr uned. Bydd adroddiad y dysgwyr yn dangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o fater sy'n ymwneud ag iechyd ac o ganlyniadau go iawn neu botensial hwn i iechyd cyhoeddus.</p> <p>Nid yw'r adroddiad yn gywir bob amser ac yn anaml mae'r dysgwr yn esbonio ei g/waith yn llawn.</p> <p>Ceir peth anghywirdeb a bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(0-10)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd. Bydd gwaith y dysgwyr yn crynhoi ac yn esbonio gwybodaeth sy'n berthnasol ac yn briodol ac yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau. Bydd y dysgwyr yn dangos peth ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng y mater iechyd a ddewiswyd a'r canlyniadau iechyd cyhoeddus.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwr bob amser yn esbonio ei g/waith yn llawn.</p> <p>Prin yw'r anghywirdeb a'r bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(11-15)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o'r mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd. Bydd gwaith y dysgwyr yn dangos y gallu i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol a phriodol o amrywiaeth o ffynonellau, ei dehongli a'i hesbonio.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ac mae'r dysgwr yn esbonio ei g/waith yn llawn gan ddefnyddio geirfa arbenigol yn briodol.</p> <p>Ni cheir unrhyw anghywirdeb na bylchau sylweddol. Bydd yr adroddiad yn dangos dealltwriaeth glir o'r cysylltiadau rhwng y mater sy'n ymwneud ag iechyd a ddewiswyd a'r canlyniadau iechyd cyhoeddus go iawn neu bosibl.</p> <p style="text-align: right;">(16-20)</p>	20

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(b) (AA2)	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fater sy'n ymwneud ag iechyd i iechyd cyhoeddus gr p neu adran benodedig o boblogaeth y DU mewn ffordd sylfaenol a disgrifiadol yn unig.</p> <p>Mae'r esbonio'n gyfyngedig ac yn arwynebol.</p> <p>(0-9)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn rhoi lefel dda o ran esbonio, mae'n gywir ac yn gwneud pwyntiau sy'n cysylltu'r mater (sy'n ymwneud ag iechyd) ag iechyd a diogelwch cyhoeddus gr p neu adran benodedig o boblogaeth y DU.</p> <p>Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos eu gallu i ymresymu, esbonio a gwneud cysylltiadau perthnasol wrth iddynt ddangos sut gall ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac eraill effeithio neu fod â'r potensial i effeithio ar iechyd a/neu ddiogelwch cyhoeddus.</p> <p>(10-14)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn rhoi disgrifiad llawn, cywir, â mewnwelediad o'r cysylltiadau rhwng mater sy'n ymwneud ag iechyd a'r effaith go iawn neu botensial ar iechyd cyhoeddus.</p> <p>Mae'r adroddiad yn dangos y gall y dysgwyr gymhwyso lefel uchel o ddealltwriaeth o faterion cymdeithasol, amgylcheddol, dull o fyw neu eraill wrth ystyried eu heffaith ar iechyd cyhoeddus gr p neu adran benodedig o boblogaeth y DU. Ceir defnydd priodol o eirfa arbenigol a phrin yw'r bylchau neu fylchau o ran cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am y pwnc.</p> <p>(15-18)</p>	18

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(c) (AA3)	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn disgrifio astudiaeth o fater sy'n ymwneud ag iechyd cyhoeddus sy'n tynnu ar amrywiaeth gyfyng o ffynonellau gwybodaeth. Bydd dysgwyr sy'n cyflawni ar y lefel hon yn dangos y sgiliau lleiaf wrth gymhwyso gwybodaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau.</p> <p>Prin yw'r dadansoddi o ran materion amgylcheddol neu ddull o fyw a'u cysylltiadau â phroblemau iechyd cyhoeddus.</p> <p style="text-align: right;">(0-5)</p>	<p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn tynnu ar amrywiaeth o ffynonellau o wybodaeth gefndir sy'n berthnasol i'r mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd. Bydd dysgwyr sy'n cyflawni ar y lefel hon yn dangos sgiliau da wrth gymhwyso gwybodaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau.</p> <p>Bydd dysgwyr yn dangos y gallu i ddethol a dadansoddi gwybodaeth ac i wneud cysylltiadau perthnasol rhwng problemau amgylcheddol, dull o fyw ac iechyd cyhoeddus mewn ffordd resymegol.</p> <p style="text-align: right;">(6-8)</p>	<p>Bydd y dysgwyr yn dangos lefel ardderchog o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y llenyddiaeth gefndir a ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael o ran y mater iechyd cyhoeddus maent wedi ei ddewis. Bydd dysgwyr sy'n cyflawni ar y lefel hon yn dangos sgiliau ardderchog wrth ddod o hyd i wybodaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau a'i chymhwyso.</p> <p>Bydd gwaith dysgwyr yn dangos tystiolaeth o feddwl yn annibynnol wrth ddadansoddi materion amgylcheddol a dull o fyw o ran problemau iechyd cyhoeddus. Bydd y dysgwyr yn dangos defnydd da o eirfa briodol neu arbenigol yn eu gwaith.</p> <p style="text-align: right;">(9-11)</p>	11
(ch) (AA4)	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn cynnwys gwerthusiad sylfaenol o ffyrdd o leihau effaith y risgiau amgylcheddol neu ddull o fyw ar iechyd cyhoeddus.</p> <p>Bydd yn llunio casgliadau sylfaenol rhesymedig am strategaethau, technegau a mesurau posibl y gellid eu defnyddio i ddiogelu iechyd cyhoeddus.</p> <p>Bydd casgliadau'r dysgwyr wedi eu cyfyngu i esbonio a chrynhoi.</p> <p style="text-align: right;">(0-5)</p>	<p>Bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso da a byddant yn llunio rhai casgliadau dilys sy'n glir ac yn rhesymedig.</p> <p>Bydd dysgwyr yn cyflwyno a datblygu dadleuon mewn ffordd resymegol. Byddant yn dangos dealltwriaeth drylwyr a chynhwysfawr o amrywiaeth o strategaethau, technegau a mesurau posibl y gellid eu defnyddio i ddiogelu iechyd cyhoeddus.</p> <p style="text-align: right;">(6-8)</p>	<p>Mae adroddiad yn ddysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso ardderchog. Byddant yn darparu gwerthusiad llawn, cywir a chytbwys o nifer o strategaethau ar gyfer lleihau effaith go iawn neu botensial risgiau amgylcheddol neu ddull o fyw ar iechyd a diogelwch cyhoeddus.</p> <p>Mae'r adroddiad yn dangos y gall y dysgwyr lunio casgliadau dilys o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r eirfa arbenigol briodol yn amlwg.</p> <p style="text-align: right;">(9-11)</p>	11
<b>Cyfanswm y marciau</b>				<b>60</b>

Gweler Atodiad CH: Disgrifiadau Perfformiad am ddisgrifiadau'r AA

## Canllaw asesu

### Band Marciau 1

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad am astudiaeth o fater iechyd cyhoeddus sy'n effeithio — neu a all effeithio yn y dyfodol — ar iechyd, datblygiad neu les rhai neu bob un o'r bobl sy'n ffurfio poblogaeth y DU.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Y dysgwyr i adrodd yn ddisgrifiadol am fater sydd â goblygiadau iechyd cyhoeddus.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn cynhyrchu disgrifiad cryno a chyffredinol iawn gan ddefnyddio pwyntiau wedi eu rhestru neu heb eu datblygu am naill ai'r mater a/neu oblygiadau iechyd cyhoeddus neu'r ddau.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn disgrifio'r mater a ddewiswyd yn llawnach a byddant yn nodi amrywiaeth o effeithiau posibl y mae'n eu cael — neu y gall eu cael — ar iechyd cyhoeddus. Disgwylid y bydd yr adran hon yn adroddiad y dysgwyr yn gyffredinol, yn ddisgrifiadol o ran y cynnwys ac yn gryno. Prin fydd y ddealltwriaeth a ddangosir o sut mae ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol neu ddull o fyw yn cael effaith negyddol ar iechyd cyhoeddus.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Y dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth am fater i iechyd gr p penodol o fewn y boblogaeth.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn adrodd yn gyffredinol ac yn ddisgrifiadol am y cysylltiadau posibl rhwng mater cymdeithasol, amgylcheddol neu ddull o fyw ac iechyd cyhoeddus gr p neu adran benodol o'r boblogaeth.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn defnyddio un neu ddwy enghraifft berthnasol ac yn gwneud pwyntiau sy'n egluro rhai o'r cysylltiadau rhwng y mater a ddewiswyd ac anghenion, risgiau neu brofiadau iechyd cyhoeddus y gr p a ddewiswyd.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos eu defnydd o amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i ymchwilio i'r mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd ac iechyd cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn defnyddio ychydig o ffynonellau priodol ac yn dewis ceisio a gwneud defnydd o rai ffynonellau gwybodaeth amhriodol neu anghynhyrchiol.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn nodi ac yn gwneud defnydd o ffynonellau gwybodaeth mwy priodol ac yn dod o hyd i ddigon o wybodaeth a'i defnyddio i wneud cysylltiadau rhwng yr agweddau cymdeithasol, amgylcheddol a/neu ddull o fyw hyn ar y mater a ddewiswyd ac iechyd cyhoeddus.

## Band Marciau 2

### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Y dysgwyr i werthuso ffyrdd posibl o ddiogelu iechyd cyhoeddus trwy leihau effaith y mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd ar gr p penodol.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn rhoi amlinelliad cyfyngedig, disgrifiadol o amcanion neu nodau diogelu iechyd cyhoeddus ac efallai yn egluro'n fyr ffyrdd posibl o gyflawni hyn.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn llunio rhai casgliadau sylfaenol, rhesymedig am y strategaethau neu fesurau sydd ar gael ac a allai fod yn effeithiol.

(Gw. *Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.*)

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir a manwl am astudiaeth o fater iechyd cyhoeddus sy'n effeithio – neu a all effeithio yn y dyfodol – ar iechyd, datblygiad neu les rhai neu bob un o'r bobl sy'n ffurfio poblogaeth y DU.

### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Y dysgwyr i adrodd yn ddisgrifiadol am fater sydd â goblygiadau iechyd cyhoeddus.

Ar ben isaf y band marciau bydd y dysgwyr yn rhoi crynodeb clir, gwybodus o fater sy'n berthnasol i iechyd cyhoeddus ond bydd yn brin o ran manylder a dyfnder. Seilir y gwaith ar ffynonellau gwybodaeth perthnasol a phriodol a hyn i gyd ag arweiniad cyfyngedig.

Ar ben uchaf y band marciau bydd y dysgwyr yn rhoi crynodeb clir sy'n cysylltu'r mater a ddewiswyd â phryderon iechyd cyhoeddus go iawn neu bosibl. Seilir y gwaith ar ffynonellau gwybodaeth perthnasol a phriodol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i wneud y pwyntiau mewn ffordd fwy clir, cryno a pherthnasol a hyn i gyd ag arweiniad cyfyngedig iawn.

### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Y dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth am fater i iechyd gr p penodol o fewn y boblogaeth.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth o gysylltiad posibl rhwng y mater iechyd a ddewiswyd ac iechyd cyhoeddus. Seilir hyn ar wybodaeth gefndir ddilys a chredadwy. Bydd yn cysylltu'r mater yn benodol ag anghenion neu risgiau iechyd cyhoeddus.

Ar ben uchaf y band marciau mae dysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth o rai cysylltiadau (go iawn neu botensial) rhwng yr agweddau cymdeithasol, amgylcheddol a/neu ddull o fyw ar y mater a ddewiswyd ac iechyd cyhoeddus, gan roi enghreifftiau, ystadegau a ffynonellau cyfeiriadau i ategu eu pwyntiau gyda thystiolaeth.

### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos eu defnydd o amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i ymchwilio i'r mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd ac iechyd cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth perthnasol a phriodol er bod y rhain yn debyg o fod yn gyffelyb ac yn brin o amrywiaeth.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o wahanol fathau ar ffynonellau perthnasol a phriodol. Byddant yn ymchwilio i'r mater a ddewiswyd a'i oblygiadau iechyd cyhoeddus yn drylwyr.

### Band Marciau 3

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Y dysgwyr i werthuso ffyrdd posibl o ddiogelu iechyd cyhoeddus trwy leihau effaith y mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd ar gr p penodol.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn ystyried nifer o strategaethau a thechnegau perthnasol y gellid eu defnyddio a byddant yn dangos y gallu i adnabod eu cryfderau a gwendidau cymharol.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn adolygu nifer o strategaethau a thechnegau'n gynhwysfawr. Hefyd, byddant yn defnyddio rhesymegu ac esbonio clir i argymhell ffyrdd o leihau'r risg i iechyd cyhoeddus sydd yn glwm wrth y mater.

(Gw. *Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.*)

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir, manwl a thrylwyr am astudiaeth o fater iechyd cyhoeddus sy'n effeithio — neu a all effeithio yn y dyfodol — ar iechyd, datblygiad neu les rhai neu bob un o'r bobl sy'n ffurfio poblogaeth y DU.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Y dysgwyr i adrodd yn ddisgrifiadol am fater sydd â goblygiadau iechyd cyhoeddus.

Ar ben isaf y band marciau bydd y dysgwyr yn dangos lefel uchel o wybodaeth am y mater a'r goblygiadau iechyd cyhoeddus go iawn neu bosibl, er na fydd ddyfnder y ddealltwriaeth bob amser yn cyfateb i ehangder yr wybodaeth, gyda chymorth achlysurol.

Ar ben uchaf y band marciau bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth ddwfn a thrylwyr o'r mater a ddewiswyd a byddant yn amlwg yn deall ei oblygiadau o ran iechyd cyhoeddus, gan weithio'n annibynnol.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Y dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth am fater i iechyd gr p penodol o fewn y boblogaeth.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o'r cysylltiadau posibl rhwng mater cymdeithasol, amgylcheddol neu ddull o fyw ac iechyd cyhoeddus. Byddant yn gwneud ychydig o bwyntiau am yr effaith y gall y mater hwn ei chael ar iechyd cyhoeddus a lles y gr p poblogaeth penodol gyda chymorth achlysurol.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o'r cysylltiadau posibl rhwng mater cymdeithasol, amgylcheddol neu ddull o fyw ac iechyd cyhoeddus. Byddant yn gwneud nifer o bwyntiau am yr effaith y gall y mater hwn ei chael ar iechyd cyhoeddus a lles y gr p poblogaeth penodol. Bydd y gwaith yn fanwl a deallus gyda phawb yn gweithio fel unigolion.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos eu defnydd o amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i ymchwilio i'r mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd ac iechyd cyhoeddus yn fwy cyffredinol, gan ddangos menter a thrylwyredd ynghyd ag amrywiaeth o ffynonellau gwahanol sy'n berthnasol ac yn briodol.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn defnyddio'r ffynonellau i ganolbwyntio'n glir ar y mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd a byddant yn gwneud defnydd effeithiol o'r deunydd maent yn dod o hyd iddo, gyda chymorth achlysurol.



Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos gallu ardderchog i ymchwilio, dethol a defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau wrth lunio pwyntiau a dadleuon yn rhesymegol ac yn gryno, gan weithio'n annibynnol.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Y dysgwyr i werthuso ffyrdd posibl o ddiogelu iechyd cyhoeddus trwy leihau effaith y mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd ar gr p penodol, trwy roi gwerthusiad llawn a chywir o strategaethau posibl ar gyfer lleihau effaith y mater a ddewiswyd ar iechyd cyhoeddus.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn canolbwyntio ar un neu ddwy strategaeth gan ddangos dealltwriaeth glir, wybodus o reidrwydd iechyd cyhoeddus i ymdrin â'r mater cymdeithasol, amgylcheddol neu ddull o fyw a ddewiswyd, gyda chymorth achlysurol.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn cyflwyno gwerthusiad o'r materion a dewisiadau gwahanol yn glwm sy'n amlwg yn gytbwys ac yn rhesymedig. Byddant yn dangos dealltwriaeth glir, wybodus o reidrwydd iechyd cyhoeddus i ymdrin â'r mater cymdeithasol, amgylcheddol neu ddull o fyw a ddewiswyd, gan weithio'n annibynnol.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

---

## Cyflwyno'r uned hon

Asesir yr uned hon yn fewnol. Mae'r asesiad yn gofyn i ddysgwyr dethol, ymchwilio, a chynhyrchu adroddiad am fater iechyd cyhoeddus. Gall hwn fod yn fater sydd yn berthnasol yn lleol neu o arwyddocâd cenedlaethol ehangach. Mae materion iechyd cyhoeddus yn cael mwy a mwy o sylw gan y cyfryngau. Bydd dysgwyr yn dod o hyd i ymdriniaeth â phroblemau iechyd cyhoeddus newydd (e.e. SARS, gordewdra) a pharhaus (e.e. effeithiau cyffuriau, alcohol ac ysmegu) yn y cyfryngau darlledu ac argraffu. Ar ben hynny, mae sefydliadau anllywodraethol fel Sefydliad Iechyd y Byd a charfanau pwysu yn cyhoeddi deunydd perthnasol ar eu gwefannau.

Bydd angen dealltwriaeth glir ar ddysgwyr o natur ac arfer iechyd cyhoeddus yn y DU. Mae'n hanfodol gwahaniaethu hyn oddi wrth ymarfer gofal ar lefel unigol. Mae'r prif gyfrifoldebau am fentrau iechyd ar lefel y boblogaeth yn nwylo llywodraeth ganolog a lleol. Fel canlyniad, mae'n bwysig archwilio'r hyn sydd, yn nhyb asiantaethau'r llywodraeth, yn nodau, pryderon a strategaethau allweddol iechyd cyhoeddus. Mae llawer iawn o wybodaeth am iechyd cyhoeddus ar gael ar wefannau a ariannir gan y llywodraeth. Yn ogystal â hynny, mae'r cyfryngau yn aml yn canolbwyntio ar roi sylw i faterion iechyd cyhoeddus.

Mae pwysiad cymharol gyfartal i dair adran yr uned o ran cynnwys a'r cyfraniad maent yn ei wneud i baratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiad. Dylid adlewyrchu hyn yn yr amser a glustnodir ar gyfer ei chyflwyno. Gall dulliau cyflwyno amrywio ond dylent symud y dysgwyr yn raddol tuag at ddewis pynciau a chychwyn ar ymchwiliad – â chymorth – i'r mater iechyd cyhoeddus a ddewiswyd ganddynt.

---

## Cysylltau

Unedau eraill	Uned 8: Hybu Iechyd a Lles Uned 11: Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles
Dyfarniadau TAG eraill	Mae UG Cymdeithaseg yn cynnwys peth ymdriniaeth â phatrymau iechyd a salwch yn y DU
Dyfarniadau galwedigaethol eraill	Mae BTEC Cenedlaethol mewn Astudiaethau Iechyd a Gofal yn cynnwys unedau sy'n sôn am unedau a dulliau iechyd cyhoeddus. Efallai mai'r enw arnynt fydd 'iechyd amgylcheddol' ac yn aml, maent yn canolbwyntio'n arbennig ar y cysylltiadau rhwng iechyd ac agweddau ar newid amgylcheddol.

---

## Adnoddau

Gwerslyfrau	Baggot R — <i>Public Health: Policy and Politics</i> (Palgrave Macmillan, 2002) ISBN 0333676491 Cahill M — <i>The Environment and Social Policy</i> (Routledge, 2002) ISBN 095335718X Walsh M, Stephens P and Moore S — <i>Social Policy and Welfare</i> (Nelson Thornes, 2002) ISBN 0748745912
Gwefannau	Adran Iechyd <a href="http://www.doh.gov.uk">www.doh.gov.uk</a> Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig <a href="http://www.defra.gov.uk">www.defra.gov.uk</a> Asiantaeth Diogelu Iechyd <a href="http://www.hpa.gov.uk">www.hpa.gov.uk</a> Asiantaeth Safonau Bwyd <a href="http://www.foodstandards.gov.uk">www.foodstandards.gov.uk</a> Cenhedloedd Unedig <a href="http://www.un.org">www.un.org</a> Comisiwn Bwyd <a href="http://www.foodcomm.org.uk">www.foodcomm.org.uk</a> Compassion in World Farming <a href="http://www.ciwf.co.uk">www.ciwf.co.uk</a> Cyfeillion y Ddaear <a href="http://www.foe.org">www.foe.org</a> Greenpeace <a href="http://www.greenpeace.org/international">www.greenpeace.org/international</a> UK Public Health Alliance <a href="http://www.ukpha.org.uk">www.ukpha.org.uk</a>
Darllen pellach	Mae atodiad <i>The Guardian</i> — <i>Society</i> ar ddydd Mercher yn cynnwys adran ar gymdeithas a'r amgylchedd sydd yn aml yn ymdrin â materion iechyd cyhoeddus.

---



## Uned 7: Diwallu Anghenion Unigol

---

U2 uned orfodol

Asesir yn allanol

---

### Cyflwyniad

Nod yr uned hon yw asesu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth a sut mae gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu strwythuro a'u darparu yn y DU.

Bydd yr uned yn canolbwyntio ar sut mae gwasanaethau yn cael eu teilwra i ddiwallu anghenion unigol trwy ddefnyddio cynlluniau gofal ac ar bwysigrwydd gweithio mewn amgylchedd amlddisgyblaethol.

Hefyd, mae'r uned yn gadael i chi ddangos eich dealltwriaeth o sut y cedwir atebolrwydd trwy weithdrefnau sicrwydd ansawdd a osodir gan y sefydliad a'r llywodraeth.

Dyma'r uned synoptig ar gyfer TAG lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n tynnu ar ddysgu blaenorol oddi wrth *Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol*, *Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd* ac *Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol*.

Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen yn yr asesu allanol yn briodol i'r sefyllfa neu ddefnyddwyr y gwasanaethau yn yr uned hon. Gellid tynnu hynny oddi wrth unrhyw un o'r canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* ac fe gewch eich asesu ar eich gallu i gymhwyso hyn i'r asesu allanol.

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd

Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 7.1 Strwythur a darpariaeth gwasanaethau

Bydd angen i chi ddangos gwybodaeth o sut mae gwasanaethau wedi cael eu darparu'n draddodiadol gan y sectorau cyhoeddus (statudol), gwirfoddol neu breifat (sectorau annibynnol).

Bydd angen i chi ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o swyddogaethau llywodraeth ganolog a lleol wrth ddatblygu gwasanaethau, h.y. ariannu, cynllunio, darparu gwasanaethau a llunio polisi.

Bydd angen i chi gymhwyso eich gwybodaeth am newidiadau deddfwriaethol diweddar i'r sefyllfa – neu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau – iechyd perthnasol.

Mae hyn yn cynnwys newidiadau i'r deddfau canlynol:

- Y Ddeddf Plant (1989)
- Deddf Iechyd Meddwl (1983)
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995)
- Deddf Iawnderau Dynol (1998)
- Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned (1990).

Bydd angen i chi ddangos dealltwriaeth o sut mae'r fath ddeddfau wedi effeithio ar ddarpariaeth.

Bydd angen i chi ddangos dealltwriaeth o'r prif dermau a chysyniadau a gysylltir â'r ddarpariaeth bresennol, h.y. 'economi cymysg o ofal', neu rolau darparwr/prynwr.

Bydd angen i chi ddangos dealltwriaeth o swyddogaeth y sector annibynnol (yn breifat ac yn wirfoddol) yn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau ynghyd â'r cyfraniad amhrisiadwy gan ofalwyr anffurfiol.

### 7.2 Diwallu Anghenion Unigol

Bydd angen i chi ddangos dealltwriaeth o sut mae darparwyr gwasanaethau iechyd a Gofal Cymdeithasol yn teilwra'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion unigryw unigolyn.

Bydd cymhwyso eich gwybodaeth yn canolbwyntio ar y tair agwedd ganlynol ar deilwra darpariaeth gwasanaeth:

- y broses cynllunio gofal
- y cylchred cynllun gofalu, a'i gydrannau
- asesu darpariaeth gwasanaeth; adnabod anghenion, monitro ac adolygu cynlluniau gofalu a phwysigrwydd cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y broses cynllun gofalu.

Dylai'r wybodaeth a ddatblygir fod yn drachywir gan werthuso sut gall cynllunio gofal fod o fudd i iechyd a lles defnyddiwr gwasanaethau trwy fod cynlluniau gofalu yn cael eu llunio ar sail angen.

Bydd angen i chi ddatblygu gwybodaeth a dangos sgiliau gwerthuso yngl n â modelau a damcaniaethau cynllun gofalu fel:

- normaleiddio
- rhoi grym (*empowerment*)
- eiriolaeth
- rhwydweithio.

Ar ben hynny, byddwch yn datblygu gwybodaeth a dangos sgiliau gwerthuso yngl n â materion sy'n gysylltiedig â chynlluniau gofalu fel adnoddau, risgiau a chyfrinachedd.

### 7.3 Swyddogaethau ymarferwyr

Bydd angen i chi archwilio sut gall diwylliant sefydliad effeithio ar waith yr ymarferwr wrth ddarparu gwasanaethau a sut gall hybu amgylchedd gofal cadarnhaol ddiogelu a hybu hawliau defnyddwyr gwasanaethau.

Bydd angen i chi ddatblygu dealltwriaeth o'r termau a chysyniadau a gysylltir â sefydliad.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- diwylliant sefydliad
- cyfathrebu'n effeithiol
- datganiadau cenhadaeth
- swyddogaethau
- cyfrifoldebau
- atebolrwydd
- adeiladu tîm effeithiol
- rhwystrau rhag diwylliant sefydliad.

Bydd angen i chi fedru cymhwyso eich dealltwriaeth o fewn cyd-destun penodol.

Ar ben hynny, bydd angen i chi archwilio'r cyfraniad y mae ymarferwyr yn ei wneud i'r sefydliad a sut y gellir hybu hyn trwy weithio fel tîm, recriwtio a dethol priodol, trefnau cynnig cymorth (*support mechanisms*), hyfforddi a datblygu a gweithio amlddisgyblaethol.

### 7.4 Sicrwydd a rheoliadau ansawdd

Agwedd hanfodol yn yr uned fydd canolbwyntio ar sut y cynhelir ansawdd yn y sefydliad. Mae'r termau safonau, trefn lywodraethol a rheoli ansawdd bellach yn gyffredin mewn gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae sefydliadau wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i ddarparu gwasanaethau y maent yn atebol amdanynt ac sydd hefyd o safon uchel. Mae hyn wedi datblygu o ganlyniad i adroddiadau yn y cyfryngau sydd wedi amlygu:

- darpariaeth wael
- triniaeth annheg
- esgeuluso
- rhai grwpiau agored i niwed.

Gofynnir i chi ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o swyddogaeth sicrwydd ansawdd yn y sefydliad. Bydd angen i chi wybod am sut mae'n cael ei reoli a'i fonitro trwy:

- swyddogaethau a chyfrifoldebau unigol
- gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau
- ymateb i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhoi adborth iddynt
- archwilio ac adnabod darpariaeth gwasanaeth wael
- ymdrin â chwynion ac ymateb iddynt.

Hefyd, disgwylir i chi ddilyn mentrau cyfredol y llywodraeth sy wedi eu cynllunio er mwyn gwella ansawdd darpariaeth gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys siarteri dinasyddion, siarteri cleifion ynghyd â mentrau mwy diweddar fel swyddogaeth unedau arolygu a chofrestru gwasanaethau cymdeithasol a dogfennau ansawdd fel 'Gwasanaeth Dosbarth Cyntaf' (gellir dod o hyd i fanylion ar wefan yr Adran Iechyd – [www.doh.gov.uk](http://www.doh.gov.uk)).

## Tystiolaeth asesu

Mae hon yn uned a asesir yn allanol a dyma'r prawf synoptig ar gyfer TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Asesir yr uned trwy arholiad ysgrifenedig 1½-awr y cewch chi ei sefyll y mis Ionawr neu fis Mehefin.

Gofynnir i chi ddangos eich gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y diwellir anghenion unigolion. Gellir gosod cwestiynau ar y sefyllfaoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am yr henoed
- unigolion ag anghenion penodol

Bydd yr arholiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- a strwythur a darpariaeth gwasanaethau a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth
  - b sut mae darpariaeth o fewn sefydliadau wedi cael ei theilwra i ddiwallu anghenion unigol
  - c swyddogaethau a chyfrifoldebau ymarferwyr
  - ch sut mae sefydliadau yn cynnal sicrwydd ansawdd.
- 

## Cyflwyno'r uned hon

- |     |   |  |
|-----|---|--|
| 7.1 | <b>Strwythur a darpariaeth gwasanaethau</b> | Y nod yw gadael i ddysgwyr ymchwilio i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn y DU. Hefyd, bydd yn gadael i ddysgwyr wahaniaethu rhwng mathau gwahanol o ddarparwyr ac adnabod y gogwydd presennol tuag at economi cymysg o ofal a dibyniaeth y wladwriaeth ar y sector annibynnol a gofalwyr anffurfiol. Hefyd, dylai dysgwyr fedru dangos y cyfrifoldeb sydd gan sefydliadau o dan ddeddfwriaethau wrth ddarparu gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a medru eu cymhwyso i sefyllfa gr p o ddefnyddwyr gwasanaethau/gofal penodol. |
| 7.2 | <b>Diwallu Anghenion Unigol</b>             | Dylai dysgwyr allu cynhyrchu dealltwriaeth feirniadol o'r broses cynllunio gofal. Caiff yr wybodaeth hon ei chymhwyso o fewn cyd-destun iechyd neu ofal cymdeithasol penodol. Hefyd, dylai dysgwyr allu dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd cynnwys y cleient yn y broses. Defnyddir cymhwysiad cywir o fodolau a damcaniaethau gan y dysgwr i ddangos pa mor effeithiol yw'r broses cynllunio gofal o ran hybu rhoi grym, eiriolaeth a.a.  |
| 7.3 | <b>Swyddogaethau ymarferwyr</b>             | Bydd dysgwyr yn gallu dangos dealltwriaeth feirniadol o sut mae diwylliant sefydliad yn cael ei gysylltu ag agweddau ar bolisi sefydliadol fel datganiad cenhadaeth, polisiau cyfle cyfartal, polisiau recriwtio a dethol. Ar ben hynny, bydd y dysgwyr yn ymchwilio ac yn dangos sut gall ymarferwyr o wahanol gefndiroedd weithio gyda'i gilydd i ddarparu pecyn gofal holistig sy'n hybu lles defnyddwyr y gwasanaethau.  |
| 7.4 | <b>Sicrwydd a rheoliadau ansawdd</b>        | Dylai dysgwyr allu adnabod ac asesu'n feirniadol yr offer gwahanol a ddefnyddir i hybu sicrwydd ansawdd a sut gall y fath offer fod o fudd i'r sefydliad trwy ei wneud yn fwy effeithiol ac yn effeithlon wrth ddarparu ei wasanaethau. Gellir dod o hyd i fanylion dogfen 'Gwasanaeth Dosbarth Cyntaf' ar wefan yr Adran Iechyd ( <a href="http://www.doh.gov.uk">www.doh.gov.uk</a> ).   |
-

## Cysylltau

### Unedau eraill

Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol  
Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd  
Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol  
Uned 11: Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles

### Diwydiant

Mae lleoliadau gwaith yn ddymunol.  
Argymhellir ymweliadau diwydiannol.  
Argymhellir siaradwyr gwadd i siarad am agweddau mwy cymhleth yr unedau fel sicrwydd ansawdd.

---

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Clarke A — *The Sociology of Health Care* (Pearson Education Ltd, 2001)  
ISBN 0582369541  
Handy C — *Understanding Organisations* (Penguin Pub, 1981)  
ISBN 0140156038  
Moore S — *Social Welfare Alive* (Stanley Thornes Pub, 1995)  
ISBN 0748714022  
Sharkey P — *Introducing Community Care* (Collins Educational, 1995)  
ISBN 0003223337  
Walsh M et al — *Social Policy and Welfare* (Stanley Thornes, 2000)  
ISBN 0748745912  
Webb R et al — *Social Issues for Carers* (Hodder Arnold, 1994)  
ISBN 0340535988  
Young P — *Mastering Social Welfare, 4ydd Argraffiad* (MacMillan Press Ltd, 2000) ISBN 0333973277

### Gwefannau

Adran Iechyd [www.doh.gov.uk](http://www.doh.gov.uk)  
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain [www.basw.co.uk](http://www.basw.co.uk)  
Gofal yn Gymuned [www.community-care.co.uk](http://www.community-care.co.uk)  
Safonau Gofal — swyddi Iechyd a Gofal Cymdeithasol [www.carestandard.org.uk](http://www.carestandard.org.uk)

---





## Uned 8: Hybu Iechyd a Lles

---

U2 uned orfodol

Asesir yn fewnol

---

### Cyflwyniad

Bydd yr uned hon yn datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth am hybu iechyd a lles.

Byddwch yn darganfod pam y cynhelir ymgyrchoedd hybu iechyd a sut mae testunau a grwpiau targed yn cael eu canfod.

Trwy gyflawni eich ymgyrch hybu iechyd eich hunan ar raddfa fach, byddwch yn dysgu am y gwahanol ffyrdd o ymdrin ag addysg iechyd a sut maent yn cael eu gweithredu a byddwch yn datblygu sgiliau mewn cynllunio, cynnal a gwerthuso gweithgaredd i hybu iechyd a lles. Dylai eich ymgyrch hybu iechyd gymryd tua 15 awr i'w chwblhau.

Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen yn yr asesu allanol yn briodol i'r sefyllfa neu ddefnyddwyr y gwasanaethau yn yr uned hon. Gellid tynnu hynny oddi wrth unrhyw un o'r canlynol

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn yr adran *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* ac fe'ch asesir ar eich gallu i'w ddehol a'i gymhwyso i'r cyd-destun yn y gweithle rydych chi wedi ei ddewis.

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

Uned 6: Iechyd Cyhoeddus

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

- 8.1 Rhesymau am hybu iechyd a lles**
- Mae'n rhaid i chi ddeall ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i lansio ymgyrch hybu iechyd.
- Gall y ffactorau hyn gynnwys:
- data demograffig, fel patrymau clefydau neu afiechyd neu ddata ar risgiau a gysylltir â ffordd o fyw ac ymddygiad
  - targedau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer iechyd a lles
  - pryderon am fater all gael eu lleisio gan y llywodraeth, gan y cyhoedd neu yn y cyfryngau
  - tystiolaeth wyddonol newydd ynglŷn ag agwedd ar iechyd a lles.
- Mae angen i chi dod i wybod am asiantaethau sy'n ymwneud â hybu iechyd fel adrannau'r llywodraeth, llywodraeth leol a chyirff cyhoeddus a phreifat eraill.
- Mae'n rhaid i chi ddeall sut mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymgyrch hybu iechyd a blaenoriaethau'r asiantaeth sy'n ei chynnal, yn cyfrannu at ddiffinio'r testun a'r grŵp yr anelir yr ymgyrch ato.
- 8.2 Modelau a dulliau o fynd ati i hybu iechyd**
- Dylech ddeall bod gwahanol fodelau a dulliau yn cael eu defnyddio wrth hybu iechyd.
- Mae'r modelau hyn yn cynnwys rhai:
- meddygol
  - newid ymddygiad
  - addysgol
  - rhoi grym neu gleient-ganolog
  - newid cymdeithasol.
- Dylech astudio nodweddion gwahanol fodelau a deall sut mae'r dewis o fodelau i'w defnyddio yn cael ei ddylanwadu gan y testun, y grŵp targed a ffactorau eraill fel graddfa'r ymgyrch hybu a'r adnoddau sydd ar gael.
- Byddwch yn dysgu am y gwahanol gyfryngau a ddefnyddir wrth hybu iechyd fel:
- taflenni
  - posteri
  - cyflwyniadau
  - hysbysebion mewn papurau newyddion neu ar y teledu.
- Byddwch yn ennill gwybodaeth am y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau i ddefnyddio cyfryngau arbennig wrth hybu iechyd.
- Byddwch yn deall y gall neges amrywio o ran arddull a dull, er enghraifft gallai gael ei chynllunio i fod yn ddigrif ac yn ddeniadol neu i roi sioc. Byddwch yn ennill gwybodaeth am ffactorau sy'n dylanwadu ar yr arddull a'r dull a ddefnyddir ar gyfer neges.
- Byddwch yn deall y materion moesegol a gysylltir â hybu iechyd a'r modelau a dulliau a ddefnyddir ynddynt.

### 8.3 Cynllunio a gweithredu ymgyrch hybu iechyd

Bydd angen i chi ddatblygu gwybodaeth a sgiliau o ran cynllunio a gweithredu ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach.

Bydd angen i chi wybod am y camau yn y broses hon gan gynnwys;

- ennill gwybodaeth am ymchwil eilaidd i oleuo penderfyniadau am y testun a'r grŵp targed
- gosod nodau ac amcanion ar gyfer yr ymgyrch a datblygu meini prawf ac offer i werthuso cynnydd a chasgliadau
- dethol model(au), cyfryngau ac arddull neges sy'n addas ar gyfer hybu iechyd
- gweithredu'r ymgyrch
- dadansoddi data gwerthuso a gafwyd yn ystod yr ymgyrch
- gwerthuso'r canlyniadau, gan gynnwys o safbwynt y nodau ac amcanion gwreiddiol a meini prawf gwerthuso.

Trwy ymchwilio a chyflawni eich ymgyrch eich hunan ar raddfa fach, byddwch yn gallu datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i gynorthwyo pob cam yn y broses.

---

## Tystiolaeth asesu

Fel arfer bydd y dystiolaeth asesu yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig ar ymgyrch hybu iechyd rydych chi wedi ei chynnal ar raddfa fach.

Cewch weithio fel rhan o grŵp neu fel unigolyn i gynnal yr ymgyrch hybu iechyd ond mae'n rhaid i'ch adroddiad fod yn ddarn o waith unigol a gyflawnwyd yn gyfan gwbl gennych chi yn unig. Dylai eich ymgyrch hybu iechyd gymryd tua 15 awr i'w chwblhau.

Gellir tynnu testun eich ymgyrch hybu iechyd o unrhyw faes sy'n berthnasol i lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Dylai'r grŵp targed fod yn un o'r grwpiau cleient canlynol:

- pobl sy'n sâl
- plant ifanc
- pobl hŷn
- pobl ag anghenion penodol.

Bydd eich adroddiad yn dangos eich gwybodaeth a dealltwriaeth o hybu iechyd a lles ac yn dangos tystiolaeth o'ch gallu i gynnal ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach. Cewch ddefnyddio deunyddiau sydd eisoes yn bodoli neu ddatblygu eich deunyddiau eich hunan, i gasglu tystiolaeth ar gyfer eich ymgyrch hybu iechyd.

Mae'n rhaid i'ch adroddiad gynnwys tystiolaeth o:

- a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r testun y mae eich ymgyrch yn ymdrin ag ef ynghyd â dewis grŵp targed sy'n ystyriol ac yn briodol
  - b cynllunio eich ymgyrch gan gynnwys; nodau ac amcanion, y model(au)/dull(iau) hybu iechyd a ddewiswyd a'r dulliau a ddefnyddir i fesur llwyddiant yr ymgyrch
  - c gweithredu eich ymgyrch hybu iechyd, defnyddio a datblygu cyfryngau a deunyddiau priodol a dadansoddi llwyddiant eich ymgyrch hybu iechyd
- ch canlyniadau gwerthuso eich ymgyrch hybu iechyd.

Pan fyddwch yn cynnal cyfweiliadau neu weithgareddau gyda chleientiaid fel rhan o'ch gwaith a asesir yn fewnol mae'n hanfodol i chi gael cydsyniad y cleient a chynnal cyfrinachedd llawn trwy'r amser.

---

## Meini prawf asesu

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(a) (AA1)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau sylfaenol wrth ddod o hyd i wybodaeth o un ffynhonnell o leiaf ar destun eu hymgyrch hybu iechyd. Prin yw'r dystiolaeth o ymchwil annibynnol a'r nifer o ffynonellau a ddefnyddiwyd yn gyfyngedig.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu dewis gr p targed addas ond mae'r sail resymegol am eu dewis yn simplistig.</p> <p style="text-align: right;">(0-7)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau da wrth ddod o hyd i wybodaeth o ddwy ffynhonnell o leiaf ar destun eu hymgyrch hybu iechyd. Ceir tystiolaeth o ymchwil annibynnol ac mae'r wybodaeth wedi ei chasglu o nifer o ffynonellau perthnasol.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu dewis gr p targed addas ac mae'r sail resymegol am eu dewis yn rhesymedig.</p> <p style="text-align: right;">(8-10)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau ardderchog wrth ddod o hyd i wybodaeth o dair ffynhonnell o leiaf ar destun eu hymgyrch hybu iechyd. Ceir tystiolaeth o fenter y dysgwyr wrth gynllunio eu dulliau eu hunain o ddod o hyd i wybodaeth ac mae'r wybodaeth wedi ei chasglu o nifer o ffynonellau perthnasol a gwahanol fathau o ffynonellau.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu dewis gr p targed addas ac mae'r sail resymegol am eu penderfyniad wedi ei rhesymu'n dda.</p> <p style="text-align: right;">(11-13)</p>	13
(b) (AA2)	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu creu cynllun ar gyfer ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach ac yn dangos gwybodaeth sylfaenol am fodelau a dulliau hybu iechyd.</p> <p>Mae o leiaf un o'r nodau a'r amcanion yn cael ei ddatgan er y gall y ddealltwriaeth ohono fod yn gyfyngedig.</p> <p>Mae dulliau gwerthuso yn cael eu datgan fel dull o fesur llwyddiant yr ymgyrch ond dangosir dealltwriaeth gyfyngedig o'r broses werthuso.</p> <p style="text-align: right;">(0-7)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu creu cynllun ar gyfer ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach ac yn dangos gwybodaeth dda am fodelau a dulliau hybu iechyd.</p> <p>Mae o leiaf ddau o'r nodau a'r amcanion yn cael eu datgan a dangosir dealltwriaeth dda ohonynt.</p> <p>Mae dulliau gwerthuso yn cael eu disgrifio fel dull o fesur llwyddiant yr ymgyrch a dangosir dealltwriaeth dda o'r broses werthuso.</p> <p style="text-align: right;">(8-10)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu creu cynllun ar gyfer ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach ac yn dangos lefel uchel o wybodaeth am fodelau a dulliau hybu iechyd.</p> <p>Mae o leiaf dri o'r nodau a'r amcanion yn cael eu datgan a dangosir dealltwriaeth fanwl ohonynt.</p> <p>Mae dulliau gwerthuso yn cael eu hesbonio fel dull o fesur llwyddiant yr ymgyrch a dangosir lefel uchel o ddealltwriaeth o'r broses werthuso.</p> <p style="text-align: right;">(11-13)</p>	13

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(c) (AA3)	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu cynnal eu hymgyrch hybu iechyd arfaethedig a dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r modelau hybu iechyd a ddefnyddiwyd.</p> <p>Seilir y dadansoddi ar ddata cyfyngedig neu wan ac mae'r canlyniadau yn simplistig neu heb eu hategu.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu creu cyfryngau a deunyddiau ond mae'r dewisiadau yn dangos dealltwriaeth a gwybodaeth gyfyngedig o'r modelau hybu iechyd a ddefnyddiwyd.</p> <p>Gall y dysgwyr gymhwyso dulliau o fesur llwyddiant yr ymgyrch ond mae hyn yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r broses.</p> <p style="text-align: right;">(0-8)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu cynnal eu hymgyrch hybu iechyd arfaethedig a dangos dealltwriaeth dda o'r modelau hybu iechyd a ddefnyddiwyd.</p> <p>Seilir y dadansoddi ar ddata digonol ac mae'r canlyniadau wedi eu rhesymu a'u seilio ar dystiolaeth.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu creu cyfryngau a deunyddiau ac mae'r dewisiadau yn dangos dealltwriaeth a gwybodaeth glir o'r modelau hybu iechyd a ddefnyddiwyd.</p> <p>Gall y dysgwyr gymhwyso dulliau o fesur llwyddiant yr ymgyrch a dangos dealltwriaeth dda o'r broses.</p> <p style="text-align: right;">(9-13)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu cynnal eu hymgyrch hybu iechyd arfaethedig a dangos dealltwriaeth fanwl o'r modelau hybu iechyd a ddefnyddiwyd.</p> <p>Seilir y dadansoddi ar ddata cynhwysfawr ac mae'r canlyniadau wedi eu rhesymu a'u seilio ar dystiolaeth gadarn a gyflwynwyd o fewn yr adroddiad.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu creu cyfryngau a deunyddiau ac mae'r dewisiadau yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth a gwybodaeth o'r modelau hybu iechyd a ddefnyddiwyd.</p> <p>Gall y dysgwyr gymhwyso dulliau o fesur llwyddiant yr ymgyrch ac yn dangos dealltwriaeth ardderchog o'r broses.</p> <p style="text-align: right;">(14-17)</p>	17

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(ch) (AA4)	<p>Mae'r dysgwr yn dangos lefel sylfaenol o sgiliau gwerthuso.</p> <p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn gwerthuso'r ymgyrch a dangos y canlyniadau ond mae'r adroddiad yn ddisgrifiadol a'r esbonio'n gyfyngedig.</p> <p>Dangosir dealltwriaeth sylfaenol o un o'r nodau ac amcanion o leiaf ynghyd â'r meini prawf gwerthuso.</p> <p>Mae lefel y meddwl annibynnol yn gyfyngedig.</p> <p>(0-8)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos lefel dda o sgiliau gwerthuso.</p> <p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn gwerthuso'r ymgyrch hybu iechyd ac yn dangos y canlyniadau gyda chasgliadau rhesymedig.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn medru trafod a llunio casgliadau sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth.</p> <p>Dangosir dealltwriaeth dda o ddau o'r nodau ac amcanion o leiaf ynghyd â'r meini prawf gwerthuso.</p> <p>Ceir peth tystiolaeth o feddwl annibynnol a menter.</p> <p>(9-12)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos sgiliau gwerthuso ardderchog.</p> <p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn gwerthuso'r ymgyrch ac yn dangos y canlyniadau gyda chasgliadau manwl wedi eu rhesymu'n dda.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn medru llunio casgliadau dilys o'r dystiolaeth sydd ar gael a'r rheini'n glir, manwl ac wedi eu rhesymu'n dda.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o feddwl annibynnol a menter.</p> <p>(13-17)</p>	17
<b>Cyfanswm y marciau</b>				<b>60</b>

Gweler Atodiad CH: Disgrifiadau Perfformiad am ddisgrifiadau'r AA



## Canllaw asesu

### Band Marciau 1

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad ar ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach y maent wedi ei chynnal, ar unrhyw faes sy'n berthnasol i lechyd a Gofal Cymdeithasol.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau wrth ddod o hyd i wybodaeth a gwneud dewis rhesymedig o gr p targed addas.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos eu bod wedi cyrchu gwybodaeth berthnasol ond wedi defnyddio un ffynhonnell yn unig heb esbonio'r dewis o gr p targed neu heb ei esbonio'n ddigonol. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos eu bod wedi cyrchu gwybodaeth berthnasol ac wedi defnyddio un neu ddwy ffynhonnell, gan esbonio'r dewis o gr p targed mewn ffordd simplistig. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i greu cynllun am eu hymgyrch hybu iechyd sy'n dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fodelau a dulliau, nodau ac amcanion a dulliau a phrosesau gwerthuso hybu iechyd.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos y gallu i gynllunio eu hymgyrch hybu iechyd a dealltwriaeth sylfaenol iawn o un model neu ddull hybu iechyd. Datgenir un neu ddau nod, amcan a dull gwerthuso. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos y gallu i gynllunio eu hymgyrch hybu iechyd a dealltwriaeth sylfaenol o un neu ddau fodel neu ddull hybu iechyd. Datgenir dau nod, amcan a dull gwerthuso. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o fodelau a dulliau hybu iechyd ynghyd â'r broses werthuso trwy gynnal eu hymgyrch arfaethedig a dadansoddi eu canfyddiadau.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos gallu sylfaenol iawn i weithredu eu hymgyrch hybu iechyd gan gynhyrchu dadansoddiad sydd wedi ei seilio ar ddata gwan iawn heb eu hategu. Maent yn gallu dewis a defnyddio un neu ddau ddarn o ran cyfryngau a deunyddiau. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos gallu sylfaenol i weithredu eu hymgyrch hybu iechyd gan gynhyrchu dadansoddiad sydd wedi ei seilio ar ddata cyfyngedig a gwan. Maent yn gallu dewis a defnyddio dau ddarn o ran cyfryngau a deunyddiau. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau a gwybodaeth wrth ddefnyddio data i werthuso canlyniadau eu gweithgaredd hybu iechyd. Yn y broses byddant yn dangos eu dealltwriaeth o nodau, amcanion a meini prawf gwerthuso.

## Band Marciau 2

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos dealltwriaeth sylfaenol iawn o werthuso. Byddant yn cynhyrchu adroddiad sy'n ddisgrifiadol ond sy'n amlinellu un prif ganlyniad i'r ymgyrch hybu iechyd yn unig. Dangosir dealltwriaeth sylfaenol iawn o un neu ddau o'r nodau ac amcanion a'r meini prawf gwerthuso. Ni cheir tystiolaeth o feddwl yn annibynnol. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o werthuso. Byddant yn cynhyrchu adroddiad sy'n ddisgrifiadol ond sy'n amlinellu un neu ddau brif ganlyniad i'r ymgyrch hybu iechyd yn unig. Dangosir dealltwriaeth sylfaenol o ddau neu dri o'r nodau ac amcanion a'r meini prawf gwerthuso. Prin yw'r dystiolaeth a geir o feddwl yn annibynnol. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir a manwl ar ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach y maent wedi ei chynnal, ar unrhyw faes sy'n berthnasol i lechyd a Gofal Cymdeithasol.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau wrth ddod o hyd i wybodaeth a gwneud dewis rhesymedig o gr p targed addas.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos sgiliau ymchwilio annibynnol a dangos eu bod wedi cyrchu gwybodaeth berthnasol. Tynnir gwybodaeth o ddwy neu dair ffynhonnell. Byddant yn esbonio eu dewis o gr p targed yn ddigonol. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos sgiliau ymchwilio annibynnol da a dangos eu bod wedi cyrchu gwybodaeth berthnasol. Tynnir gwybodaeth o dair ffynhonnell. Byddant yn esbonio eu dewis o gr p targed yn dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i greu cynllun am eu hymgyrch hybu iechyd sy'n dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fodelau a dulliau, nodau ac amcanion a dulliau a phrosesau gwerthuso hybu iechyd.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos y gallu i gynllunio eu hymgyrch hybu iechyd a dealltwriaeth foddhaol o ddau neu dri model neu ddull hybu iechyd. Datgenir dau neu dri nod, amcan a dull gwerthuso. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos gallu da o ran cynllunio eu hymgyrch hybu iechyd a dealltwriaeth dda o dri model neu ddull hybu iechyd. Datgenir tri nod, amcan a dull gwerthuso. Arweiniad cyfyngedig iawn sydd ei angen ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o fodelau a dulliau hybu iechyd ynghyd â'r broses werthuso trwy gynnal eu hymgyrch arfaethedig a dadansoddi eu canfyddiadau.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos gallu boddhaol i weithredu eu hymgyrch hybu iechyd gan gynhyrchu dadansoddiad wedi ei resymu sydd wedi ei seilio ar ddata digonol. Maent yn gallu dewis a defnyddio dau neu dri darn o ran cyfryngau a deunyddiau. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos gallu da i weithredu eu hymgyrch hybu iechyd gan gynhyrchu dadansoddiad sydd wedi ei seilio ar ddata digonol ac wedi ei resymu a'i seilio ar dystiolaeth. Maent yn gallu dewis a defnyddio tri darn o ran cyfryngau a deunyddiau. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau a gwybodaeth wrth ddefnyddio data i werthuso canlyniadau eu gweithgaredd hybu iechyd. Yn y broses byddant yn dangos eu dealltwriaeth o nodau, amcanion a meini prawf gwerthuso.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos dealltwriaeth foddhaol o werthuso. Byddant yn cynhyrchu adroddiad sy'n dangos dau o brif ganlyniadau'r ymgyrch hybu iechyd ac yn rhoi casgliadau rhesymedig. Dangosir dealltwriaeth foddhaol o ddau neu dri o'r nodau ac amcanion a'r meini prawf gwerthuso. Maent yn dangos lefel dda o feddwl yn annibynnol. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o werthuso. Byddant yn cynhyrchu adroddiad sy'n dangos dau neu dri o brif ganlyniadau'r ymgyrch hybu iechyd ac yn rhoi casgliadau sydd wedi eu rhesymu'n dda. Dangosir dealltwriaeth dda o dri o'r nodau ac amcanion a'r meini prawf gwerthuso. Maent yn dangos lefel uchel o feddwl yn annibynnol. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

### Band Marciau 3

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad clir, manwl a thrylwyr ar ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach y maent wedi ei chynnal, ar unrhyw faes sy'n berthnasol i Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau wrth ddod o hyd i wybodaeth a gwneud dewis rhesymedig o gr p targed addas.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos sgiliau ymchwilio annibynnol da iawn a dangos eu bod wedi cyrchu digonedd o wybodaeth a hynny'n wybodaeth berthnasol. Tynnir gwybodaeth o dair neu bedair ffynhonnell o fathau gwahanol. Byddant yn esbonio'r dewis o gr p targed yn dda ac yn rhoi sail resymegol am eu penderfyniad sydd wedi ei rhesymu'n dda. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos sgiliau ymchwilio annibynnol ardderchog a dangos eu bod wedi cyrchu digonedd o wybodaeth a hynny'n wybodaeth berthnasol. Tynnir gwybodaeth o bedair ffynhonnell o fathau gwahanol o leiaf. Byddant yn esbonio'r dewis o gr p targed yn dda iawn ac yn rhoi sail resymegol am eu penderfyniad sydd wedi ei rhesymu'n dda. Mae'r dysgwr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i greu cynllun am eu hymgyrch sy'n dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fodolau a dulliau, nodau ac amcanion a dulliau a phrosesau gwerthuso hybu iechyd.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos gallu ardderchog o ran cynllunio eu hymgyrch hybu iechyd a dealltwriaeth ardderchog o bedwar model neu ddull hybu iechyd o leiaf. Datgenir o leiaf bedwar nod, amcan a dull gwerthuso ac mae'r rhain wedi eu hesbonio'n dda iawn. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o fodolau a dulliau hybu iechyd ynghyd â'r broses werthuso trwy gynnal eu hymgyrch arfaethedig a dadansoddi eu canfyddiadau.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos lefel uchel o allu i weithredu eu hymgyrch hybu iechyd gan gynhyrchu dadansoddiad sydd wedi ei seilio ar ddata eang ac wedi ei resymu a'i seilio ar dystiolaeth gadarn. Maent yn gallu dewis a defnyddio tri neu bedwar darn o ran cyfryngau a deunyddiau. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos gallu ardderchog i weithredu eu hymgyrch hybu iechyd gan gynhyrchu dadansoddiad sydd wedi ei seilio ar ddata eang ac wedi ei resymu a'i seilio ar dystiolaeth gadarn. Maent yn gallu dewis a defnyddio o leiaf bedwar darn o ran cyfryngau a deunyddiau. Mae'r dysgwr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau a gwybodaeth wrth ddefnyddio data i werthuso canlyniadau eu gweithgaredd hybu iechyd. Yn y broses byddant yn dangos eu dealltwriaeth o nodau, amcanion a meini prawf gwerthuso.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth o werthuso. Byddant yn cynhyrchu adroddiad sy'n dangos tri neu bedwar o brif ganlyniadau'r ymgyrch hybu iechyd ac yn rhoi casgliadau sydd wedi eu rhesymu'n dda. Dangosir dealltwriaeth dda iawn o dri neu bedwar o'r nodau ac amcanion a'r meini prawf gwerthuso. Maent yn dangos lefel dda o feddwl yn annibynnol a menter. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o werthuso. Byddant yn cynhyrchu adroddiad sy'n dangos dau neu dri o brif ganlyniadau'r ymgyrch hybu iechyd ac yn rhoi casgliadau sydd wedi eu rhesymu'n dda. Dangosir dealltwriaeth dda o dri o'r nodau ac amcanion a'r meini prawf gwerthuso. Maent yn dangos lefel uchel o feddwl yn annibynnol. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

---

## Cyflwyno'r uned hon

Gweithgaredd ymarferol yw canolbwynt yr uned hon. Mae'n rhaid i ddysgwyr gynllunio, gweithredu a gwerthuso ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach.

Bydd angen i'r dysgwyr gael y cyfle i ddangos yr ystod o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd yn ofynnol yn yr uned hon. Golyga hyn fod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r amser sydd ar gael ar gyfer cyflwyno'r uned. Mae angen amser ar ddysgwyr i ddatblygu gwybodaeth gefndirol; i gynllunio a chynnal eu hymgyrch; ac i ddadansoddi, gwerthuso ac adrodd am y canlyniadau. Awgrymir bod dysgwyr yn cynnal eu hymgyrch a chasglu data dros gyfnod sydd heb fod yn fwy na 15 awr, fel bod digon o amser ar ôl ar gyfer y gwaith arall y mae angen iddynt ei wneud. Hefyd, awgrymir y dylid caniatáu tair awr yr wythnos (gan gynnwys gwaith cartref) i ddysgwyr gwblhau eu gwaith.

Dylid rhoi arweiniad manwl i ddysgwyr yngl n â dewis eu testun a grwpiau targed er mwyn osgoi dewisiadau all fod yn anodd gweithio arnynt, sy'n codi pryderon moesegol neu a all fod yn beryglus. Mae'n fuddiol i ddysgwyr edrych ar ymgyrchoedd sydd eisoes yn bodoli er mwyn hwyluso'r broses ymchwilio ac achos y gall roi data cymharol i wella dyfnder eu gwerthuso a'u hadrodd eu hunain.

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth ddigonol o fodelau o hybu iechyd er mwyn iddynt allu dethol modelau addas ar gyfer eu hymgyrch arfaethedig. Gallent ddefnyddio naill ai ddeunyddiau sydd eisoes yn bodoli neu ddatblygu eu deunyddiau eu hunain, i gasglu tystiolaeth i'r ymgyrch. Os nad ydynt yn datblygu eu deunyddiau eu hunain i gasglu tystiolaeth yna dylid gwneud hyn yn glir yn yr adroddiad gan nodi ffynhonnell y deunydd.

Dylai cymhwysiad y model(au) a ddewiswyd ganddynt ddangos dealltwriaeth o nodweddion y model sy'n cael ei ddefnyddio. Er enghraifft, os defnyddir model addysgol, dylai dysgwyr ddangos eu bod yn ceisio rhoi gwybodaeth fel y gall pobl wneud dewisiadau gwybodus gan mai dyma agwedd ar fodel addysgol o hybu iechyd.

Mae'n debyg y bydd angen cymorth ar ddysgwyr gwannach i gynllunio a chynnal eu hymgyrch ond mae'n bwysig y gallant gwblhau hyn fel y medrant gyrchu pob adran yn yr uned.

Mae angen i'r adroddiad a gyflwynir i'w asesu fod yn waith y dysgwyr eu hunain er ei bod yn bosibl iddynt gynnal eu gweithgaredd hybu fel rhan o gr p. Er na cheir fformat penodedig i'r adroddiad, mae'n rhaid iddo fod yn strwythuredig er mwyn cynnwys tystiolaeth ar y pedwar maes a restrir yn Adran tystiolaeth yr asesiad.

---

## Cysylltau

Unedau eraill	Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol Uned 6: Iechyd Cyhoeddus Uned 9: Ymchwilio i Glefydau
---------------	--

---

## Adnoddau

Gwerslyfrau	Butler J — <i>Principles of Health Education and Health Promotion, 3ydd Argraffiad</i> (Thomson Learning, 2000) ISBN 0534523749 Moonie N — <i>Advanced Health and Social Care, 3ydd Argraffiad</i> (Heinemann, 2000) ISBN 0435455893 Thompson H et al — <i>Health and Social Care I</i> (Hodder and Stoughton, 2001) ISBN 0340775475 Walsh M et al — <i>Health and Social Care for Intermediate GNVQ</i> (Collins, 2000) ISBN 0003291030
Gwefannau	Adran Iechyd <a href="http://www.doh.gov.uk">www.doh.gov.uk</a> Awdurdod Addysg Iechyd <a href="http://www.hea.org.uk">www.hea.org.uk</a> BBC <a href="http://www.bbc.co.uk">www.bbc.co.uk</a> Our Healthier Nation <a href="http://www.ohn.org.uk">www.ohn.org.uk</a> Peiriant chwilio <a href="http://www.google.co.uk">www.google.co.uk</a> Ystadegau'r Llywodraeth <a href="http://www.statistics.gov.uk">www.statistics.gov.uk</a>

---

## Uned 9: Ymchwilio i Glefydau

---

U2 uned orfodol

Asesir yn fewnol

---

### Cyflwyniad

Mae'r uned hon yn datblygu cysyniadau o iechyd a chlefyd a gyflwynwyd yn *Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol*. Byddwch yn dysgu am broses clefyd gan gynnal astudiaeth unigol o'r gwahanol agweddau ar ddau glefyd penodol. Bydd hyn yn cynnwys sail fiolegol clefydau, y ffyrdd y gellir gwneud diagnosis, y driniaeth sydd ar gael, y ffactorau all ddylanwadu ar ganlyniad y driniaeth, y strategaethau ar gyfer atal y clefyd rhag lledu neu ddigwydd yn y lle cyntaf a'r dulliau epidemiolegol ar gyfer tracio clefydau.

Bydd y dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn briodol i'r sefyllfa neu ddefnyddwyr y gwasanaethau rydych chi'n eu dewis i'r uned hon. Gellir tynnu hyn oddi wrth un o'r canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn yr adran Beth sydd angen i chi ei ddysgu ac fe'ch asesir ar eich gallu i'w ddethol a'i gymhwyso i'r cyd-destun yn y gweithle rydych chi wedi ei ddewis.

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

Uned 8: Hybu Iechyd a Lles

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

- 9.1 Iechyd a chlefyd: epidemioleg**
- Byddwch yn datblygu gwybodaeth o ystyr y termau 'iechyd' a 'chlefyd' a'r dulliau gwahanol o gategoreiddio clefydau.
- Mae'r rhain yn cynnwys clefydau:
- corfforol, seicolegol a chymdeithasol
  - trosglwyddadwy (*communicable*) ac anhrosglwyddadwy (*non-communicable*).
- Fe ddewch i ddeall pwysigrwydd astudio clefydau mewn poblogaethau dynol (epidemioleg) ar gyfer atal clefydau. Bydd hyn yn cynnwys dulliau casglu data a defnyddio data.
- 9.2 Gwahaniaethau rhwng clefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy**
- Byddwch yn dysgu am y gwahaniaethau rhwng clefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy.
- Mae clefydau trosglwyddadwy yn heintus ac fel arfer yn cael eu creu gan ficro-organebau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- firysau (h.y. y ffliw)
  - bacteria (h.y. y ddarfodedigaeth)
  - ffyngau (h.y. tarwden y traed)
  - Protosoa (h.y. malaria).
- O ran clefydau trosglwyddadwy:
- nid oes angen cefnogaeth a thriniaeth tymor hir bob tro
  - gallant ddigwydd ar unrhyw oedran er gall effaith y clefyd amrywio ym mhob cyfnod bywyd
  - maent yn cael eu trosglwyddo mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol.
- Nid yw clefydau anhrosglwyddadwy yn heintus ac maent yn cynnwys amrywiaeth o wahanol fathau ar glefydau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- clefydau dirywiol (h.y. arthritis)
  - clefydau diffyg (h.y. y llwg (*scurvy*) – diffyg fitamin C)
  - clefydau a gysylltir â dull o fyw neu'r amgylchedd (h.y. canser yr ysgyfaint – ysmegu)
  - clefydau etifeddol (h.y. ffibrosis y bledren).
- O ran clefydau anhrosglwyddadwy:
- mae angen cefnogaeth a thriniaeth tymor hir fel arfer
  - maent yn aml yn cael eu cysylltu â gwahanol gyfnodau bywyd.

**9.3**    **Diagnosis, triniaeth a chynnal cefnogaeth gyda chlefyd**

Byddwch yn gwybod bod diagnosis wedi ei seilio ar arwyddion a symptomau ac fe all gael ei ategu gan archwiliadau clinigol a/neu labordy.

Dylech ddeall y gellir ymgymryd â diagnosis a thriniaeth clefyd:

- gan yr unigolyn
- mewn practis iechyd lleol
- mewn ysbyty lleol
- mewn canolfan genedlaethol arbenigol.

Ar ben hynny, byddwch yn dysgu am gyfleusterau i gefnogi unigolion â chlefyd. Gallai'r rhain gynnwys:

- elusennau a grwpiau cefnogi
- clinigau
- gofal cartref.

Dylech ddeall y gall fod ffactorau sy'n effeithio ar y gefnogaeth, archwiliadau a chynlluniau triniaeth sydd ar gael ar gyfer clefyd. Gallai'r rhain gynnwys:

- hunan-ddiagnosis a thriniaeth
- cost moddion a defnyddiau traul eraill
- y staff arbenigol sydd ar gael
- yr angen am gyfarpar arbenigol.

**9.4**    **Strategaethau ar gyfer atal clefydau**

Dylech ddeall y strategaethau all gael eu defnyddio i leihau'r risg o ddatblygu clefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- strategaethau cenedlaethol, e.e. gwybodaeth/ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus fel hylendid, diet a gwrth-ysmygu
- strategaethau lleol, e.e. llyfrynnau gwybodaeth iechyd, clinigau merched iach a dynion iach, dosbarthiadau ymarfer corff.
- dewisiadau dull o fyw personol, e.e. hylendid personol, diet, ymarfer, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad mentrus.

Dylech ddeall y gall fod ffactorau sy'n ymyrryd ag atal a rheoli clefydau rhag lledu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- canfyddiad cyhoeddus o'r perygl a all gael ei ddylanwadu gan grwpiau fel y cyfryngau ac elusennau
  - cytundeb claf-meddyg
  - cydymffurfriad y claf
  - gwrthiant gwrthfotig (*antibiotic resistance*)
  - y cyllid sydd ar gael.
-



## Tystiolaeth asesu

Fel arfer bydd y dystiolaeth asesu yn cynnwys cymhariaeth o ddau glefyd. Mae'n rhaid i un fod yn glefyd trosglwyddadwy ac un yn glefyd anhrosglwyddadwy. Dylech ddewis pâr o glefydau i seilio eich adroddiad arnynt a chytuno ar y rhain gyda'ch tiwtor. Gallai dysgwyr ddewis astudio'r un clefyd trosglwyddadwy (neu anhrosglwyddadwy) â'i gilydd ond dylai eu gwaith fod yn amlwg yn unigol. Yna dylent astudio clefyd anhrosglwyddadwy (neu drosglwyddadwy) gwahanol i'w gilydd.

Mae'n rhaid i'ch gwaith ddangos tystiolaeth o'r canlynol ar gyfer y clefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy sy'n cael eu hastudio gan roi cymhariaeth o'r ddau glefyd:

- a crynodeb byr o sail fiolegol y clefyd ac ymateb y corff iddo
- b gwybodaeth am achosion a dosbarthiad y clefyd
- c dadansoddiad o'r gefnogaeth a'r cyfleusterau ar gyfer diagnosis a thriniaeth sydd ar gael yn eich ardal gan gynnwys ffactorau all effeithio ar argaeledd a chanlyniad y triniaethau
- ch gwerthusiad o'r strategaethau ar gyfer atal y clefyd a ffactorau allai effeithio arnynt.

Gellid tynnu'r dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer yr uned hon oddi wrth glefydau sy'n effeithio ar bobl ar unrhyw gyfnod bywyd. Gallech ddewis ymchwilio i ddau glefyd sy fel arfer yn effeithio ar bobl yn yr un cyfnod bywyd neu ddau glefyd sy fel arfer yn effeithio ar bobl mewn cyfnodau bywyd gwahanol. Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys a nodir yn *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* a gwneud yn siŵr eich bod yn dewis un clefyd trosglwyddadwy ac un clefyd anhrosglwyddadwy.

Pan fyddwch yn cynnal cyfweiliadau neu weithgareddau gyda chleientiaid fel rhan o'ch gwaith a asesir yn fewnol mae'n hanfodol i chi gael cydsyniad y cleient a chynnal cyfrinachedd llawn trwy'r amser.

---

## Meini prawf asesu

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(a) (AA1)	<p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn dangos peth gwybodaeth ac yn disgrifio'n fyr glefyd trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy cynrychiadol.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn dangos o leiaf un o arwyddion a symptomau gwahanol y clefyd gan ddisgrifio sut mae'r corff yn ymateb i'r clefyd.</p> <p>Nid yw'r adroddiad yn gywir bob amser ac yn anaml mae'r dysgwr yn esbonio ei g/waith yn llawn.</p> <p>Ceir peth anghywirdeb a bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(0-7)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos lefel gywir o wybodaeth a disgrifiad clir o glefyd trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy cynrychiadol.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn disgrifio sail fiolegol y clefyd, sut mae'r corff yn ymateb i'r clefyd a sut mae o leiaf ddau o'r arwyddion a symptomau gwahanol yn cael eu cynhyrchu.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwyr bob amser yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p>Prin yw'r anghywirdeb a'r bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(8-10)</p>	<p>Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a disgrifiad manwl o glefyd trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy cynrychiadol.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn disgrifio sail fiolegol y clefyd, sut mae'r corff yn ymateb i'r clefyd a sut mae o leiaf dri o'r arwyddion a symptomau gwahanol yn cael eu cynhyrchu a'u harddangos. Byddant yn cysylltu'r newidiadau yn sgil y clefyd â'r dulliau a ddefnyddir ar gyfer gwneud diagnosis a gwahaniaethu rhwng y clefydau hyn.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ac mae'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p>Ni cheir unrhyw anghywirdeb na bylchau sylweddol.</p> <p style="text-align: right;">(11-13)</p>	13

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(b) (AA2)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos y gallu i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ond nid yw hyn yn cael ei gysylltu'n uniongyrchol â chyd-destun y clefydau a ddewiswyd. Bydd adroddiad y dysgwyr yn nodi o leiaf un o'r ffactorau sy'n effeithio ar achos a dosbarthiad y clefyd.</p> <p>Mae'n debyg y bydd peth defnydd o eirfa arbenigol ond bydd hyn yn gyfyngedig. Nid yw'r adroddiad yn gywir bob tro ac nid yw'r dysgwyr yn dangos eu bod yn cymhwyso gwybodaeth yn aml.</p> <p>(0-7)</p>	<p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn nodi o leiaf ddau o'r ffactorau sy'n effeithio ar achos a dosbarthiad y clefyd a bydd yn cymharu'r ffactorau hyn ar gyfer y ddau glefyd. Byddant yn rhoi enghreifftiau ac esboniadau o'r ffactorau hyn.</p> <p>Ceir defnydd da o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwr yn cymhwyso gwybodaeth yn llawn.</p> <p>(8-10)</p>	<p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn nodi ac yn adolygu o leiaf dri o'r ffactorau allai effeithio ar ddsbarthiad y clefyd. Bydd y dysgwyr yn dangos y gallu i gymharu a chyferbynnu'r clefyd trosglwyddadwy a'r un anhrosglwyddadwy.</p> <p>Ceir defnydd helaeth o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir a'r dysgwr yn cymhwyso gwybodaeth yn llawn.</p> <p>(11-13)</p>	13

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(c) (AA3)	<p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn nodi o leiaf un dull o sut y gwneir diagnosis o'r clefydau a'r driniaeth amdanynt, gan ddisgrifio'r ffactorau sy'n effeithio ar y ddarpariaeth hon.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn rhestru rhai o'r ffactorau allai effeithio ar ganlyniad y triniaethau ac yn disgrifio swyddogaeth cefnogaeth broffesiynol neu wirfoddol lle bo'n briodol.</p> <p>Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig ac nid yw bob amser yn berthnasol. Prin yw'r dadansoddi o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>Ceir crynodebau yn hytrach na chasgliadau.</p> <p style="text-align: right;">(0-8)</p>	<p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn esbonio o leiaf ddau ddull o sut y gwneir diagnosis o'r clefydau a'u gwahaniaethu oddi wrth glefydau ag arwyddion neu symptomau tebyg. Byddant yn disgrifio sut mae'r clefydau yn cael eu trin gan esbonio'r gwahaniaethau yn y ddarpariaeth ar gyfer y ddau glefyd a astudiwyd.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn disgrifio'r ffactorau all effeithio ar ganlyniad y triniaethau. Byddant yn archwilio swyddogaeth cefnogaeth broffesiynol neu wirfoddol lle bo'n briodol.</p> <p>Tynnir yr wybodaeth oddi wrth nifer o ffynonellau ac mae'n berthnasol ac yn ddigonol. Gwneir cysylltau perthnasol â materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>Ceir casgliadau sy'n glir a rhesymedig.</p> <p style="text-align: right;">(9-13)</p>	<p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn archwilio ac yn esbonio o leiaf dri o'r ffactorau all effeithio ar ganlyniad y triniaethau ar gyfer y ddau glefyd. Maent yn cymharu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r sawl sy'n dioddef o'r clefydau a ddewiswyd â'r hyn sydd ar gael ar gyfer clefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy eraill.</p> <p>Byddant yn cymharu'r triniaethau sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol ac yn archwilio a darparu rhesymau cyfiawnadwy am y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth ar gyfer y ddau glefyd a astudiwyd.</p> <p>Tynnir yr wybodaeth oddi wrth nifer o ffynonellau o fathau gwahanol ac mae'n berthnasol ac yn gynhwysfawr. Gwneir llawer o gysylltau perthnasol â materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>Llunnir casgliadau dilys o'r dystiolaeth a gyflwynir.</p> <p style="text-align: right;">(14-17)</p>	17

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(ch) (AA4)	<p>Bydd adroddiad y dysgwyr yn dangos lefel sylfaenol o sgiliau gwerthuso. Byddant yn gwerthuso'r strategaethau ar gyfer atal y clefydau gan roi o leiaf un o'r rhesymau pam nad yw'r rhain bob amser yn llwyddo.</p> <p>Prin yw'r awgrymiadau am sut mae'r materion a nodwyd yn effeithio ar yr atal, cefnogaeth a thriniaeth sydd ar gael.</p> <p>Mae'r lefel o feddwl yn annibynnol yn gyfyngedig.</p> <p style="text-align: right;">(0-8)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso da. Byddant yn gwerthuso'r strategaethau ar gyfer atal y clefyd a chyfyngiadau'r rhain, gan roi o leiaf ddau o'r rhesymau pam nad yw'r rhain bob amser yn llwyddo.</p> <p>Ceir rhywfaint o awgrymiadau am sut mae'r materion a nodwyd yn effeithio ar yr atal, cefnogaeth a thriniaeth sydd ar gael.</p> <p>Ceir tystiolaeth o beth meddwl annibynnol a menter.</p> <p style="text-align: right;">(9-12)</p>	<p>Mae'r dysgwr yn dangos sgiliau gwerthuso ardderchog. Byddant yn gwerthuso'r strategaethau ar gyfer atal y clefydau. Byddant yn archwilio ac yn esbonio o leiaf dri o'r rhesymau pam nad yw'r rhain bob amser yn llwyddo cymaint ag y gallent.</p> <p>Ceir awgrymiadau da am sut mae'r materion a nodwyd yn effeithio ar yr atal, cefnogaeth a thriniaeth sydd ar gael.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o feddwl annibynnol a menter.</p> <p style="text-align: right;">(13-17)</p>	17
<b>Cyfanswm y marciau</b>				<b>60</b>

Gweler Atodiad CH: Disgrifiadau Perfformiad am ddisgrifiadau'r AA

## Canllaw asesu

### Band Marciau 1

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad am gymhariaeth a wnaethpwyd rhwng clefyd trosglwyddadwy a chlefyd anhrosglwyddadwy (a ddewiswyd er mwyn galluogi iddynt roi'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddiwallu meini prawf yr asesiad).

Mae natur yr uned yn golygu bod modd casglu cryn dipyn o wybodaeth am y clefydau a ddewiswyd oddi wrth destunau a thrwy'r we. Mae'r hel gwybodaeth yma yn ddefnyddiol fel cefndir (os caiff ei dyfynnu mae'n rhaid ei phriodoli) ond nid ar gyfer yr asesu.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o achosion, dosbarthiad, diagnosis, triniaeth ac atal y clefydau. Ar ben hynny, dylent ymchwilio i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y driniaeth, atal a chefnogaeth sydd ar gael. Bydd y rhain yn cynnwys y ffactorau sy'n dylanwadu ar y gefnogaeth a'r driniaeth sydd ar gael i bobl yn eu hardal. Dylai fod peth annibyniaeth yn natur yr wybodaeth a gesglir i ategu'r dystiolaeth e.e. tystiolaeth tyst ac ni ddylai gael ei chyfyngu i dystiolaeth y dysgwyr eu hunain.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos, â thystiolaeth, allu cyfyngedig iawn i ddisgrifio'r clefydau y maent wedi eu dewis. Byddant yn rhoi un ffaith am arwyddion a symptomau pob clefyd a rhoi un ffaith am sut mae'r corff yn ymateb i'r clefydau. Yn aml, mae'r wybodaeth yn anghywir a heb ei hesbonio. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr iddynt gwblhau eu gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos, â thystiolaeth, allu cyfyngedig i ddisgrifio'r clefydau y maent wedi eu dewis. Byddant yn rhoi un neu ddwy ffaith am arwyddion a symptomau pob clefyd a rhoi un neu ddwy ffaith am sut mae'r corff yn ymateb i'r clefydau. Yn aml, mae'r wybodaeth yn anghywir ac nid yw'n cael ei hesbonio. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr iddynt gwblhau eu gwaith.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos y gallu i gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, yn gywir, trwy'r gallu i ddethol a chrynhof gwybodaeth yn eu geiriau eu hunain. Mae'n bosibl na fydd yr wybodaeth bob amser wedi ei chysylltu'n benodol â'r cyd-destun iechyd ei hun.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos gallu sylfaenol iawn o ran cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn gywir. Byddant yn nodi un ffactor sy'n effeithio ar achos a dosbarthiad y clefyd. Mae defnydd cyfyngedig iawn o eirfa arbenigol yn eu hadroddiad ac nid yw'r adroddiad yn gywir yn aml. Nid yw'r dysgwyr yn cynnig esboniadau ac mae angen cryn arweiniad i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos gallu sylfaenol o ran cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn gywir. Byddant yn nodi dau ffactor sy'n effeithio ar achos a dosbarthiad y clefydau. Mae defnydd cyfyngedig o eirfa arbenigol yn eu hadroddiad ac mae'r adroddiad yn anghywir yn aml. Nid yw'r dysgwyr yn cynnig esboniadau ac mae angen peth arweiniad arnynt i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Bydd dysgwyr yn defnyddio ystod gyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth ac yn mynd ati i chwilio am wybodaeth. Ychydig o sgiliau a ddangosir wrth ddod o hyd i wybodaeth fydd yn gyfyngedig a heb fod yn berthnasol bob tro. Ychydig o ddadansoddi materion a phroblemau a geir gan gynnig crynodebau yn hytrach na chasgliadau.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn nodi un ffordd y gellir adnabod y clefyd ac un ffactor fydd yn effeithio ar y driniaeth ohono. Byddant yn disgrifio'n fyr swyddogaeth un gweithiwr proffesiynol. Daw eu gwybodaeth oddi wrth un ffynhonnell yn unig ac yn aml iawn, nid yw'n berthnasol. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn nodi dwy ffordd y gellir adnabod y clefyd a dau ffactor fydd yn effeithio ar ganlyniad y driniaeth ohono. Byddant yn disgrifio'n fyr swyddogaeth un gweithiwr proffesiynol neu wirfoddol. Daw eu gwybodaeth oddi wrth un neu ddwy ffynhonnell ac nid yw bob amser yn berthnasol. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i werthuso tystiolaeth gan ddisgrifio pwyntiau da a drwg o ran y gymhariaeth.

Ar ben isaf y band marciau, bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso sylfaenol iawn a byddant yn rhoi un rheswm pam nad yw bob amser yn llwyddo. Nid ydynt yn awgrymu sut mae'r mater yn effeithio ar atal, cefnogaeth a thriniaeth. Nid oes tystiolaeth o feddwl yn annibynnol. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso sylfaenol a byddant yn rhoi dau reswm pam nad yw bob amser yn llwyddo. Maent yn awgrymu'n gryno sut mae'r materion hyn yn effeithio ar atal, cefnogaeth a thriniaeth ond nid yw hynny wedi ei esbonio'n llawn. Ceir tystiolaeth gyfyngedig o feddwl yn annibynnol. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

## Band Marciau 2

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad am gymhariaeth glir a manwl a wnaethpwyd rhwng clefyd trosglwyddadwy a chlefyd anhrosglwyddadwy, mewn cyd-destun a ddewiswyd a ddylai gael ei ddethol i ddiwallu meini prawf yr asesiad.

Mae natur yr uned yn golygu bod modd casglu cryn dipyn o wybodaeth am y clefydau a ddewiswyd oddi wrth destunau a thrwy'r we. Mae'r hel gwybodaeth yma yn ddefnyddiol fel cefndir (os caiff ei dyfynnu mae'n rhaid ei phriodoli) ond nid ar gyfer yr asesu.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos, y tu hwnt i'r lefel sylfaenol, wybodaeth a dealltwriaeth o natur clefydau a'r modd y mae cymdeithas yn ymdrin â nhw. Dylai dysgwyr ddangos, â thystiolaeth, ystod o enghreifftiau y tu hwnt i lefel sylfaenol. Dylai tystiolaeth gynnwys nid yn unig ddisgrifiad cywir o'r clefyd, ei driniaeth a'r hyn sy'n ei achosi a'i ledi ond hefyd y ffactorau sy'n effeithio ar y rhain ac atal y clefyd. Dylai fod annibyniaeth yn natur y dystiolaeth, e.e. tystiolaeth tyst a dylid dod o hyd i dystiolaeth oddi wrth fwy nag un ffynhonnell.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos, â thystiolaeth, allu boddhaol i ddisgrifio'r clefydau y maent wedi eu dewis. Byddant yn rhoi dwy neu dair ffaith am arwyddion a symptomau pob clefyd a rhoi dwy neu dair ffaith am sut mae'r corff yn ymateb i'r clefydau. Mae'r wybodaeth wedi ei thynnu oddi wrth ddwy neu dair ffynhonnell ac mae'n berthnasol. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr iddynt gwblhau eu gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos, â thystiolaeth, allu da i ddisgrifio'r clefydau y maent wedi eu dewis. Byddant yn rhoi tair ffaith am arwyddion a symptomau pob clefyd a thair ffaith am sut mae'r corff yn ymateb i'r clefydau. Mae'r wybodaeth wedi ei thynnu oddi wrth dair ffynhonnell ac mae'n berthnasol ac yn ddigonol. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr iddynt gwblhau eu gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos y gallu i gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, yn gywir, trwy'r gallu i gymharu pryd mae'r clefyd a ddewiswyd yn digwydd a sut mae'n cael ei archwilio, ei drin a'i gefnogi.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos gallu boddhaol o ran cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn gywir. Byddant yn nodi dau neu dri ffactor sy'n effeithio ar achos a dosbarthiad y clefydau. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ond nid mor aml â phosibl. Mae'n gywir ond heb gael ei esbonio'n dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos gallu boddhaol o ran cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn gywir. Byddant yn nodi tri ffactor sy'n effeithio ar achos a dosbarthiad y clefydau. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir trwy'r rhan fwyaf o'r adroddiad. Mae'n gywir â pheth esboniad ond heb ei esbonio'n llawn. Ychydig iawn o arweiniad sydd ei angen ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Bydd dysgwyr yn dangos sgiliau o ran dod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio nifer o ffynonellau. Mae'r wybodaeth yn ddigonol ac yn berthnasol ar y cyfan. Cyflwynir cysylltiadau â materion cysylltiedig mewn clefydau a phroblemau tebyg. Bydd dysgwyr yn gallu gwneud cymariaethau dilys rhwng y materion a godir gan y ddau glefyd a ddewiswyd a chlefydau cyffelyb.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn nodi dwy neu dair ffordd y gellir adnabod y clefyd a dau neu dri ffactor fydd yn effeithio ar ganlyniad y driniaeth ohono. Byddant yn disgrifio'n fyr swyddogaeth dau weithiwr proffesiynol neu wirfoddol. Daw eu gwybodaeth oddi wrth dair ffynhonnell ac mae'n berthnasol. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn nodi tair ffordd y gellir adnabod y clefydau a thri ffactor fydd yn effeithio ar ganlyniad y driniaeth ohonynt. Byddant yn disgrifio'n fyr swyddogaeth tri gweithiwr proffesiynol neu wirfoddol. Daw eu gwybodaeth oddi wrth dair ffynhonnell ac mae'n berthnasol ac yn ddigonol. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i werthuso tystiolaeth gan awgrymu sut mae unrhyw faterion a nodwyd yn effeithio ar yr atal, cefnogaeth a thriniaeth sydd ar gael. Ceir peth tystiolaeth o feddwl yn annibynnol a menter.



Ar ben isaf y band marciau, bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso boddhaol a byddant yn rhoi dau neu dri rheswm pam nad yw bob amser yn llwyddo. Maent yn awgrymu'n fyr sut mae'r materion hyn yn effeithio ar atal, cefnogaeth a thriniaeth ac mae hynny wedi ei esbonio'n dda. Mae'r dysgwyr yn dangos peth gallu i feddwl yn annibynnol a menter er nad yw'r rhain bob amser yn gywir. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso da a byddant yn rhoi tri rheswm pam nad yw bob amser yn llwyddo. Maent yn rhoi rhai awgrymiadau am sut mae'r materion hyn yn effeithio ar atal, cefnogaeth a thriniaeth ac mae hynny wedi ei esbonio'n dda. Mae'r dysgwyr yn dangos peth gallu i feddwl yn annibynnol a menter a dangosir hyn yn y casgliadau wedi eu seilio ar dystiolaeth a esbonnir yn glir. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

(Gw. *Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.*)

### Band Marciau 3

Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad am gymhariaeth glir, fanwl a thrylwyr a wnaethpwyd rhwng clefyd trosglwyddadwy a chlefyd anhrosglwyddadwy a'r materion a godir yn eu gwaith, mewn cyd-destun a ddewiswyd a ddylai gael ei ddedhol i ddiwallu meini prawf yr asesiad. Dylid trefnu'r wybodaeth yn briodol ac mewn dull effeithlon heb unrhyw fylchau nag anghywirdeb sylweddol.

Mae natur yr uned yn golygu bod modd casglu cryn dipyn o wybodaeth am y clefydau a ddewiswyd oddi wrth destunau a thrwy'r we. Mae'r hel gwybodaeth yma yn ddefnyddiol fel cefndir (os caiff ei dyfynnu mae'n rhaid ei phriodoli) ond nid ar gyfer yr asesu.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o oblygiadau'r clefydau a ddewiswyd mewn cymdeithas. Bydd yr adroddiad yn fanwl a bydd yn dangos trylwyredd gwybodaeth a dealltwriaeth yn ogystal â defnydd helaeth o eirfa arbenigol.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos, â thystiolaeth, lefel uchel o allu i ddisgrifio'r clefydau y maent wedi eu dewis. Byddant yn rhoi tair neu bedair ffaith am arwyddion a symptomau pob clefyd ac yn rhoi tair neu bedair ffaith am sut mae'r corff yn ymateb i'r clefydau. Mae'r wybodaeth wedi ei thynnu oddi wrth bedair ffynhonnell ac mae bob amser yn berthnasol ac yn ddigonol. Mae'n gywir ac wedi ei hesbonio'n dda ar y cyfan. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos, â thystiolaeth, allu ardderchog i ddisgrifio'r clefydau y maent wedi eu dewis. Byddant yn rhoi o leiaf bedair ffaith am arwyddion a symptomau pob clefyd ac yn rhoi o leiaf bedair ffaith am sut mae'r corff yn ymateb i'r clefydau. Mae'r wybodaeth wedi ei thynnu oddi wrth o leiaf bedair ffynhonnell ac mae bob amser yn berthnasol ac yn ddigonol. Mae'n gywir ac wedi ei esbonio'n dda iawn. Mae'r dysgwr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos y gallu i gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, yn gywir ac yn annibynnol, trwy'r gallu i esbonio sut mae cymdeithas yn ymdrin â'r clefydau gan gymharu'r canlyniadau â chlefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy eraill.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos lefel uchel o allu o ran cymhwysu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn gywir. Byddant yn nodi tri neu bedwar ffactor sy'n effeithio ar achos a dosbarthiad y clefydau. Bydd y dysgwyr yn cymharu ac yn cyferbynnu'r ddau glefyd, gan nodi a rhestru gwahaniaethau a nodweddion sy'n debyg. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mron pob sefyllfa. Mae'n gywir ac fel arfer wedi ei esbonio'n dda. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos gallu ardderchog o ran cymhwysu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn gywir. Byddant yn nodi ac yn adolygu o leiaf bedwar ffactor sy'n effeithio ar achos a dosbarthiad y clefydau. Bydd y dysgwyr yn cymharu ac yn cyferbynnu'r ddau glefyd, gan nodi a thrafod gwahaniaethau a nodweddion sy'n debyg. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mhob sefyllfa. Mae'n gywir ac wedi ei esbonio'n dda iawn. Mae'r dysgwr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Bydd dysgwyr yn dangos, â thystiolaeth, ystod o sgiliau chwilio am wybodaeth ar lefel uchel ac yn dyfeisio a chynllunio eu dulliau eu hunain o ran dod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth, defnyddio technegau priodol ac ystod eang o ffynonellau gwybodaeth. Dylai tystiolaeth gynnwys dewis enghreifftiau perthnasol i ategu casgliadau dilys a llunio barn sydd wedi ei rhesymu'n dda ar sail y dystiolaeth a gyflwynir.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn nodi ac yn ymchwilio i dair neu bedair ffordd y gellir adnabod y clefydau a thri neu bedwar ffactor fydd yn effeithio ar ganlyniad y driniaeth ohonynt. Byddant yn cymharu'r gefnogaeth a roddir gan ddau weithiwr proffesiynol neu wirfoddol am y clefydau a ddewison nhw ynghyd â chlefydau eraill. Ar ben hynny, byddant yn cymharu'r gefnogaeth a roddir am y clefydau mewn dwy ardal wahanol, yn lleol neu'n genedlaethol, gan esbonio dau o'r gwahaniaethau. Daw eu gwybodaeth oddi wrth dair ffynhonnell o fathau gwahanol ac mae'n berthnasol ac yn gynhwysfawr. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn ymchwilio ac yn esbonio o leiaf bedair ffordd y gellir adnabod y clefydau ac o leiaf bedwar ffactor fydd yn effeithio ar ganlyniad y driniaeth ohonynt. Byddant yn cymharu'r gefnogaeth a roddir gan o leiaf ddau weithiwr proffesiynol neu wirfoddol am y clefydau a ddewison nhw ynghyd â chlefydau eraill. Ar ben hynny, byddant yn cymharu'r gefnogaeth a roddir am y clefydau mewn tair ardal wahanol, yn lleol neu'n genedlaethol, gan esbonio tri o'r gwahaniaethau a rhoi rhesymau am y gwahaniaethau ynghyd â'u cyfiawnhau. Daw eu gwybodaeth oddi wrth o leiaf bedair ffynhonnell o fathau gwahanol ac mae'n berthnasol ac yn gynhwysfawr. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddadansoddi a gwerthuso tystiolaeth gan awgrymu sut mae unrhyw faterion a nodwyd yn effeithio ar yr atal, cefnogaeth a thriniaeth sydd ar gael ynghyd â dangos lefel uchel o feddwl yn annibynnol a menter.

Ar ben isaf y band marciau, bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso da iawn a byddant yn rhoi tri neu bedwar rheswm pam nad yw bob amser yn llwyddo. Maent yn rhoi awgrymiadau da am sut mae'r materion hyn yn effeithio ar atal, cefnogaeth a thriniaeth ac mae hynny wedi ei esbonio'n dda. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel dda o feddwl yn annibynnol a menter. Dim ond weithiau mae angen cymorth arnynt i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso ardderchog a byddant yn rhoi pedwar rheswm pam nad yw bob amser yn llwyddo. Maent yn rhoi awgrymiadau da am sut mae'r materion hyn yn effeithio ar atal, cefnogaeth a thriniaeth ac mae hynny wedi ei esbonio'n dda iawn. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o feddwl yn annibynnol a menter. Dim ond weithiau mae angen cymorth arnynt i gwblhau'r gwaith. Mae'r dysgwr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

(Gw. *Defnyddio'r Bandiau Marciau* yn yr adran *Gwybodaeth asesu*.)

---

## Cyflwyno'r uned hon

Trwy'r holl raglen yma, mae'r unedau a asesir yn fewnol yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr gysylltu eu gwaith â sefyllfa gofal benodol: gallai hon fod ar gyfer naill ai bobl h'n, unigolion ag anghenion penodol, y rhai sy'n sâl neu blant ifanc. Yn aml iawn, cysylltir clefydau anhrosglwyddadwy â chyfnodau bywyd gwahanol ac mae hyd yn oed rhai o'r clefydau trosglwyddadwy yn arbennig o berthnasol i wahanol gyfnodau.

Er bod sail ddamcaniaethol gref i'r uned hon, bydd angen i ddysgwyr gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ddiwallu'r anghenion o ran tystiolaeth; bydd angen iddynt arfer dull ymchwiliadol i bennu pa gyfleusterau sydd ar gael yn lleol a darganfod sut mae'r rhain yn cael eu cysylltu ag unrhyw ddarpariaeth genedlaethol.

Fel arfer, bydd angen rhoi arweiniad i ddysgwyr o ran y clefydau a ddewisir i seilio'r adroddiad arnynt. Beth bynnag, dylai'r clefyd trosglwyddadwy gael ei gyfyngu i haint bacteriol neu firaol. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws rhoi tystiolaeth am ymateb y corff a thrafod materion fel imiwneiddio a gwrthfotigau. Nid nod yr uned hon yw cynhyrchu traethawd gwyddonol ar glefyd yn unig. Y nod yw edrych yn fwy cyffredinol ar y ffactorau sy'n effeithio ar glefyd yn lledu, ymateb cymdeithas i hynny a sut mae pobl yn ymateb i driniaeth a mentrau iechyd.

---

## Cysylltau

### Unedau eraill

Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

Uned 8: Hybu Iechyd a Lles

---

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Gray — *World Health and Disease, 3ydd Argraffiad* (McGraw-Hill, 2001)  
ISBN 033520838X

Thompson H et al — *Further Studies for Health* (Hodder and Stoughton, 2000) ISBN 0340620552

Thompson H at al — *Health and Social Care* (Hodder and Stoughton, 2001)  
ISBN 0340775475

### Gwefannau

Adran Iechyd [www.doh.gov.uk](http://www.doh.gov.uk)

Awdurdod Addysg Iechyd [www.hea.org.uk](http://www.hea.org.uk)

BBC [www.bbc.co.uk](http://www.bbc.co.uk)

Ein Gwlad Iachach [www.ohn.org.uk](http://www.ohn.org.uk)

Peiriant Chwilio [www.google.co.uk](http://www.google.co.uk)

Ystadegau'r Llywodraeth [www.statistics.gov.uk](http://www.statistics.gov.uk)

---



## Uned 10: Defnyddio a Deall Ymchwil

---

U2 uned orfodol

Asesir yn fewnol

---

### Cyflwyniad

Bydd yr uned hon yn datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddulliau ymchwil a'r broses ymchwilio.

Mae ymwybyddiaeth am ymchwil yn fwyfwy pwysig ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol gan fod ymarfer gofal wedi ei seilio o dystiolaeth wedi dod i'r amlwg. Erbyn hyn, mae ymchwil yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu a gwella polisiau iechyd a gofal cymdeithasol, darparu gwasanaethau ac ymyriadau gofal. Mae cyflawni prosiect ymchwil bach yn ffordd ymarferol o ddatblygu ymwybyddiaeth am ymchwil a sgiliau ymchwil sylfaenol.

Bydd y dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn briodol i'r sefyllfa neu ddefnyddwyr y gwasanaethau a ddewisir i'r uned hon. Gellir tynnu hyn oddi wrth y canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn yr adran *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* ac fe'ch asesir ar eich gallu i'w ddethol a'i gymhwyso i'r cyd-destun yn y gweithle rydych chi wedi ei ddewis.

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

- 10.1 Nodau ymchwil mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r defnydd ohono**
- Dylech ddeall y swyddogaeth sydd gan ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Dylech wybod sut y gellir defnyddio astudiaethau ymchwil i:
- ymchwilio i sefyllfaoedd a phroblemau newydd sy'n ymwneud â gofal
  - profi ac adolygu gwybodaeth, triniaethau ac arferion sydd eisoes yn bodoli
  - esbonio'r berthynas rhwng ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles
  - gwerthuso ymyriadau gwasanaeth a pholisiau.
- Dylech wybod sut mae canfyddiadau ymchwil yn effeithio ar waith ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Dylech ddeall sut:
- mae data epidemiolegol a chyfrifiad yn cael eu defnyddio wrth wneud polisi a chynllunio gwasanaethau
  - mae canfyddiadau ymchwil arbrofol yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu a phrofi ymyriadau meddygol ac ymyriadau triniaeth eraill
  - mae canfyddiadau ymchwil arolwg a chyfweliad yn cael eu defnyddio i asesu boddhad defnyddwyr gwasanaethau o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol a chenedlaethol.
- 10.2 Dulliau ymchwil**
- Mae ymchwilwyr yn defnyddio amrywiaeth o wahanol dulliau ymchwil i ymchwilio i faes iechyd a gofal cymdeithasol. Dylech ddeall swyddogaeth:
- ymchwil meintiol, ansoddol, cynradd ac eilaidd
  - holiaduron, cyfweliadau, arbrofion a dulliau arsylwadol o gasglu data
  - dulliau samplu a dethol achosion gwahanol.
- Ar ben hynny, dylech ddangos dealltwriaeth o:
- gryfderau a gwendidau methodolegau ymchwil
  - pwysigrwydd dibynadwyaeth, dilysrwydd a moeseg mewn astudiaethau ymchwil.
- Dylech ddeall pam mae'n bwysig cynllunio a dilyn proses ymchwilio wrth gyflawni astudiaeth ymchwil. Hefyd, dylech wybod bod unrhyw astudiaeth ymchwil yn golygu naill ai profi rhagdybiaeth neu ymchwilio i gwestiwn ymchwil clir a gwerthuso canfyddiadau ochr yn ochr â hyn.
- 10.3 Cyflawni prosiect ymchwil**
- Byddwch yn cwblhau prosiect ymchwil ar bwnc sy'n ymwneud ag lechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd angen i chi wybod sut i:
- Cynllunio'r prosiect
- nodi pwnc ymchwil ac esbonio eich rhesymau dros ei ddewis
  - diffinio'r rhagdybiaeth ymchwil neu gwestiwn ymchwil rydych yn bwriadu ymchwilio iddo
  - cynnal adolygiad o lenyddiaeth gefndirol ac adnoddau gwybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc a chwestiwn neu ragdybiaeth ymchwil rydych wedi eu dewis
  - cynhyrchu cynnig ymchwil a chyfiawnhau'r dull rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio
  - creu'r offer casglu data (holiaduron, cynlluniau cyfweld neu restrau gwirio arsylwi) sydd eu hangen ar gyfer eich astudiaeth ymchwil
  - cynhyrchu cynllun gweithredu byr ar gyfer cwblhau'r prosiect ymchwil.

### Cynnal yr ymchwil

- dod o hyd i ddata oddi wrth ffynonellau priodol gan ddefnyddio'r dulliau rydych wedi eu hargymell
- cofnodi eich canfyddiadau mewn dull priodol
- dadansoddi'r data rydych wedi dod o hyd iddynt.

### Ysgrifennu adroddiad ymchwil

- disgrifio nodau eich prosiect ymchwil ynghyd â'r dulliau a ddefnyddiwyd
- cyflwyno'r canlyniadau gan roi'r data ar ffurf crynodeb
- esbonio a gwerthuso eich canfyddiadau gan eu cymharu â'r rhagdybiaeth neu gwestiwn ymchwil gwreiddiol ynghyd â phwyntiau perthnasol o'ch adolygiad o'r llenyddiaeth gefndirol
- asesu cryfderau a chyfyngiadau posibl eich astudiaeth ymchwil.

---

## Tystiolaeth asesu

Seilir yr asesu mewnol ar gwblhau eich prosiect ymchwil lle rydych yn dod o hyd i ddata cynradd ac eilaidd a'u defnyddio. Bydd hyn yn dangos eich dealltwriaeth o gronfa wybodaeth yr uned a'ch gallu i'w chymhwysu mewn ffordd ymarferol.

Dylai'r astudiaeth ymchwil rydych yn ei chynnig gynnwys pwnc sy'n berthnasol i faes iechyd a gofal cymdeithasol. Gellir mynd ar ôl maes pwnc oddi wrth un neu fwy o'r unedau o fewn TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), sy'n ymwneud â'r grwpiau cleient canlynol:

- pobl sy'n sâl
- plant ifanc
- pobl h n
- pobl ag anghenion penodol.

Bydd y dystiolaeth asesu yn cynnwys cynnig ymchwil ac adroddiad ysgrifenedig terfynol sy'n dangos dealltwriaeth o ddulliau a materion ymchwil ac yn dangos dystiolaeth o'ch gallu i ddefnyddio sgiliau ymchwil sylfaenol. Mae'n rhaid i'ch gwaith ddangos dystiolaeth o'ch gallu i:

- a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o fethodoleg ymchwil
- b defnyddio technegau a sgiliau perthnasol i ddod o hyd i ddata ymchwil
- c dadansoddi'r data ymchwil rydych yn dod o hyd iddynt
- ch gwerthuso eich prosiect a methodoleg ymchwil.

Pan fyddwch yn cynnal cyfweiliadau neu weithgareddau gyda chleientiaid fel rhan o'ch gwaith a asesir yn fewnol mae'n hanfodol i chi gael cydsyniad y cleient a chynnal cyfrinachedd llawn trwy'r amser.

---



## Meini prawf asesu

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(a) (AA1)	<p>Mae'r dysgwyr yn nodi pwnc ymchwil perthnasol ac yn cynhyrchu cynnig ymchwil sy wedi ei seilio ar wybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r dulliau ymchwil priodol.</p> <p>Bydd adroddiad ymchwil terfynol y dysgwyr yn dangos gwybodaeth gyfyngedig ac arwynebol o'r broses ymchwilio a dulliau ymchwil.</p> <p>Nid yw'r adroddiad yn gywir bob amser ac yn anaml mae'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn. Ceir peth anghywirdeb a bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(0-7)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn cynhyrchu cynnig ymchwil wedi ei seilio ar bwnc priodol. Mae'r cynnig wedi ei fynegi'n glir, yn strwythuredig ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r broses ymchwilio a'r prif faterion methodolegol sy'n berthnasol i'r astudiaeth.</p> <p>Bydd adroddiad ymchwil terfynol y dysgwyr yn dangos gwybodaeth dda o'r broses ymchwilio a'r dulliau ymchwil a ddefnyddir yn eu prosiect.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwr bob amser yn esbonio ei g/waith yn llawn. Prin yw'r anghywirdeb a'r bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(8-10)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn cynhyrchu cynnig ymchwil clir, strwythuredig a manwl wedi ei seilio ar bwnc priodol. Mae'r cynnig yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o'r broses ymchwilio ac o'r prif faterion methodolegol sy'n berthnasol i'r astudiaeth arfaethedig.</p> <p>Bydd adroddiad ymchwil terfynol y dysgwyr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o fethodoleg ymchwil.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ac mae'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn. Ni cheir unrhyw anghywirdeb na bylchau sylweddol.</p> <p style="text-align: right;">(11-13)</p>	13

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(b) (AA2)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos y gallu i adnabod a chynhyrchu offer casglu data sylfaenol ar gyfer eu hastudiaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl y deuir o hyd i ddata annigonol, amhriodol neu ddiffygiol oherwydd cynllunio gwael neu gynnal y broses casglu data mewn ffordd wael.</p> <p>Bydd angen cymorth ymarferol ar y dysgwyr i gwblhau'r cam casglu data yn y broses ymchwilio.</p> <p style="text-align: right;">(0-7)</p>	<p>Bydd cynllunio a chynnal astudiaeth ymchwil y dysgwyr yn glir ac yn systematig. Mae'r dysgwyr yn gallu dodo o hyd i ddigon o ddata priodol i'w dadansoddi.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth gadarn o ddulliau ymchwil a'r broses ymchwilio i'r pwnc lechyd a Gofal Cymdeithasol maent wedi ei ddewis mewn ffordd briodol, ymarferol ac effeithiol gyda chymorth cyfyngedig yn unig.</p> <p style="text-align: right;">(8-10)</p>	<p>Bydd y dysgwyr yn datblygu ac yn defnyddio offer casglu data ar gyfer eu hastudiaeth ymchwil yn annibynnol. Mae'r dysgwyr yn dangos y gallu i ddod o hyd i ddata mewn ffordd systematig a phwyllog, gan addasu eu cynlluniau fel bo angen i ymateb i broblemau.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu cymhwyso gwybodaeth fanwl o ddulliau ymchwil a'r broses ymchwilio i'r pwnc lechyd a Gofal Cymdeithasol maent wedi ei ddewis mewn ffordd gywir, ymarferol a chymwys.</p> <p style="text-align: right;">(11-13)</p>	13
(c) (AA3)	<p>Bydd y dysgwyr yn darparu dadansoddiad sylfaenol o'r data ymchwil maent yn dod o hyd iddynt. Bydd y dadansoddiad yn dangos dadansoddi ymarferol cyfyngedig gan nodi patrymau neu themâu sylfaenol yn y data yn unig.</p> <p>Bydd dysgwyr yn gwneud cysylltiadau rhwng y data a'r cwestiwn neu ragdybiaeth ymchwil mewn ffordd arwynebol yn unig.</p> <p style="text-align: right;">(0-8)</p>	<p>Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu dadansoddiad disgrifiadol clir o brif nodweddion eu data. Seilir hyn ar ddadansoddi cadarn sy'n cysylltu'r cwestiwn neu ragdybiaeth ymchwil gwreiddiol yn benodol â'r data mewn ffordd gyfiawnadwy a rhesymegol.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn llunio rhai casgliadau dilys am eu hastudiaeth ymchwil sy'n glir a rhesymedig.</p> <p style="text-align: right;">(9-13)</p>	<p>Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu dadansoddiad manwl o'u data ymchwil. Seilir hyn ar ddefnyddio'r dulliau dadansoddi data priodol yn drefnus ac yn systematig. Bydd y dysgwyr yn amlygu'r prif nodweddion a phatrymau yn eu data.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn gwneud defnydd da o eirfa briodol neu arbenigol.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn dadansoddi'n glir ac yn dadlau'n rhesymegol i ategu a chyfiawnhau eu casgliadau.</p> <p style="text-align: right;">(14-17)</p>	17

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(ch) (AA4)	<p>Mae'r dysgwyr yn medru gwerthuso methodoleg ymchwil a chanlyniadau ymchwil mewn ffordd sylfaenol. Bydd adroddiad ymchwil terfynol y dysgwyr yn dangos gwerthusiad cyfyngedig o bwrpas a phroses ymchwilio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Prin fydd dadansoddi problemau neu wendidau o blith y data.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu dod i gasgliadau sylfaenol am gryfderau, gwendidau a chanlyniadau eu hastudiaeth ymchwil.</p> <p>Mae'r lefel o feddwl yn annibynnol yn gyfyngedig.</p> <p style="text-align: right;">(0-8)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso da.</p> <p>Bydd gwerthusiad y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o bwrpas a phroses ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd gwaith y dysgwyr yn cyflwyno a datblygu dadleuon mewn ffordd resymegol.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn cydnabod rhai o'r cyfyngiadau a gwendidau o ran eu data.</p> <p>Ceir tystiolaeth o beth meddwl yn annibynnol a menter.</p> <p style="text-align: right;">(9-12)</p>	<p>Bydd adroddiad ymchwil y dysgwyr yn rhoi gwerthusiad llawn, cywir a chytbwys o'u hastudiaeth ymchwil.</p> <p>Byddant yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddulliau ymchwil a lefel uchel o feddwl dadansoddol yn eu dulliau gwerthuso. Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth ardderchog o'r gwahanol resymau am gynnal ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd â'r dulliau gwahanol o fynd ati.</p> <p>Bydd y dysgwyr yn cydnabod gwendidau a chyfyngiadau posibl o ran eu data.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o feddwl yn annibynnol a menter.</p> <p style="text-align: right;">(13-17)</p>	17
<b>Cyfanswm y marciau</b>				<b>60</b>

Gweler Atodiad CH: Disgrifiadau Perfformiad am ddisgrifiadau'r AA

## Canllaw asesu

### Band Marciau 1

Mae'r dysgwyr i gynhyrchu adroddiad ar broject ymchwil ar raddfa fechan sy'n ymchwilio i bwnc sy'n berthnasol i'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau ymchwil a'r broses ymchwilio trwy gynhyrchu cynnig ymchwil.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn gallu adnabod un dull ymchwil priodol. Byddant yn rhestru dau bwynt sylfaenol ac yn cynnig amlinelliad byr, disgrifiadol o astudiaeth ymchwil arfaethedig. Dangosir hyn yn eu hadroddiad terfynol sydd yn aml yn anghywir ac yn esgeulus iawn. Nid yw'r dysgwyr yn cynnig esboniadau ac mae angen cryn arweiniad i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn gallu adnabod dau ddull ymchwil priodol. Byddant yn rhestru tri phwynt sylfaenol ac yn cynnig amlinelliad byr, disgrifiadol o astudiaeth ymchwil arfaethedig. Dangosir hyn yn eu hadroddiad terfynol nad yw bob amser yn gywir ac weithiau yn esgeulus. Prin yw'r esboniadau ac mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos eu gallu i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddulliau ymchwil a dangos sgiliau casglu data sylfaenol.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn gallu adnabod un math o offer casglu data. Byddant yn medru cynhyrchu offeryn casglu data sylfaenol (fel holiadur) ond bydd angen cryn dipyn o gyngor, arweiniad a chymorth ymarferol arnynt i wneud hyn. Bydd eu casgliad o ddata yn wael heb gynhyrchu digon o ddata i'w dadansoddi.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn gallu adnabod dau fath o offer casglu data. Byddant yn medru cynhyrchu offeryn casglu data sylfaenol â chyngor, arweiniad a chymorth ymarferol cyfyngedig. Bydd eu casgliad o ddata yn wael o hyd a heb gynhyrchu digon o ddata i'w dadansoddi.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddadansoddi'r data maent wedi dod o hyd iddynt oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn rhoi dadansoddiad arwynebol iawn o'u data gan grynhoi dwy o'u prif nodweddion. Byddant yn nodi un brif thema yn y data a byddant yn gwneud cysylltiadau tenau rhwng y cwestiynau ymchwil a'r data.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn rhoi dadansoddiad sylfaenol o'u data gan grynhoi eu prif nodweddion. Byddant yn nodi dwy o'u prif themâu a byddant yn gwneud cysylltiadau rhwng y cwestiynau ymchwil a'r data.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos sgiliau gwerthuso sylfaenol, gan lunio casgliadau sylfaenol am gryfderau a gwendidau eu hastudiaeth ymchwil.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn rhoi gwerthusiad sylfaenol iawn gan nodi un broblem neu wendid yn y data. Ni fydd eu prosiect terfynol yn dangos unrhyw werthfawrogiad o bwrpas yr ymchwil. Bydd y dysgwyr yn rhoi un cryfder ac un gwendid i'r prosiect ymchwil a hynny i gyd â chryn arweiniad.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn rhoi gwerthusiad sylfaenol gan nodi dwy broblem neu wendid yn y data. Bydd eu prosiect terfynol yn dangos gwerthfawrogiad cyfyngedig o bwrpas yr ymchwil. Bydd y dysgwyr yn rhoi un neu ddau gryfder a gwendid i'r prosiect ymchwil a hynny i gyd â pheth arweiniad.

(Gw. *Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.*)

## Band Marciau 2

Mae'r dysgwyr i gynhyrchu adroddiad clir a manwl ar broiect ymchwil ar raddfa fechan sy'n ymchwilio i bwnc sy'n berthnasol i'r sector lechyd a Gofal Cymdeithasol.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau ymchwil a'r broses ymchwilio trwy gynhyrchu cynnig ymchwil.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn gallu nodi pwnc a chwestiwn neu ragdybiaeth ymchwil berthnasol a disgrifio strategaeth ymchwil briodol ar gyfer ymchwilio iddo. Fodd bynnag, ceir peth bylchau yn ehangder yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o wendidau yn y strategaeth arfaethedig. Dangosir hyn yn eu hadroddiad terfynol sy'n gywir ond heb ei esbonio'n dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn gallu nodi pwnc a chwestiwn neu ragdybiaeth ymchwil berthnasol a disgrifio strategaeth ymchwil briodol ar gyfer ymchwilio iddo. Ceir peth bylchau yn ehangder yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o wendidau yn y strategaeth arfaethedig. Dangosir hyn yn eu hadroddiad terfynol sy'n gywir ac yn cynnwys peth esboniad ond nid yw wedi ei esbonio'n llawn. Ychydig iawn o arweiniad sydd ei angen ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos eu gallu i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddulliau ymchwil a dangos sgiliau casglu data sylfaenol.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos cynllunio systematig o ran eu hastudiaeth ymchwil. Byddant yn ei chynnal mewn ffordd foddhaol ac yn dod o hyd i ddigon o ddata i'w dadansoddi. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos cynllunio clir a systematig o ran eu hastudiaeth ymchwil. Byddant yn ei chynnal mewn ffordd dda ac yn dod o hyd i ddigon o ddata i'w dadansoddi. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddadansoddi'r data maent wedi dod o hyd iddynt oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn rhoi dadansoddiad boddhaol o'u data a'u prif nodweddion. Byddant yn llunio rhai casgliadau dilys sydd wedi eu rhesymu'n dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn rhoi dadansoddiad disgrifiadol clir o'u data a'u prif nodweddion. Byddant yn llunio rhai casgliadau dilys sydd yn glir ac wedi eu rhesymu'n dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos lefel o werthuso sy'n gywir ac yn berthnasol.

Ar ben isaf y band marciau, bydd y dysgwyr yn gallu cynhyrchu gwerthusiad boddhaol gan roi peth dealltwriaeth o bwrpas yr ymchwil. Bydd y dysgwyr yn cyflwyno dadleuon clir ac yn cydnabod dau gyfyngiad i'w data. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd y dysgwyr yn gallu cynhyrchu gwerthusiad da gan roi dealltwriaeth glir o bwrpas yr ymchwil. Bydd y dysgwyr yn cyflwyno ac yn datblygu dadleuon clir ac yn cydnabod tri chyfyngiad i'w data. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

### Band Marciau 3

Mae'r dysgwyr i gynhyrchu adroddiad clir, manwl a thrylwyr ar broiect ymchwil ar raddfa fechan sy'n ymchwilio i bwnc sy'n berthnasol i'r sector lechyd a Gofal Cymdeithasol.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau ymchwil a'r broses ymchwilio trwy gynhyrchu cynnig ymchwil.

Ar ben isaf y band marciau bydd y dysgwyr yn cynhyrchu cynnig ymchwil strwythuredig sy'n eithaf manwl. Byddant yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc maent wedi ei ddewis ynghyd â'r prosesau a methodoleg ymchwil. Ni fydd bylchau yn ehangder yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o wendidau yn y strategaeth arfaethedig. Dangosir hyn yn eu hadroddiad terfynol sy'n gywir ac fel arfer wedi ei esbonio'n dda. Dim ond weithiau bydd angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd y dysgwyr yn cynhyrchu cynnig ymchwil clir, strwythuredig sy'n fanwl iawn. Byddant yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc maent wedi ei ddewis ynghyd â'r prosesau a methodoleg ymchwil. Ni fydd unrhyw fylchau yn ehangder yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o wendidau yn y strategaeth arfaethedig. Dangosir hyn yn eu hadroddiad terfynol sy'n gywir ac wedi ei esbonio'n dda. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos eu gallu i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddulliau ymchwil a dangos sgiliau casglu data sylfaenol.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn cynhyrchu ac yn defnyddio offeryn casglu data yn annibynnol er mwyn dod o hyd i ddigon o ddata o ansawdd dda i'w dadansoddi. Byddant yn dangos cynllunio systematig o ran eu hastudiaeth ymchwil a byddant yn ei chynnal mewn ffordd foddhaol gan ddod o hyd i ddigon o ddata i'w dadansoddi. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn cynhyrchu ac yn defnyddio offeryn casglu data priodol yn annibynnol er mwyn dod o hyd i ddigon o ddata o ansawdd dda i'w dadansoddi. Byddant yn dangos cynllunio systematig a phwyllog o ran eu hastudiaeth ymchwil a byddant yn ei chynnal mewn ffordd ardderchog gan ddod o hyd i ddigon o ddata i'w dadansoddi. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddadansoddi'r data y maent wedi dod o hyd iddynt oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn gallu cynhyrchu dadansoddiad manwl wedi ei seilio ar y defnydd systematig o ddulliau dadansoddi data. Byddant yn amlygu prif nodweddion y data ac yn llunio casgliadau rhesymegol er mwyn ategu hyn. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mron pob sefyllfa. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn gallu cynhyrchu dadansoddiad manwl a chllir wedi ei seilio ar y defnydd systematig o ddulliau dadansoddi data. Byddant yn amlygu prif nodweddion a phatrymau'r data ac yn llunio casgliadau rhesymegol er mwyn ategu hyn. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mhob sefyllfa. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos defnydd ardderchog o sgiliau gwerthuso.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso da iawn gan roi adroddiad cywir a chytbwys. Bydd dysgwyr yn dangos lefel uchel o feddwl dadansoddol a dealltwriaeth dda iawn o'r rhesymau dros gynnal yr ymchwil. Byddant yn cydnabod tri neu bedwar cyfyngiad a gwendid posibl yn eu data. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso ardderchog gan roi adroddiad llawn, cywir a chytbwys. Bydd dysgwyr yn dangos lefel ardderchog o feddwl dadansoddol a lefel uchel o ddealltwriaeth o'r rhesymau dros gynnal yr ymchwil. Byddant yn cydnabod o leiaf bedwar cyfyngiad a gwendid posibl yn eu data. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

(Gw. yr adran *Defnyddio'r Bandiau Marciau* am ganllawiau pellach.)

---

## Cyflwyno'r uned hon

Asesir yr uned hon yn fewnol mewn ffordd gymharol ymarferol. Gofynnir i ddysgwyr gynllunio a chwblhau prosiect ymchwil ar raddfa fechan ar bwnc neu fater y maent wedi ei ddewis eu hunain.

Mae'n bwysig fod dysgwyr yn medru dangos gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol o ddulliau ymchwil wrth gynllunio a chynnal eu prosiect. Mae angen amser i ddatblygu a dangos hyn. Fel canlyniad, bydd angen digon o amser ar y dysgwyr i gynllunio, cynnal ac ysgrifennu eu prosiectau ymchwil. Gellir cyflawni hyn trwy rannu'r uned yn dri cham o ran y cyflwyno. Dylai'r cam cyntaf, cynllunio a pharatoi'r prosiect, esgor ar gynhyrchu cynnig ymchwil ac offer casglu data. Dylai'r ail gam, casglu a dadansoddi data, esgor ar gynhyrchu a dadansoddi set o ddata. Dylai'r cam olaf, yr ysgrifennu, esgor ar adroddiad ymchwil terfynol a gwerthusiad o'r broses ynghyd â chanlyniadau astudiaeth ymchwil y dysgwyr.

Wrth gyflwyno cynnwys yr uned hon, disgwylir y bydd canolfannau yn annog a chefnogi dysgwyr i ganolbwyntio ar amrywiaeth o faterion a dulliau sy'n berthnasol o ymchwil iechyd neu ofal cymdeithasol. Prif bwrpas yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ennill dealltwriaeth glir o'r broses ymchwilio a'i harwyddocâd i faes iechyd a gofal cymdeithasol.

---

## Cysylltau

### Unedau eraill

Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

Uned 11: Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles

### Dyfarniadau TAG eraill

Mae dyfarniadau TAG eraill, gan gynnwys UG ac U2 Cymdeithaseg a Seicoleg yn cynnwys sôn am ddulliau ymchwil. Gall y rhain gynnwys deunydd cyflenwol i ychwanegu at y dysgu yn yr uned hon.

---

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Bell J — *Doing your Research Prosiect* (Gwasg y Brifysgol Agored, 1993) ISBN 0335203884

Dunsmuir A et al — *How to Do Social Research* (Collins Education, 1991) ISBN 000322242X

McNeil P — *Research Methods* (Routledge, 1990) ISBN 0415041260

Walsh M — *Research Made Real* (Nelson Thornes, 2001) ISBN 0748758410

### Gwefannau

National Institute for Clinical Excellence (NICE)

[www.nice.org.uk](http://www.nice.org.uk)

Sefydliad Joseph Rowntree

[www.jrf.org.uk](http://www.jrf.org.uk)

Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

[www.ons.gov.uk](http://www.ons.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasegol ar-lein

[www.socialresearchonline.co.uk](http://www.socialresearchonline.co.uk)

### Darllen pellach

Argymhellir i ddysgwyr ddarllen amrywiaeth o siwrnalau a chylchgronau proffesiynol mae'n hawdd cael gafael arnynt, gan gynnwys *Nursing Times*, *Professional Nurse* a *Nursing Standard*. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau ar ymchwil a gynhaliwyd i faterion iechyd a gofal cymdeithasol.





# Uned 11: Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles

---

U2 uned orfodol

Asesir yn fewnol

---

## Cyflwyniad

Bydd yr wybodaeth a gewch o'r uned hon yn eich helpu i ddeall amrywiaeth o faterion cymdeithasol ac anghenion lles (*welfare*) sy'n bodoli yn ein cymdeithas. Byddwch yn medru adnabod ac ymchwilio i'r materion cymdeithasol hynny sydd wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd a'r materion hynny sy'n fwy cyfoes eu natur. Byddwch yn archwilio sut mae materion cymdeithasol ac anghenion lles yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau mewn gwahanol sefyllfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd y dystiolaeth a gyflwynir i'r asesiad yn briodol i'r sefyllfa neu ddefnyddwyr y gwasanaethau a ddewisir. Gellir tynnu hyn oddi wrth un o'r canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Wrth gwblhau'r uned byddwch yn fwy parod am faterion y gallwch ddod ar eu traws yn y dyfodol fel gofalwr proffesiynol a gall yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych chi wedi eu hennill fod o gymorth i chi newid eich agweddau tuag at eraill.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn yr adran Beth sydd angen i chi ei ddysgu ac fe'ch asesir ar eich gallu i'w ddethol a'i gymhwysu i'r cyd-destun yn y gweithle rydych chi wedi ei ddewis.

---

## Dysgu blaenorol a argymhellir

Uned 6: Iechyd Cyhoeddus

Uned 7: Diwallu Anghenion Unigol

Uned 10: Defnyddio a Deall Ymchwil

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 11.1 Gwreiddiau materion cymdeithasol a lles

Mae'r adran hon yn archwilio gwreiddiau materion cymdeithasol trwy'r newidiadau cymdeithasol sydd wedi digwydd yn y DU dros y 100 mlynedd diwethaf.

Mae'r rhain yn ymwneud ag:

- oedran
- rhyw
- ethnigrwydd
- dosbarth cymdeithasol.

Yn benodol, fe fyddwch yn ymchwilio i'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar newid cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- diwydiannu
- newid diwylliannol
- newid gwleidyddol
- newid economaidd.

Ar ben hynny, byddwch yn ymchwilio i'r prosesau a'r cyfryngau sydd yn glwm wrth newid cymdeithasol fel trefoli, seciwlareiddio, y cyfryngau torfol, a dylanwadau rhyngwladol fel yr UE.

Byddwch yn dechrau ymchwilio i'r cysyniad o gymdeithas anghyfartal o safbwynt oedran, rhyw, ethnigrwydd a dosbarth cymdeithasol. Bydd eich dysgu yn canolbwyntio ar y cysyniadau a gysylltir ag anghydraddoldeb o ran y grwpiau hyn.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- ystrydebu
- rhagfarnau
- labelu
- agweddau
- gwahaniaethu
- ymyleiddio (*marginalisation*)
- eithrio cymdeithasol.

### 11.2 Newid demograffig a materion cymdeithasol a lles

Ffactor mawr sy'n effeithio ar faterion cymdeithasol ac anghenion lles yw effaith newidiadau demograffig. Bydd angen i chi ddatblygu dealltwriaeth o sut mae ffactorau fel:

- cyfradd genedigaethau a chyfradd marwolaethau
- mudo ac allfudo
- newidiadau o ran disgwyliad oes.

wedi dylanwadu ar natur materion cymdeithasol a lles yn y gymdeithas. Er enghraifft, datblygu cymdeithas amlddiwylliannol a phoblogaeth sy'n heneiddio.

Hefyd, dylech ddatblygu gwybodaeth am sut y gellir defnyddio data ystadegol i helpu deall materion cymdeithasol ac anghenion lles wrth gynllunio gwasanaethau, targedu gwasanaethau, adleoli adnoddau, asesu effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ac wrth ddatblygu amcanion cynllunio'r dyfodol.

**11.3 Materion cymdeithasol mewn cyd-destun**

Yn yr adran hon, byddwch yn archwilio'n feirniadol faterion cymdeithasol ac anghenion lles sydd yn peri pryder yn y DU gyfoes. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n ymwneud â:

- dosrannu incwm a chyfoeth
- diweithdra
- tlodi
- cymdeithas sy'n heneiddio
- anabledd a chamweithredu
- afiechyd meddwl a hunanladdiad.

Mae angen i chi ddangos dealltwriaeth fod llawer o'r materion hyn yn cydberthyn, er enghraifft tlodi a diweithdra.

Dylai eich gwybodaeth o'r materion hyn ganolbwyntio ar eu natur a'u maint, ymateb y llywodraeth i'r mater a'r effeithiau ar yr unigolyn, grwpiau a'r gymdeithas yn gyffredinol.

**11.4 Ymateb y llywodraeth i faterion cymdeithasol ac anghenion lles**

Bydd angen i chi wybod am ymateb y llywodraeth i faterion cymdeithasol ac anghenion lles.

Bydd yr ymatebion a geir gan y llywodraeth yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel pa blaid wleidyddol sydd wrth y llyw ar adeg benodol, eu hideoleg wleidyddol a'r dylanwadau a phwysau sydd arnynt.

Dylai'r ymateb gynnwys:

- deddfwriaeth
- mentrau o wahanol fathau.

Bydd angen i chi ddeall sut mae ymatebion yn digwydd a sut gall dylanwadau effeithio arnynt.

Gallai dylanwadau allanol gynnwys cyrff fel yr UE, carfannau pwysu, y cyfryngau torfol, yr economi a llawer o rai eraill.

Bydd angen i chi fedru gwerthuso llwyddiant y fath ymatebion gan y llywodraeth.

---

## Tystiolaeth asesu

Bydd y dystiolaeth asesu ar gyfer yr uned hon yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig ar fater cymdeithasol neu angen lles (*welfare need*) sydd o ddiddordeb i chi.

Dylai'r mater cymdeithasol neu angen lles effeithio ar o leiaf un o'r grwpiau canlynol o gleientiaid:

- pobl sy'n sâl
- plant ifanc
- pobl h n
- pobl ag anghenion penodol.

Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- a gwreiddiau'r mater cymdeithasol neu angen lles rydych chi'n ymchwilio iddo
- b newid demograffig a gysylltir â'r mater cymdeithasol neu angen lles sy'n cael ei ymchwilio
- c natur gyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles sy'n cael ei ymchwilio
- ch ymatebion y llywodraeth o ran polisi i'r mater cymdeithasol neu angen lles sy'n cael ei ymchwilio.

Pan fyddwch yn cynnal cyfweiliadau neu weithgareddau gyda chleientiaid fel rhan o'ch gwaith a aser yn fewnol mae'n hanfodol i chi gael cydsyniad y cleient a chynnal cyfrinachedd llawn trwy'r amser.

## Meini prawf asesu

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(a) (AA1)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos sgiliau sylfaenol o ran dod o hyd i wybodaeth oddi wrth o leiaf un ffynhonnell.</p> <p>Nid yw'r adroddiad yn gywir bob amser ac yn anaml mae'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p>Ceir peth anghywirdeb a bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(0-7)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos sgiliau da o ran dod o hyd i wybodaeth oddi wrth o leiaf dair ffynhonnell.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwyr bob amser yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p>Prin yw'r anghywirdeb a'r bylchau.</p> <p style="text-align: right;">(8-10)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Mae adroddiad y dysgwyr yn dangos sgiliau ardderchog o ran dod o hyd i wybodaeth ac mae'r wybodaeth wedi ei thynnu o ystod eang o ffynonellau a gwahanol fathau o ffynonellau.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ac mae'r dysgwyr yn esbonio eu gwaith yn llawn.</p> <p>Ni cheir unrhyw anghywirdeb na bylchau sylweddol.</p> <p style="text-align: right;">(11-13)</p>	13
(b) (AA2)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel sylfaenol o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion cymdeithasol ac anghenion lles. Y dystiolaeth am hyn yw eu gallu i restru a rhoi disgrifiadau sylfaenol o sut mae o leiaf un o'r ffactorau demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles maent yn ei astudio.</p> <p>Ceir peth defnydd o eirfa arbenigol ond mae'n gyfyngedig.</p> <p>Nid yw'r adroddiad bob amser yn gywir ac nid yw'r dysgwyr yn dangos eu bod yn cymhwyso gwybodaeth yn aml.</p> <p style="text-align: right;">(0-7)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel gywir o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion cymdeithasol ac anghenion lles. Y dystiolaeth am hyn yw eu gallu i roi esboniadau o sut mae o leiaf ddau o'r ffactorau demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles maent yn ei astudio.</p> <p>Ceir defnydd da o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir ond nid yw'r dysgwyr yn cymhwyso gwybodaeth yn llawn.</p> <p style="text-align: right;">(8-10)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion cymdeithasol ac anghenion lles. Y dystiolaeth am hyn yw eu gallu i roi esboniadau llawn o sut mae o leiaf dri o'r ffactorau demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles maent yn ei astudio.</p> <p>Ceir defnydd helaeth o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn gywir a'r dysgwyr yn cymhwyso gwybodaeth yn llawn.</p> <p style="text-align: right;">(11-13)</p>	13

	Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Marc a ddyfarnwyd
(c) (AA3)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau sylfaenol o ran gwybodaeth a dealltwriaeth am gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles, a ddangosir gan eu hymchwil.</p> <p>Prin yw'r dadansoddi o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p> <p>Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig a heb fod yn berthnasol bob tro. Daw oddi wrth o leiaf un ffynhonnell.</p> <p>(0-8)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau da o ran gwybodaeth a dealltwriaeth am gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles, a ddangosir gan eu hymchwil.</p> <p>Maent yn dangos y gallu i ddadansoddi a gwneud cysylltiadau perthnasol mewn ffordd resymegol, er gall y dadansoddi fod yn brin o fanylion.</p> <p>Tynnir gwybodaeth oddi wrth dair ffynhonnell o leiaf ac mae'n berthnasol a digon ohoni.</p> <p>(9-13)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau ardderchog o ran gwybodaeth a dealltwriaeth am gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles, a ddangosir gan eu hymchwil.</p> <p>Dangosir meddwl annibynnol wrth ddadansoddi materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle, sy'n ddadansoddiad manwl da gan gynnwys cysylltiadau perthnasol ac eang.</p> <p>Tynnir gwybodaeth oddi wrth o leiaf bedair ffynhonnell o fathau gwahanol ac mae'n berthnasol a digon ohoni.</p> <p>(14-17)</p>	17
(ch) (AA4)	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol am o leiaf un o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles sy'n cael ei ddangos yn eu gwerthusiad.</p> <p>Mae'r dysgwr yn dangos lefel sylfaenol o sgiliau gwerthuso. Mae'r dysgwr yn gallu trafod ond crynodeb yn hytrach na chasgliadau a geir. Mae unrhyw gasgliadau yn syml ac yn cael eu cynnig ar y cyfan heb ddadl i'w cefnogi.</p> <p>Mae'r lefel o feddwl yn annibynnol yn gyfyngedig.</p> <p>(0-8)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda am o leiaf ddau o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles sy'n cael ei ddangos yn eu gwerthusiad.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel dda o sgiliau gwerthuso. Mae'r dysgwyr yn gallu trafod a llunio casgliadau sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth.</p> <p>Ceir peth tystiolaeth o feddwl yn annibynnol a menter.</p> <p>(9-12)</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel iawn o wybodaeth a dealltwriaeth am o leiaf dri o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles sy'n cael ei ddangos yn eu gwerthusiad.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o sgiliau gwerthuso. Mae'r dysgwyr yn gallu llunio casgliadau dilys o'r dystiolaeth a geir a'r rhain yn glir, yn fanwl ac wedi eu rhesymu'n dda.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel o feddwl yn annibynnol a menter.</p> <p>(13-17)</p>	17
<b>Cyfanswm y marciau</b>				<b>60</b>

Gweler Atodiad CH: Disgrifiadau Perfformiad am ddisgrifiadau'r AA





## Canllaw asesu

### Band Marciau 1

Mae'r dysgwyr i gynhyrchu adroddiad ar fater cymdeithasol neu angen lles sydd o ddiddordeb iddynt.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau wrth ddod o hyd i wybodaeth a'r wybodaeth honno'n cael ei thynnu oddi wrth nifer o ffynonellau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol iawn am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Byddant yn dangos sgiliau sylfaenol wrth ddod o hyd i wybodaeth a'r wybodaeth honno wedi ei thynnu wrth un ffynhonnell yn unig. Yn aml iawn, nid yw'r adroddiad yn gywir ac mae cryn fylchau ynddo. Nid yw'r dysgwyr yn cynnig esboniadau ac mae angen cryn arweiniad i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Byddant yn dangos sgiliau sylfaenol wrth ddod o hyd i wybodaeth a'r wybodaeth honno wedi ei thynnu wrth ddwy ffynhonnell. Nid yw'r adroddiad bob amser yn gywir ac mae peth bylchau ynddo. Prin yw'r esboniadau ac mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae ffactorau demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles.

Ar ben isaf y band marciau, mae dysgwyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol iawn o sut mae un neu ddau ffactor demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn gallu rhestru a rhoi disgrifiadau sylfaenol o un neu ddau ddarn o ddata demograffig perthnasol. Ceir defnydd cyfyngedig iawn o eirfa arbenigol ac yn aml iawn, nid yw'r adroddiad yn gywir ac mae cryn fylchau ynddo. Mae angen cryn arweiniad arnynt i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, mae dysgwyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut mae dau ffactor demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn gallu rhestru a rhoi disgrifiadau o ddau ddarn o ddata demograffig perthnasol. Mae eu hadroddiad yn ddisgrifiadol gyda rhai esboniadau. Ceir defnydd cyfyngedig o eirfa arbenigol ac yn aml iawn, nid yw'r adroddiad yn gywir ac mae peth bylchau ynddo. Mae angen peth arweiniad arnynt i gwblhau'r gwaith.

#### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn dangos y gallu i ddadansoddi a gwneud cysylltiadau perthnasol mewn ffordd resymegol a gallant lunio casgliadau o dystiolaeth.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol iawn o gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn dangos y gallu i ddadansoddi ond nid yw hyn wedi ei gysylltu â materion yn ymwneud â'r gweithle. Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig iawn a dim ond un ffynhonnell berthnasol a ddefnyddir. Mae angen cryn arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn dangos y gallu i ddadansoddi ond nid oes llawer o hyn wedi ei gysylltu â materion yn ymwneud â'r gweithle. Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig iawn a dim ond un neu ddwy ffynhonnell berthnasol a ddefnyddir. Mae angen peth arweiniad ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol iawn o un o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel sylfaenol iawn o sgiliau gwerthuso gan roi crynodebau byr heb unrhyw ddadleuon ategol. Mae angen cryn arweiniad arnynt i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o un neu ddau o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel sylfaenol o sgiliau gwerthuso gan roi crynodebau syml heb unrhyw ddadleuon ategol. Mae angen peth arweiniad arnynt i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

## Band Marciau 2

Mae'r dysgwyr i gynhyrchu adroddiad clir a manwl ar fater cymdeithasol neu angen lle sydd o ddiddordeb iddynt.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau wrth ddod o hyd i wybodaeth a'r wybodaeth honno'n cael ei thynnu oddi wrth nifer o ffynonellau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Byddant yn dangos sgiliau boddhaol wrth ddod o hyd i wybodaeth a'r wybodaeth honno wedi ei thynnu wrth dair ffynhonnell. Mae'r adroddiad yn gywir ond heb ei esbonio'n dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Byddant yn dangos sgiliau da wrth ddod o hyd i wybodaeth a'r wybodaeth honno wedi ei thynnu wrth bedair ffynhonnell. Mae'r adroddiad yn gywir ac ynddo beth esboniad, ond heb ei esbonio'n llawn. Ychydig iawn o arweiniad sydd ei angen ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae ffactorau demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles.

Ar ben isaf y band marciau mae dysgwyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o sut mae dau neu dri ffactor demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn gallu rhoi esboniadau da o ddau ddarn o ddata demograffig perthnasol. Mae eu

hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ond nid mor aml â phosibl. Mae'n gywir ond heb gael ei esbonio'n dda. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau mae dysgwyr yn gallu dangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae tri ffactor demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn gallu rhoi esboniadau cywir o dri darn o ddata demograffig perthnasol. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir trwy'r rhan fwyaf o'r adroddiad. Mae'n gywir â pheth esboniad ond heb ei esbonio'n llawn. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn dangos y gallu i ddadansoddi a gwneud cysylltiadau perthnasol mewn ffordd resymegol a gallant lunio casgliadau o dystiolaeth.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn dangos gallu boddhaol o ran dadansoddi a gwneud cysylltiadau perthnasol â materion sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae'r wybodaeth wedi ei thynnu o dair ffynhonnell ac yn berthnasol. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn dangos gallu da o ran dadansoddi a gwneud cysylltiadau perthnasol â materion sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae'r wybodaeth wedi ei thynnu o dair neu bedair ffynhonnell ac yn berthnasol a digon ohoni. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso.

Ar ben isaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o ddau o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel foddhaol o sgiliau gwerthuso gan drafod a llunio casgliadau byr. Mae'r dysgwyr yn dangos peth meddwl annibynnol a menter er nad yw hyn bob amser yn gywir. Mae angen arweiniad cyfyngedig ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ddau o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel dda o sgiliau gwerthuso, trafod a llunio casgliadau. Mae'r dysgwyr yn dangos peth meddwl annibynnol a menter a dangosir hyn yn y casgliadau sy wedi eu hesbonio'n glir ac wedi eu seilio ar dystiolaeth. Mae angen arweiniad cyfyngedig iawn ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

## Band Marciau 3

Mae'r dysgwyr i gynhyrchu adroddiad clir, manwl a thrylwyr ar fater cymdeithasol neu angen lle sydd o ddiddordeb iddynt.

### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (a):*

Mae'r dysgwyr i ddangos lefel gywir o wybodaeth a dealltwriaeth am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau wrth ddod o hyd i wybodaeth a'r wybodaeth honno'n cael ei thynnu oddi wrth nifer o ffynonellau.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Byddant yn dangos sgiliau da iawn wrth ddod o hyd i wybodaeth a'r wybodaeth honno wedi ei thynnu o ystod eang o wahanol fathau o ffynonellau. Mae'r adroddiad yn gywir ac fel arfer wedi ei esbonio'n dda. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog am wreiddiau mater cymdeithasol neu angen lles. Byddant yn dangos sgiliau ardderchog wrth ddod o hyd i wybodaeth a'r wybodaeth honno wedi ei thynnu o ystod eang o wahanol fathau o ffynonellau. Mae'r adroddiad yn gywir ac wedi ei esbonio'n dda iawn. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (b):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae ffactorau demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles.

Ar ben isaf y band marciau, mae dysgwyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o sut mae tri neu bedwar ffactor demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn gallu rhoi esboniadau da iawn o dri darn o ddata demograffig perthnasol. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mron pob sefyllfa. Mae'n gywir ac fel arfer wedi ei esbonio'n dda. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, mae dysgwyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o sut mae pedwar ffactor demograffig wedi effeithio ar y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn gallu rhoi esboniadau ardderchog o dri darn o ddata demograffig perthnasol. Mae eu hadroddiad yn defnyddio'r eirfa arbenigol gywir ym mhob sefyllfa. Mae'n gywir ac wedi ei esbonio'n dda. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

### *Dyma ofynion tystiolaeth asesu (c):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn dangos y gallu i ddadansoddi a gwneud cysylltiadau perthnasol mewn ffordd resymegol a gallant lunio casgliadau o dystiolaeth.

Ar ben isaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn dangos gallu da iawn o ran dadansoddi a gwneud cysylltiadau perthnasol a chynhwysfawr â materion sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae'r wybodaeth wedi ei thynnu o bedair ffynhonnell o fathau gwahanol ac yn berthnasol. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o gyd-destun cyfoes y mater cymdeithasol neu angen lles. Maent yn dangos gallu ardderchog o ran dadansoddi a gwneud cysylltiadau perthnasol a chynhwysfawr â materion sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae'r wybodaeth wedi ei thynnu o fwy na phedair ffynhonnell o fathau gwahanol ac mae'n berthnasol. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*Dyma ofynion tystiolaeth asesu (ch):*

Mae'r dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau gwerthuso.

Ar ben isaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos lefel dda iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o dri o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel uchel iawn o sgiliau gwerthuso, gan drafod a llunio casgliadau dilys. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel dda o feddwl yn annibynnol a menter. Dim ond weithiau mae angen cymorth ar y dysgwyr i gwblhau'r gwaith.

Ar ben uchaf y band marciau, bydd dysgwyr yn dangos lefel ardderchog o wybodaeth a dealltwriaeth o dri neu bedwar o ymatebion y llywodraeth i'r mater cymdeithasol neu angen lles. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel ardderchog o sgiliau gwerthuso, gan drafod a llunio casgliadau sy'n glir ac wedi eu rhesymu'n dda. Mae'r dysgwyr yn dangos lefel ardderchog o feddwl yn annibynnol a menter. Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol heb angen cymorth o gwbl.

*(Gw. Defnyddio'r Bandiau Marciau yn yr adran Gwybodaeth asesu.)*

## Cyflwyno'r uned hon

- |  |  |
|--|--|
| <p><b>11.1 Newid cymdeithasol, materion cymdeithasol ac anghenion lles</b></p> | <p>Dylid annog dysgwyr i ymchwilio i wreiddiau materion cymdeithasol o ran rhyw, oedran, ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol a.a. Mae'n bwysig pwysleisio i'r dysgwyr yr effaith y mae diwydiannu a newid diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd wedi ei chael ar y grwpiau hyn o ran y rhagfarn, labelu, gwahaniaethu ac eithrio cymdeithasol maent wedi eu hwynebu ac yn dal i'w hwynebu. Ar ben hynny, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith fod y prosesau sydd yn glwm wrth newid cymdeithasol wedi esgor mewn gwirionedd ar fwy byth o eithrio neu ymleiddio i'r grwpiau hyn a bod y newidiadau hyn yn dal i feithrin agweddau negyddol yn y gymdeithas.</p> |
| <p><b>11.2 Newid demograffig a materion cymdeithasol a lles</b></p>            | <p>Mae proffil demograffig y DU wedi newid yn sylweddol dros y 100 mlynedd diwethaf. Mae'n bwysig fod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r termau a gysylltir â demograffeg ac y gallant eu defnyddio'n gywir ac yn berthnasol. Dylid canolbwyntio'r pwyslais ar gyfraddau morbidrwydd cyfredol a sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd a dosbarth cymdeithasol. Hefyd, dylid gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'r esboniadau gwahanol a ddefnyddir o ran anghydraddoldebau mewn iechyd.</p>   |
| <p><b>11.3 Materion cymdeithasol mewn cyd-destun</b></p>                       | <p>Dylid annog dysgwyr i ymchwilio i natur gyfoes materion cymdeithasol yn y DU sydd ohoni. Er na ddisgwylir iddynt gynnwys yr holl faterion a nodir, dylent fod yn ymwybodol y gellir gwneud cysylltiadau rhwng materion ac â ffactorau fel oedran, rhyw, ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol a.a.</p>   |

**11.4 Ymateb y  
llywodraeth i  
faterion  
cymdeithasol ac  
anghenion lles**

Bydd yr ymatebion a geir gan y llywodraeth yn amrywio yn ôl dylanwadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, rhyngwladol a charfannau pwyso. Dylid gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'r rhain. Dylai gwybodaeth dysgwyr fod yn gywir a dylid annog dysgwyr graddau uwch i gymharu a chyferbynnu, dadansoddi ac ymchwilio yn annibynnol i archwilio effeithiolrwydd mentrau cyfredol y llywodraeth. Anogir tiwtoriaid i bwysleisio pwysigrwydd yr UE a sut mae ei rym a'i ddylanwadau yn effeithio'n fwyfwy ar bolisi mewnol y DU.

Dylai'r asesu mewnol ar gyfer yr uned hon fod yn ddarn newydd o waith a ysgrifennwyd yn benodol ar gyfer yr uned hon. Ni ddylai fod yn ddarn o waith a gyflwynwyd ar gyfer uned arall.

---

## Cysylltau

### Unedau eraill

Uned 6: Iechyd Cyhoeddus  
Uned 7: Diwallu Anghenion Unigol  
Uned 10: Defnyddio a Deall Ymchwil

---

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Clarke A — *The Sociology of Health Care* (Pearson Education Ltd, 2001) ISBN 0582369541  
Moore S — *Social Welfare Alive* (Stanley Thornes, 1995) ISBN 0748714022  
Trowler P — *Investigating Health, Welfare and Poverty, 2il Argraffiad* (Harper Collins Ltd, 1996) ISBN 0003224376  
Walsh M et al — *Social Policy and Welfare* (Stanley Thornes, 2000) ISBN 0748745912  
Webb R et al — *Social Issues for Carers* (Hodder Headline Plc, 1994) ISBN 034053598-8  
Young P — *Mastering Social Welfare, 4ydd Argraffiad* (MacMillan Press Ltd, 2000) ISBN 0333973277

### Gwefannau

Adran Iechyd	<a href="http://www.doh.gov.uk">www.doh.gov.uk</a>
Age Concern	<a href="http://www.ace.org.uk">www.ace.org.uk</a>
Campaign for Real Education	<a href="http://www.cre.org.uk">www.cre.org.uk</a>
Comisiwn Cyfle Cyfartal	<a href="http://www.eoc.org.uk">www.eoc.org.uk</a>
Comisiwn Hawliau Anabledd	<a href="http://www.drc-gb.org">www.drc-gb.org</a>
Economeg Gofal Iechyd	<a href="http://www.oheschools.org">www.oheschools.org</a>
Polisi Cyhoeddus a Pholisi Cymdeithasol (ym Mhrifysgol Robert Gordon)	<a href="http://www2.rgu.ac.uk/publicpolicy/main.htm">www2.rgu.ac.uk/publicpolicy/main.htm</a>
Social Science Information Gateway	<a href="http://www.sosig.ac.uk">www.sosig.ac.uk</a>
Society Guardian — Polisi	<a href="http://society.guardian.co.uk/policy">http://society.guardian.co.uk/policy</a>
Undeb Ewropeaidd	<a href="http://europa.eu.int">http://europa.eu.int</a>

## Uned 12: Deall Ymddygiad Dynol

---

U2 uned orfodol

Asesir yn allanol

---

### Cyflwyniad

Bydd yr uned hon yn datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o sut mae ymddygiad dynol yn cael ei ddeall a sut mae'n cael ei gymhwyso i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd yr uned yn eich helpu i ddeall dylanwadau ar ymddygiad a'r effeithiau all ddod yn sgil hynny a sut y gellir defnyddio damcaniaethau am ymddygiad mewn ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol i wneud synnwyr o'r ffordd mae pobl yn ymddwyn, meddwl a theimlo.

Byddwch yn dysgu am bwysigrwydd ymchwil i theori ac i ymarfer iechyd a gofal ac yn darganfod sut mae'r sylfaen gwerthoedd gofal yn cynorthwyo ymarfer gofal.

Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen yn yr asesu allanol yn briodol i'r sefyllfa neu ddefnyddwyr y gwasanaethau yn yr uned hon. Gellid tynnu hynny oddi wrth unrhyw un o'r canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl h n
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cynnwys fel mae'n cael ei nodi yn Beth sydd angen i chi ei ddysgu ac fe gewch eich asesu ar eich gallu i gymhwyso hyn i'r asesu allanol.

---

### Dysgu blaenorol a argymhellir

Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

---

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 12.1 Dylanwadau ar ymddygiad a'u heffeithiau

Bydd angen i chi wybod am y dylanwadau ar ymddygiad dynol a'u deall nhw ynghyd â'r ffordd y gall pobl gael eu heffeithio gan y dylanwadau hyn.

Bydd angen i chi fedru diffinio a disgrifio'r dylanwadau canlynol gan ddefnyddio enghreifftiau o fywyd go iawn sydd wedi eu tynnu o gyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol:

- cymdeithasoli cynnar
- swyddogaethau cymdeithasol
- dosbarth cymdeithasol
- rhyw
- ethnigrwydd/diwylliant
- anabled
- statws economaidd
- gwahanu
- profedigaeth neu golled
- gwahaniaethu annheg
- trais a bwlio.

Bydd angen i chi fedru esbonio sut gall y dylanwadau hyn esgor ar yr effeithiau canlynol gan ddefnyddio enghreifftiau o fywyd go iawn sydd wedi eu tynnu o gyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol:

- hunan-barch isel cynnar
- hunangysyniad negyddol
- straen a methu ag ymdopi
- iselder
- meddwl yn negyddol
- chwalu perthynas
- ymleiddio ac eithrio cymdeithasol
- labelu ac ystrydebu
- caethiwed i gyffuriau.

Byddwch yn deall y gall yr effeithiau fynd yn ddylanwadau eu hunain yn y broses o ddatblygu ymddygiad.

### 12.2 Damcaniaethau ymddygiad dynol

Bydd angen i chi wybod am wahanol dulliau damcaniaethol sy'n ceisio ein helpu i ddeall ymddygiad dynol a sut mae'r rhain wedi cael eu cymhwysu mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys:

- dulliau ymddygiadol
- dulliau gwybyddol
- dulliau seicodynamig
- dulliau dyneiddiol.



## Dulliau ymddygiadol

Bydd angen i chi ddysgu am egwyddorion sylfaenol y dull ymddygiadol gan gynnwys pwysigrwydd ymddygiad arsylladwy a'r pwyslais ar gymdeithasoli.

Bydd angen i chi fedru disgrifio'r termau allweddol canlynol:

- atgyfnerthu a chosbi cadarnhaol a negyddol
- modelu ac atgyfnerthu dirprwyol (*vicarious*)
- ysgogiad ac ymateb cyflyredig ac anghyflyredig ac ysgogiad niwtral
- addasu ymddygiad
- therapi teulu.

Bydd angen i chi fedru esbonio sut y gellir newid ymddygiad yn fwriadol trwy ddefnyddio technegau o'r dull ymddygiadol a disgrifio cryfderau a gwendidau pob un.

Mae'r technegau yn cynnwys:

- systemau economi tocynnau (*token economy systems*) a ddefnyddir mewn ysgolion, carchardai a sefydliadau seiciatrig
- hyfforddiant sgiliau cymdeithasol a ddefnyddir gyda phlant awtistig a dadsensiteiddio systematig a ddefnyddir i oresgyn ffobiâu.

Ar ben hynny, bydd angen i chi fedru esbonio sut y gellid cymhwyso'r technegau hyn i enghraifft benodol (e.e. sut i annog plant i lanhau eu dannedd).

## Dulliau gwybyddol

Bydd angen i chi ddeall egwyddorion sylfaenol y dull gwybyddol gan gynnwys pwysigrwydd prosesu gwybodaeth, gogwyddiadau wrth brosesu gwybodaeth ac uchafiaeth (*primacy*) wybyddol.

Bydd angen i chi fedru disgrifio'r termau allweddol:

- prosesu gwybodaeth
- sgemâu a phrosesu sgematig
- credoau gweithredol a chamweithredol.

Mae angen i chi fedru esbonio sut y gellid defnyddio therapi gwybyddol (e.e. Beck) i drin iselder a phryder a disgrifio cryfderau a gwendidau therapi gwybyddol.

Ar ben hynny, bydd angen i chi fedru esbonio sut y gellid cymhwyso'r dull gwybyddol i enghraifft benodol (e.e. pam gall dau berson mewn sefyllfa debyg o dan bwysau ymateb yn wahanol i'w gilydd).

## Dulliau dyneiddiol

Bydd angen i chi ddeall egwyddorion sylfaenol y dull dyneiddiol gan gynnwys y pwyslais ar dwf a datblygiad, y duedd hunansylweddoliadol (*self-actualising*) i symbylu ymddygiad dynol a datblygiad yr hunangysyniad.

Bydd angen i chi fedru disgrifio'r termau allweddol canlynol:

- hunansylweddoliad (*self-actualisation*)
- yr hunan organebol (*organismic self*)
- hunangysyniad
- amodau gwerth (*conditions of worth*)
- agwedd gadarnhaol ddiamod
- cyfathiant ac anghyfathiant (*incongruence*).
- locws rheoli (mewnol ac allanol).

Bydd angen i chi fedru esbonio sut y gellid defnyddio cynghori person ganolog i drin hunan-barch isel a disgrifio cryfderau a gwendidau cynghori person ganolog.

Bydd angen i chi fedru esbonio sut y gellid cymhwyso'r dull dyneiddiol i enghraifft benodol (e.e. sut byddai gweithiwr cymdeithasol yn gwneud i gleient bregus deimlo'n fwy esmwyth).

### Dulliau seicodynamig

Bydd angen i chi ddeall egwyddorion sylfaenol y dull seicodynamig gan gynnwys pwysigrwydd symbylu anymwybodol a dylanwad perthnasoedd cynnar ar berthnasoedd ac ymddygiad oedolion.

Bydd angen i chi fedru disgrifio'r termau allweddol canlynol:

- ymwybodol ac anymwybodol
- model gweithio mewnol
- ymlyniad pryderus, osgoi a sicr.

Bydd angen i chi fedru esbonio sut y gellid defnyddio'r dull dadansoddi trafodol (*transactional analysis approach*) o gynghori i drin problemau perthynas a disgrifio cryfderau a gwendidau cynghori dadansoddi trafodol.

Bydd angen i chi fedru esbonio sut y gellid cymhwyso'r dull seicodynamig i enghraifft benodol (e.e. pam gallai rhywun ei chael hi'n anodd dod i ymddiried mewn perthynas agos).

### 12.3 Ymddygiad dynol a gwerthoedd gofal

Byddwch yn dysgu am sut mae ymarferwyr iechyd a gofal yn ymgymryd â'u gwaith ar sail ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth bresennol o ymddygiad dynol a sut maent yn dod â gwerthoedd gofal i mewn i'r broses hon.

Byddwch yn dysgu am sut mae sail gwerthoedd gofal yn effeithio ar agweddau ac ymarfer mewn iechyd a gofal a sut mae'n effeithio ar y strategaethau a ddefnyddir i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau.

Byddwch yn deall sut mae'r egwyddorion o fewn y sylfaen gwerthoedd gofal, fel parch a rhoi grym, yn ddylanwadau ynddynt eu hunain ar ymddygiad dynol wrth iddynt gael eu hymarfer mewn sefyllfa gofal.

---

## Tystiolaeth asesu

Asesir yr uned trwy arholiad ysgrifenedig 1½ awr y cewch ei sefyll ym mis Ionawr neu Fehefin.

Bydd y prawf allanol yn asesu eich dealltwriaeth o sylfaen wybodaeth yr uned a'ch gallu i'w chymhwyso. Amlinellir hyn yn adrannau *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* yr unedau.

Bydd y prawf allanol yn cynnwys cyfres o gwestiynau strwythuredig wedi eu seilio ar astudiaethau achos.

Gellid gosod cwestiynau ar y sefyllfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am yr henoed
- unigolion ag anghenion penodol.

Bydd y deunydd yn yr astudiaethau achos yn tynnu ar:

- a ddylanwadau cynnar ar ymddygiad a'u heffeithiau
  - b damcaniaethau ymddygiad dynol
  - c ymchwil ac ymddygiad dynol
  - ch ymddygiad dynol a gwerthoedd gofal.
-

## Cyflwyno'r uned hon

### Cyffredinol

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth am ymddygiad dynol i ddysgwyr ac, ar ben hynny, mae'n ceisio eu hannog i archwilio sut gallai'r deall yma gael ei gymhwyso mewn cyd-destunau galwedigaethol, bywyd go iawn. Gall llawer o'r dysgu yn yr uned hon, felly, ddigwydd trwy ddefnyddio astudiaethau achos cleient ac ymarfer gofal. Gall trafodaethau, senarios ac efelychu chwarae rôl fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu gallu'r dysgwyr o ran cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i sefyllfaoedd sylfaenol ond realistig. Hefyd, gall arsylwi ymarfer o fewn sefyllfaoedd profiad gwaith fod yn ddefnyddiol o ran cynhyrchu syniadau a datblygu dealltwriaeth fwy ymarferol o sylfaen ddamcaniaethol yr uned. Fodd bynnag, bydd yn bwysig esbonio, trafod ac atgyfnerthu'r cysyniad o gyfrinachedd ac ystyriaethau moesegol eraill all godi.

### 12.1 Dylanwadau ar ymddygiad a'u heffeithiau

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad a'r math ar effeithiau all fod yn ganlyniad i hynny. Gallai dull astudiaethau achos weithio i gynnal diddordeb gan adael i ddysgwyr ganolbwyntio ar y llwybr sydd o ddiddordeb iddynt. Gallai gwybodaeth ystadegol, gan gynnwys data demograffig, fod o gymorth o ran datblygu gwybodaeth am ddylanwadau ac effeithiau.

Bydd angen i ddysgwyr fedru diffinio ac esbonio'r defnydd o'r termau a restrir yn y fanyleb fel cymdeithasoli, swyddogaeth AAA. Bydd angen iddynt ddeall sut mae ymddygiad pobl yn cael ei effeithio a'i ddylanwadu trwy brosesau a gysylltir â'r syniadau hyn.

Hefyd, mae angen i ddysgwyr ddysgu am effeithiau'r dylanwadau hyn ar bobl. Unwaith eto, gall cyfuniad o astudiaethau achos a dulliau ystadegol/demograffig helpu o ran cynnal cymhelliant a gadael i ddysgwyr ddeall y gwahanol lefelau o dystiolaeth y gellir eu cymhwyso i'r syniadau hyn.

Gall dysgwyr edrych ar sut gall effeithiau eu hunain fynd yn ddylanwadau a dylent ddechrau gwerthfawrogi natur ddynamig datblygiad ymddygiad.

### 12.2 Damcaniaethau ymddygiad dynol

Dylid annog dysgwyr i weld damcaniaethau fel cyfrwng i gynnig nifer o fodelau esboniadol am ein hymddygiad. Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o gysyniadau sylfaenol a phrif ffocws pob un o'r pedwar dull damcaniaethol a nodir yn y fanyleb. Nid oes angen gwybodaeth neu ddealltwriaeth fanwl dros ben o'r dulliau ar y dysgwyr er dylent wybod pa agweddau ar ymddygiad dynol sy'n cael eu trin yn bennaf ym mhob dull. Dylai hyn alluogi dysgwyr i drafod cryfderau a chyfyngiadau pob dull o safbwynt sut y gallant ein helpu i ddeall ac esbonio ymddygiad dynol. Dylai fod gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol o'r derminoleg a gysylltir â phob dull a dylent allu defnyddio a chymhwyso hyn yn gywir.

Dylid annog dysgwyr i beidio â chymharu'r gwahanol dulliau ar sail pa un sy'n cynnig yr esboniad cyffredinol 'gorau' am ymddygiad dynol. Yn lle hynny, dylid eu hannog i nodi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau penodol pob dull mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol.

Mae'n debyg y bydd cyflwyno'r uned yn cynnwys astudiaethau achos a strategaethau 'cymhwysol' eraill sy'n rhoi gwybodaeth ddamcaniaethol mewn cyd-destun gyda senarios realistig a deunydd astudiaethau achos enghreifftiol. Mae'n debyg y bydd dysgwyr yn ei chael hi'n haws ymwneud â senarios sydd ag elfen alwedigaethol a 'diddordeb dynol' sylweddol yn hytrach nag ymwneud yn uniongyrchol â chysyniadau a dulliau damcaniaethol. Mae'n well i'r dysgwyr fynd at y rhain trwy ymchwilio i ffyrdd posibl o ddefnyddio theori i 'wneud synnwyr' o'r materion neu broblemau a geir yn y senarios.

### 12.3 Ymddygiad dynol a gwerthoedd gofal

Mae angen i ddysgwyr ddysgu bod ymarfer iechyd a gofal yn cymryd theori ac ymchwil fel man cychwyn ar gyfer gweithredu ond bod syniadau o hawliau a gwerthoedd, yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth, yn cael sylw.

Mae angen i ddysgwyr edrych ar y sylfaen gwerthoedd gofal yn fanwl ac ystyried ei pherthynas â theori, ymchwil a'n dealltwriaeth o ymddygiad dynol a'i ganlyniadau.

Gall fod yn ddefnyddiol edrych ar ddeunydd astudiaethau achos ac archwilio sut mae theori ac ymchwil yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o sefyllfaoedd a sut mae'r sylfaen gwerthoedd gofal yn gweithio i ddatblygu'r dealltwriaeth yma yn gweithredu ymarferol mewn iechyd a gofal. Dylai senarios helpu egluro'r berthynas rhwng canfyddiad problem, cymhwyso'r sylfaen gwerthoedd gofal wrth ddatblygu atebion a chymhwyso theori yn y canlyniad y mae disgwyl a gobaith amdano.

Hefyd, mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o'r sail ddamcaniaethol am y canlyniadau a ddisgwylir trwy gymhwyso'r sylfaen gwerthoedd gofal ei hunan. Gellid gwneud hyn trwy edrych ar y canlyniadau a ddisgwylir yn ddamcaniaethol yn sgil cymhwyso agweddau ar y sylfaen gwerthoedd gofal fel parch a rhoi grym, mewn senario astudiaeth achos.

---

## Cysylltau

### Unedau eraill

Uned 3: Amgylcheddau Gofal Cadarnhaol

Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

### Dyfarniadau TAG eraill

Mae dyfarniadau TAG eraill, gan gynnwys UG ac U2 Seicoleg a Chymdeithaseg yn cynnwys dulliau seicolegol, cysyniadau cymdeithasegol a materion yn ymwneud ag ymddygiad. Gall y rhain gynnwys deunydd cyflenwol i ategu'r dysgu yn yr uned hon.

### Dyfarniadau galwedigaethol eraill

Mae Dyfarniadau Cenedlaethol BTEC Nationals mewn Astudiaethau Gofal ac Iechyd yn cynnwys unedau sy'n cyfeirio at lawer o'r dulliau seicolegol a chysyniadau cymdeithasegol sy'n cael eu cynnwys yn yr uned hon.

---

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Flanagan C et al — *Angles on Psychology* (Nelson Thornes, 2000)  
ISBN 0748756922

Gross R — *Psychology: The Science of Mind and Behaviour* (Hodder and Stoughton, 2001) ISBN 0340079061X

Holden C et al — *Further Studies for Social Care* (Hodder and Stoughton, 2000) ISBN 0340655267

Thompson H et al — *Health and Social Care* (Hodder and Stoughton, 2000)  
ISBN 0340775475

### Gwefannau

Adran Iechyd	<a href="http://www.doh.gov.uk">www.doh.gov.uk</a>
Age Concern	<a href="http://www.ace.org.uk">www.ace.org.uk</a>
Awdurdod Addysg Iechyd	<a href="http://www.hea.org.uk">www.hea.org.uk</a>
BBC	<a href="http://www.bbc.co.uk">www.bbc.co.uk</a>
Comisiwn Cyfle Cyfartal	<a href="http://www.eoc.org.uk">www.eoc.org.uk</a>
Comisiwn Hawliau Anabled	<a href="http://www.drc-gb.org">www.drc-gb.org</a>
Ein Gwlad Iachach	<a href="http://www.ohn.org.uk">www.ohn.org.uk</a>
Mind	<a href="http://www.mind.org.uk">www.mind.org.uk</a>
Social Science Information Gateway	<a href="http://www.sosig.ac.uk">www.sosig.ac.uk</a>
Y Gymdeithas Brydeinig er Cyngori a Seicotherapi	<a href="http://www.bacp.co.uk">www.bacp.co.uk</a>

---

# Gwybodaeth asesu

---

## Amcanion asesu

Mae pedwar amcan asesu ar gyfer TAGau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhain yn rhoi manylion yr wybodaeth, y sgiliau a'r dealltwriaeth y mae gofyn i ddysgwyr eu dangos.

Am y fanyleb hon, mae'r pwysiodau ar gyfer pob amcan asesu fel a ganlyn:

Am fanylion llawn yr amcanion asesu gw. tudalen 151.

Amcanion asesu		Pwysiad		
		UG	U2	TAG Uwch Gyfrannol a TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl)
AA1	Gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau	30-40%	10-30%	20-35%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau	20-30%	20-30%	20-30%
AA3	Ymchwil a dadansoddi	15-25%	25-35%	20-30%
AA4	Gwerthuso	15-25%	25-35%	20-30%

## Asesu allanol

### *Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol*

Bydd y dystiolaeth asesu ar ffurf arholiad ysgrifenedig 1½ awr. Bydd yr arholiad yn cynnwys cyfres o gwestiynau strwythuredig wedi eu seilio ar astudiaethau achos ac ar ben hynny gofynnir i'r dysgwyr gynnal dadansoddiad o'r materion a'r problemau a gyflwynir yn yr astudiaethau achos. Bydd yr arholiad ar gael ym mis Ionawr a mis Mehefin.

### *Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw*

Bydd y dystiolaeth asesu ar ffurf arholiad ysgrifenedig 1½ awr. Rhoddir nifer o senarios byr, astudiaethau achos a datganiadau adnoddau ysgogi. Gofynnir am amrywiaeth o ymatebion strwythuredig byr ac ymatebion ysgrifenedig estynedig gan y dysgwyr. Bydd gwaith y dysgwyr yn dangos tystiolaeth o ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar iechyd a lles, dewis dull o fyw a digwyddiad yn ystod eu bywyd a pherthynas ymarferwr gofal/defnyddiwr gwasanaethau o fewn sefyllfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd yr arholiad ar gael ym mis Ionawr a mis Mehefin.

### *Uned 7: Diwallu Anghenion Unigol*

Bydd y dystiolaeth asesu ar gyfer yr uned hon yn cynnwys arholiad ysgrifenedig 1½ awr. Gofynnir i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut mae anghenion unigolion yn cael eu diwallu mewn sefyllfaoedd gofal cymdeithasol ar gyfer iechyd, blynyddoedd cynnar, gofalu am bobl h n ac unigolion ag anghenion penodol. Dyma'r prawf synoptig ar gyfer TAG. Bydd yr arholiad ar gael ym mis Ionawr a mis Mehefin.

## Uned 12: Deall Ymddygiad Dynol

Bydd y dystiolaeth asesu ar ffurf prawf ysgrifenedig 1½ awr. Bydd y prawf yn asesu dealltwriaeth dysgwyr o sylfaen wybodaeth yr uned ynghyd â'u gallu i'w chymhwyso a bydd yn cynnwys cyfres o gwestiynau strwythuredig wedi eu seilio ar astudiaethau achos. Bydd yr arholiad ar gael ym mis Ionawr a mis Mehefin.

## Asesu mewnol

### Arolygu dysgwyr a dilysu gwaith a gyflwynir

Rhaid i ddysgwyr gyflwyno portffolio o waith ar gyfer pob uned a asesir yn fewnol. Disgwylir i athrawon dywys a chynghori dysgwyr ar gynhyrchu eu portffolios. Dylai athrawon fonitro cynnydd i sicrhau bod y gwaith yn briodol i ofynion y fanyleb. Mae Cod Ymarfer TGAU, TAG a CGCC yn mynnu bod aseswyr yn cofnodi manylion llawn natur unrhyw gymorth a roddwyd i ddysgwyr unigol y tu hwnt i'r hyn a roddir i'r grŵp dysgu yn gyfan, ond o fewn y ffiniau a nodir yn y fanyleb hon. Dylid ystyried lefel y cymorth a roddwyd wrth asesu gwaith y dysgwyr; nodir hyn yn yr adran ganllaw sy'n perthyn i bob uned yn y fanyleb hon a asesir yn fewnol. Yn ogystal rhaid bod digon o waith yn cael ei wneud o dan arolygiaeth uniongyrchol i ganiatáu i'r athro sy'n marcio'r gwaith ddilysu gwaith pob dysgwr yn hyderus.

Mae'n rhaid i dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer yr unedau a asesir yn fewnol fod yn briodol i'r sefyllfa neu'r defnyddiwr gwasanaethau a ddewiswyd ar gyfer yr uned. Gellir dewis hyn o blith y canlynol:

- iechyd
- blynyddoedd cynnar (gofal ac addysg)
- gofalu am bobl hŷn
- unigolion ag anghenion penodol.

Mae'n rhaid ymdrin â'r cynnwys yn unol â'r hyn a nodir yn yr adran Beth sydd angen i chi ei ddysgu ac asesir dysgwyr ar eu gallu i ddethol a chymhwyso hyn i'r cyd-destun yn y gweithle y maent wedi ei ddewis.

Os caiff sgiliau ymarferol dysgwyr eu hasesu, mae'n bwysig fod datganiadau/rhestrau gwirio tystion yn cael eu cwblhau gan aseswyr i ddilysu gwaith a dysgwyr a rhoi tystiolaeth fod dysgwyr wedi cyflawni'r lefel perfformiad sydd ei hangen yn y grid meini prawf asesu.

### Defnyddio'r bandiau marciau

Caiff portffolios eu marcio gan y ganolfan, a'u safoni'n allanol gan Edexcel. Mae gan bob un o'r unedau a asesir yn fewnol grid meini prawf asesu, wedi ei rannu'n dri band marciau eang, gan ddangos sut i ddyfarnu marciau mewn perthynas â'r dasg a'r amcanion asesu. Mae'r gridiau meini prawf asesu'n nodi'r deilliannau asesu angenrheidiol yn ogystal ag ansawdd y deilliannau y mae eu hangen i ddangos cyrhaeddiad ym mhob un o'r bandiau marciau. Yn gyffredinol, dyma nodweddion cynnydd ar draws y bandiau.

- Mae'r grid meini prawf asesu'n dangos dyraniad marciau trwy feini prawf asesu a thrwy fand marciau. Dylid defnyddio'r grid hwn i bennu marciau am gyrhaeddiad dysgwr ym mhob uned. Gall dysgwyr gael marciau mewn gwahanol fandiau am bob Amcan Asesu. Bydd cyfanswm y marciau a gyrhaeddir yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r dysgwr wedi cwrdd â'r meini prawf asesu yn gyffredinol.
- O fewn pob maen prawf asesu, mae'n egwyddor gyffredinol fod modd i wendidau mewn rhai agweddau o'r gofynion asesu gael eu cydbwyso gan well perfformiad mewn eraill. Serch hynny, y mae hi hefyd yn bwysig nodi fod rhaid cyflawni'r holl ofynion er mwyn cael marciau llawn mewn unrhyw faen prawf asesu penodol.
- Dylid dyfarnu marciau yn ôl y meini prawf am bob llinyn a nodir yn y grid marcio, a dylai aseswyr ddefnyddio'u barn broffesiynol lle y mae hyn yn berthnasol. Mae'r adran *Tystiolaeth Asesu* ym mhob uned yn rhoi manylion penodol ar sut y dylid neilltuo marciau.



- Ni ddylid bod unrhyw betruster rhag defnyddio'r ystod lawn o farciau, ac os oes haeddiant, dylai aseswyr ddyfarnu marciau llawn. Dylid ystyried ymatebion dysgwyr yn gadarnhaol. Ni ddylid rhoi marc o 0 ond lle nad yw gwaith y dysgwr yn cyrraedd unrhyw un o'r meini prawf angenrheidiol.
- Mae hawl gan bob dysgwr i gael cyfarwyddyd cychwynnol wrth gynllunio eu gwaith, ond dylid ystyried lefel y cymorth pan gaiff eu gwaith ei asesu. Yn y gridiau meini prawf asesu, cyfeirir at ddysgwyr yn gweithio gyda 'pheth cefnogaeth a chyfarwyddyd', 'gyda chyfarwyddyd cyfyngedig' ac 'yn annibynnol'. Wrth farcio'r gwaith, dylai aseswyr ddefnyddio'r canllawiau canlynol.
  - '*Peth cefnogaeth a chyfarwyddyd*': Mae rhaid i'r dysgwr gael ei dywys a'i gynghori trwy'r cyfan i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae'r dysgwr yn dibynnu ar gefnogaeth yr athro, a rhaid i hwn roi cymorth yn y rhan fwyaf o agweddau'r gwaith. Mae lefel y gefnogaeth yn cyfyngu marc y dysgwr i fand 1, beth bynnag fo ansawdd y deilliannau.
  - '*Cyfarwyddyd cyfyngedig*': Mae'r athro'n cefnogi'r dysgwyr ar y cychwyn wrth ddewis y testun i'w archwilio. Yna mae'r athro'n ymateb i gwestiynau'r dysgwr ac yn awgrymu amrywiaeth o syniadau ac mae'r dysgwyr yn gweithredu ar sail y rhain. Mae'r dysgwr yn aml yn gwirio manylion. Mae angen i'r athro gynorthwyo yn rhai agweddau o'r gwaith. Mae lefel y gefnogaeth yn cyfyngu marciau'r dysgwr i fandiau 1 neu 2, beth bynnag fo ansawdd y deilliannau.
  - '*yn annibynnol*': Mae'r athro'n cefnogi'r dysgwr ar y cychwyn wrth ddewis y testun ar gyfer yr archwiliad neu dasg. Wedi hynny, mae'r athro weithiau'n rhoi cymorth i'r dysgwr, ond dim ond pan gaiff gais, ond mae'n monitro cynnydd trwy'r cyfan. Mae'r lefel hon o gefnogaeth yn rhoi modd i gyrraedd y tri band o farciau.
- Ar gyfer dibenion cadw cofnod, efallai y bydd canolfannau am wneud copi o'r grid marcio i bob dysgwr a'i ddefnyddio i gofnodi'r marc am yr uned honno. Mae Cod Ymarfer TGAU, TAG, CGCC yn mynnu bod aseswyr yn dangos yn glir sut y caiff credyd ei roi. Caiff canllawiau ar sut y gellir gwneud eu cynnwys yn y deunydd cefnogi ar wahân a fydd yn dod gyda'r fanyleb hon.

## Gwahaniaethu ar draws unedau UG ac U2

Nodweddir gwahaniaethu ar draws unedau UG ac U2 yn gyffredinol gan:

- cynnydd o ran dyfnder ac ehangder dealltwriaeth
- cynnydd o ran defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau
- cynnydd o ran dadansoddi, cydgrynhoi a chlориannu
- cynnydd o ran annibyniaeth.

Mae gwahaniaethu hefyd yn digwydd trwy gynnwys yr unedau. Mae cynnwys uned UG yn ffurfio'r wybodaeth a'r dealltwriaeth sylfaenol sy'n sail i'r cysyniadau lefel uwch a geir yn yr unedau U2.

Mae asesu synoptig yn digwydd yn U2 yn Uned 7. Fe'i cynlluniwyd i gydgyssylltu'r cysyniadau, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws y cwrs cyfan. Caiff ei asesu trwy arholiad ysgrifenedig 1½ awr. Bydd yr arholiad yn cynnwys cyfres o gwestiynau strwythuredig sy'n gadael i ddysgwyr ddangos gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad o sut mae gwasanaethau yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion unigolion a sut gallant fod yn atebol trwy'r trefnau sicrwydd ansawdd a ddefnyddir mewn ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol. Defnyddir nifer o astudiaethau achos yn yr arholiad.

## Safoni a chymedroli

Lle y mae marcio am y fanyleb wedi ei wneud gan un neu ragor o aseswyr mewn canolfan, mae'n rhaid cael proses o safoni mewnol i sicrhau bod defnydd cyson o'r meini prawf, fel y'u nodwyd yn y gridiau meini prawf asesu.

Caiff marciau a ddyfernir gan y ganolfan eu cymedroli'n allanol gan Edexcel. Bwriad hyn yw sicrhau cysondeb â safonau cenedlaethol. Caiff sampl o bortffolios dysgwyr eu harholi, a chaiff marciau eu cymhwyso lle y cafwyd eu bod yn amrywio o'r safon genedlaethol. Os yw'r broses gymedroli'n dangos bod defnydd anghyson wedi ei wneud o'r meini prawf asesu gan aseswyr y ganolfan, mae Edexcel yn cadw'r hawl i ddychwelyd y sampl o waith er mwyn i safoni mewnol ddigwydd eto.

## Iaith yr asesu

Bydd asesu ar gyfer y fanyleb hon ar gael fel arfer yn Saesneg yn unig. Caiff deunyddiau asesu eu cyhoeddi fel arfer yn Saesneg yn unig a rhaid i bob gwaith ysgrifenedig a llafar a gyflwynir i'w arholi a'i safoni ei gyflwyno yn Saesneg. Nodir yr eithriad isod.

## Datganiad Cymraeg

Caiff y cymhwyster hwn ei asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae angen i ganolfannau roi gwybod i Edexcel am eu ceisiadau sydd am ddefnyddio'r Gymraeg erbyn y dyddiad a gyhoeddir yn *Llawlyfr Gwybodaeth* Edexcel.

Dylai canolfannau sydd am gynnig y cymhwyster hwn trwy gyfrwng y Gymraeg gysylltu â'r swyddfa ranbarthol (manyllion i ddod) a fydd yn falch o gynnig cyngor.

Rheolwr Swyddfa Ranbarthol Cymru  
Edexcel Cymru  
Uned C  
Fairway House  
Links Business Park  
Llaneirwg  
Caerdydd CF3 0LT

Ffôn: 0292 079 4865

Ffacs: 0292 036 2830

## Gofynion statudol

Gwneir yr holl asesu ar gyfer y fanyleb hon yn unol â Chod Ymddygiad TGAU, TAG a CGCC, a gyhoeddir yn flynyddol gan yr awdurdodau rheoli.

# Gwybodaeth graddio

---

## Bandiau marciau

Mae'r asesiadau wedi eu cynllunio i ganiatáu i ymgeiswyr ddangos cyrhaeddiad cadarnhaol ac i gael profiad cadarnhaol wrth gwblhau pob asesiad.

Yn unol â'r uchod, mae'r meini prawf am asesu pob aseiniad wedi eu hysgrifennu fel y dylai ymgeisydd sy'n gweithio ar ben isaf amrediad gallu TAG allu cwrdd yn fras ag 80 y cant o feini prawf band 1. Mae hyn yn cyfateb yn fras i 40 y cant o gyfanswm y credydau sydd ar gael am yr aseiniad.

## Graddio, cydgrynhoi a chywerthedd

Caiff y radd gyfan am:

- cymwysterau Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Sengl) ei graddio ar raddfa pum gradd o A i E gydag A yn radd uchaf
- cymwysterau Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) ei graddio ar raddfa naw gradd o AA i EE, gydag AA yn radd uchaf
- cymwysterau TAG (Dyfarniad Sengl) ei raddio ar raddfa pum gradd o A i E, gydag A yn radd uchaf
- cymwysterau TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl) eu graddio ar raddfa naw gradd o AA i EE, gydag AA yn radd uchaf.

Nid yw'r bandiau marciau a ddefnyddir am asesu mewnol yn perthyn i ffiniau graddau a bennwyd o flaen llaw. Yn dilyn pob cyfres arholi a safoni bydd Edexcel yn gosod y ffiniau graddau am unedau a asesir yn fewnol ac am unedau a asesir yn allanol mewn cyfarfod dyfarnu.

Caiff y ffiniau marciau crai eu trosi i farciau unffurf ar raddfa o 0-100. Caiff y radd derfynol am y cymhwyster ei phennu trwy gydgrynhoi'r marciau unffurf am yr unedau. Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion y graddfeydd marciau unffurf (GMU) a ddefnyddir am yr unedau ac am y cymhwyster.

## Canlyniadau uned

Y marciau unffurf lleiaf y mae eu hangen am bob gradd:

Gradd uned	A	B	C	D	E
Marc unffurf uchaf = 100	80	70	60	50	40

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd E farc unffurf o fewn ystod 0-39.

## Canlyniadau cymwysterau

Y marciau unffurf isaf y mae eu hangen am bob gradd:

### Uwch Gyfrannol

Gradd Cymhwyster	A	B	C	D	E
Marc unffurf uchaf = 300	240	210	180	150	120

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd E farc unffurf o fewn ystod 0-119.

### TAG Uwch

Gradd cymhwyster	A	B	C	D	E
Marc unffurf uchaf = 600	480	420	360	300	240

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd E farc unffurf o fewn ystod 0-239.

### Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl)

Gradd cymhwyster	AA	AB	BB	BC	CC	CD	DD	DE	EE
Marc unffurf uchaf = 600	480	450	420	390	360	330	300	270	240

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd EE farc unffurf o fewn ystod 0-239.

### TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl)

Gradd cymhwyster	AA	AB	BB	BC	CC	CD	DD	DE	EE
Marc unffurf uchaf = 1200	960	900	840	780	720	660	600	540	480

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd E farc unffurf o fewn ystod 0-479.

## Disgrifiadau perfformiad

Rhoddir y disgrifiadau perfformiad ar gyfer y pwnc hwn yn *Atodiad CH*.

## Pwysiadau amcanion asesu

Uned	AA1	AA2	AA3	AA4
1**	30-40%	20-30%	15-25%	15-25%
2*	33.33%	30.00%	18.33%	18.33%
3*	33.33%	30.00%	18.33%	18.33%
4**	30-40%	20-30%	15-25%	15-25%
5*	33.33%	30.00%	18.33%	18.33%
6*	33.33%	30.00%	18.33%	18.33%
7**	10-30%	20-30%	25-35%	25-35%
8*	21.66%	21.66%	28.33%	28.33%
9*	21.66%	21.66%	28.33%	28.33%
10*	21.66%	21.66%	28.33%	28.33%
11*	21.66%	21.66%	28.33%	28.33%
12**	10-30%	20-30%	25-35%	25-35%

\* Dylid rhoi pwysiad penodol mewn unedau a asesir yn fewnol ar gyfer pob amcan asesu.

\*\* Dylid rhoi ystod o bwysiadau mewn unedau a asesir yn allanol ar gyfer pob amcan asesu.

## Amcanion asesu

AA1	Gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau – Mae ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol.
AA2	Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau – Mae ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.
AA3	Ymchwil a dadansoddi – Mae ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i ddod o hyd i wybodaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau. Mae ymgeiswyr yn dadansoddi materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.
AA4	Gwerthuso – Mae ymgeiswyr yn gwerthuso tystiolaeth, yn ffurfio barn ac yn llunio casgliadau am faterion sy'n ymwneud â'r gweithle.



# Gwybodaeth ychwanegol

---

## Gwneud cais am y cymhwyster hwn

Mae manylion am sut i gyflwyno ymgeiswyr am y cymhwyster hwn i'w cael yn *Llawlyfr Gwybodaeth* Edexcel. Caiff copiâu o hwn eu hanfon i bob swyddog arholiadau. Ceir gwybodaeth hefyd ar wefan Edexcel: [www.edexcel.org.uk](http://www.edexcel.org.uk).

## Ailsefyll

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gellir rhoi cais ar uned cyn hawlio ardystiad am y cymhwyster. Bydd y canlyniad gorau sydd ar gael am bob uned yn cyfrif tuag at y radd derfynol.

Cedwir canlyniadau unedau yng nghronfa ddata Edexcel am gynifer o flynyddoedd ag y bydd y fanyleb hon yn para. Ar ôl i gymhwyster lefel Uwch neu UG gael ei ardystio, bernir bod yr holl ganlyniadau uned wedi eu defnyddio. Ni ellir defnyddio'r canlyniadau hyn eto tuag at ddyfarniad pellach o'r un cymhwyster ar yr un lefel.

## Argaeledd

Dyma bolisi Edexcel ar argaeledd ein cymwysterau:

- rhaid iddynt fod ar gael i bawb sy'n gallu cyrraedd y safon angenrheidiol
- rhaid iddynt fod yn rhydd o rwystrau sy'n cyfyngu argaeledd a chynnydd
- mae cyfleoedd cyfartal yn bod i bob dysgwr.

## Dysgwyr â gofynion penodol

Efallai y bydd ar ddysgwyr â gofynion penodol angen cefnogaeth ychwanegol, er enghraifft cymhorthion technegol neu ddulliau asesu sydd wedi eu haddasu neu eu dyfeisio'n arbennig, gydag amser ychwanegol os oes angen.

Bydd Edexcel yn asesu a ellir, neu a oes angen rhoi ystyriaeth neu gonsesiynau arbennig i ddysgwyr â gofynion penodol. Dylid anfon ceisiadau at:

Special Requirements  
Edexcel  
One90 High Holborn  
London WC1V 7BH

## Y cwricwlwm ehangach

### Sgiliau allweddol

Mae'r fanyleb hon yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu a chynhyrchu tystiolaeth i asesu'r sgiliau allweddol a restrir isod:

- cymhwyso rhif
- cyfathrebu

- technoleg gwybodaeth
- gwella eich dysgu a'ch perfformiad
- datrys problemau
- gweithio gydag eraill.

Mae *Atodiad B* yn mapio'r cyfleoedd sydd ar gael ar lefel 3. Lle y bo'n briodol, dylid croesgyfeirio'r cyfleoedd hyn yn uniongyrchol, ar lefel(au) penodedig, i'r meini prawf a restrir yn Rhan B y manylebau sgiliau allweddol.

## Cysylltiadau ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol (YMMCD) a rhai ehangach eraill yn y cwricwlwm

Mae'r fanyleb hon yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol, ynghyd ag ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol, ystyriaethau iechyd a diogelwch, a datblygiadau Ewropeaidd sy'n gyson â chytundebau rhyngwladol priodol fel y'u cymhwysir i'r sector lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae *Atodiad C* yn mapio'r cyfleoedd sydd ar gael.

## Cefnogaeth i athrawon

Mae amrediad llawn o ddeunydd cefnogi wedi ei gynllunio ar gyfer pob TAG yn y gyfres hon. Mae'r amrediad yn cynnwys:

- profion enghreifftiol a chynlluniau marcio cysylltiedig
- deunyddiau enghreifftiol i gyflwyno'r unedau — pecynnau cefnogi tiwtoriaid
- deunyddiau enghreifftiol i asesu'r unedau mewnol
- adroddiadau Prif Arholwyr
- gwefan Edexcel — [www.edexcel.org.uk](http://www.edexcel.org.uk).

Mae Edexcel yn cyflwyno rhaglen HMS lawn i gefnogi'r TAGau hyn. Y mae'n cynnwys cynadleddau generig a phwnc-benodol, seminarau, gweithdai a digwyddiadau wedi eu teilwra ar gyfer canolfannau unigol.

Ceir gwybodaeth bellach am raglenni HMS o'r Gwasanaeth i Gwsmeriaid ar 0870 240 9800.

Gellir cael gwybodaeth ar ddeunyddiau cefnogi oddi wrth:

Edexcel Publications  
Adamsway  
Mansfield  
Notts NG18 4FN

Ffôn: 01623 467467  
Ffacs: 01623 450481  
E-bost: [publications@linneydirect.com](mailto:publications@linneydirect.com)



# Atodiadau

---

Atodiad A: Mapio sgiliau allweddol

Atodiad B: Awgrymiadau datblygu sgiliau allweddol

Atodiad C: Y cwricwlwm ehangach

Atodiad CH: Disgrifiadau perfformiad



## Atodiad A: Mapio sgiliau allweddol

Sgiliau allweddol (lefel 3)	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6	Uned 7	Uned 8	Uned 9	Uned 10	Uned 11	Uned 12
<b>Cymhwyso rhif</b>												
Rh3.1	✓			✓			✓		✓			
Rh3.2	✓			✓			✓		✓			
Rh3.3	✓			✓			✓		✓			
<b>Cyfathrebu</b>												
C3.1a					✓	✓			✓		✓	
C3.1b						✓			✓		✓	
C3.2					✓	✓			✓		✓	
C3.3					✓	✓			✓		✓	
<b>Technoleg gwybodaeth</b>												
TGCh3.1			✓				✓	✓				
TGCh3.2			✓				✓	✓				
TGCh3.3			✓		✓		✓	✓				
<b>Gwellu eich dysgu a'ch perfformiad</b>												
GDP3.1	✓			✓			✓			✓		✓
GDP3.2	✓			✓			✓			✓		✓
GDP3.3	✓			✓			✓			✓		✓

Sgiliau allweddol (lefel 3)	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6	Uned 7	Uned 8	Uned 9	Uned 10	Uned 11	Uned 12
Datrys problemau												
DP3.1		✓	✓		✓			✓				
DP3.2		✓	✓		✓			✓				
DP3.3		✓	✓		✓			✓				
Gweithio gydag eraill												
GE3.1					✓					✓		
GE3.2					✓					✓		
GE3.3					✓					✓		

## Atodiad B: Awgrymiadau datblygu sgiliau allweddol

### Cymhwyso rhif – Iefel 3

Gynllunio a chyflawni o leiaf un gweithgaredd neu fwy sy'n cynnwys tasgau ar gyfer Rh3.1, Rh3.2 (a neu b neu c neu ch) a Rh3.3 yr un.

Yn gyffredinol, trwy ddefnyddio un neu fwy o weithgareddau, mae'n rhaid i chi:

- ddefnyddio dau wahanol fath o ffynhonnell, gan gynnwys set data fawr h.y. mwy na 50 eitem o ddata (Rh3.1)
- gwneud cyfrifiadau sy'n ymwneud ag a, b, c a ch (Rh3.2)
- cyflwyno canfyddiadau mewn dwy ffordd wahanol gan ddefnyddio siartiau, graffiau neu ddiagramau (Rh3.3).

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
Rh3.1 Cynllunio gweithgaredd a chasglu gwybodaeth berthnasol o ffynonellau perthnasol.	1, 4	Cynllunio ymchwiliad i'r berthynas rhwng e.e. cyfradd twf, mesurau iechyd a lles defnyddwyr gwasanaethau ac amrywiaeth o ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol fel amgylchedd y gymdogaeth, ymddygiad dull o fyw, dosbarth cymdeithasol, addysg a statws gwaith.
	7	Cynllunio ymchwiliad i ariannu gwasanaethau iechyd/gofal cymdeithasol gan y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat.
	9	Cynllunio ymchwiliad i'r cysylltiad rhwng dosbarthiad clefydau mewn grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr gwasanaethau a'r strategaethau sydd mewn lle i leihau'r perygl o glefyd.  Gellid casglu data gan ddefnyddio technegau casglu data cynradd a/neu ffynonellau eilaidd gan gynnwys deunydd rhifiadol, ysgrifenedig a graffigol (cymhleth) a geir mewn cyfeirlyfrau a gwrslyfrau, cylchgronau a phapurau newyddion arbenigol, Adroddiadau Blynyddol, gwefannau rhyngwrwyd a.a.

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
<p><b>Rh3.2</b> Defnyddio'r wybodaeth hon i wneud cyfrifiadau amlran sy'n ymwneud â:</p> <p>a niferoedd neu feintiau</p> <p>b graddfeydd neu gyfrannedd</p> <p>c trin ystadegau</p> <p>ch defnyddio fformiwlâu.</p>	<p>1, 4</p> <p>7</p> <p>9</p>	<p>Dylai gweithgareddau roi cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso sgiliau rhif amlran mewn ffyrdd sy'n briodol i'r dasg, e.e. wrth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pennu maint y cydberthyniad rhwng cyfradd twf a diet, profi lles ac ethnigrwydd;</li> <li>• cyfrifo'r gwariant cyfatebol gan wahanol ddarparwyr gwasanaethau wrth ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal;</li> <li>• cyfrifo'r cysylltiad ystadegol rhwng nifer yr achosion o glefyd a strategaethau hybu iechyd.</li> </ul>
<p><b>Rh3.3</b> Dehongli canlyniadau eich cyfrifiadau, cyflwyno eich canfyddiadau a chyfiawnhau eich dulliau.</p>	<p>1, 4, 7, 9</p>	<p>Dylid dehongli ac arddangos canfyddiadau yn effeithiol ar ffurf siartiau bar, siartiau cylch, diagramau gwasgariad, a graffiau neu y bo'n briodol i natur y data.</p>

## Cyfathrebu – lefel 3

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
<b>C3.1a</b> Cymryd rhan mewn trafodaeth gr p.	6 9 11 5	Cymryd rhan mewn trafodaeth gr p wedi ei seilio ar y darllen a gyflawnwyd ar gyfer C3.2, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>• materion cyfredol mewn iechyd cyhoeddus a mesurau wedi eu hanelu at ddiogelu'r boblogaeth</li> <li>• ffactorau sy'n effeithio ar y driniaeth sydd ar gael ar gyfer grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau yn ardal gr p y dysgwyr</li> <li>• effeithiolrwydd ymatebion y llywodraeth i anghenion lles grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau.</li> </ul> Hefyd, ceir cyfleoedd i roi tystiolaeth o sgiliau trafodaeth gr p wrth, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymgynghori â'r tîm gofal yngl n â chynllunio gweithgareddau gyda defnyddwyr gwasanaethau</li> <li>• rhyngweithio a chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr gofal wrth weithredu a gwerthuso gweithgareddau.</li> </ul>
<b>C3.1b</b> Gwneud cyflwyniad ffurfiol sy'n parhau o leiaf wyth munud gan ddefnyddio delwedd neu ddeunydd cefnogi arall.	6 9 11 5	Gwneud cyflwyniad wedi ei seilio ar eitem o ddiddordeb o fewn y ddogfen a gynhyrchwyd ar gyfer C3.3, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>• mater iechyd cyhoeddus pynciol, ei effaith ar iechyd poblogaeth y DU a gwerthusiad o'r ffyrdd o leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch cyhoeddus</li> <li>• sylfaen fiolegol clefyd trosglwyddadwy/anhrosglwyddadwy ac ymateb y corff iddo</li> <li>• newid demograffig yn ardal y dysgwyr dros y 100 mlynedd diwethaf a'r effaith y mae'r newid hwn wedi ei gael ar anghenion lles cymdeithasol.</li> </ul> Gwneud cyflwyniad wedi ei seilio ar yr adroddiad ar gyfer C3.3.

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
<p><b>C3.2</b> Darllen a chyfuno gwybodaeth o ddwy ddogfen o leiaf sy'n ymwneud â'r un pwnc.</p> <p>Rhaid i bob dogfen gynnwys o leiaf 1,000 o eiriau.</p>	<p>6</p> <p>9</p> <p>11</p>	<p>Darllen a chyfuno gwybodaeth o o leiaf ddwy ddogfen am fater iechyd cyhoeddus sy'n berthnasol i boblogaeth y DU gan gynnwys natur y mater, effaith posibl y mater ar iechyd cyhoeddus a'r strategaethau y gellid eu defnyddio i leihau'r risgiau a gysylltir â'r mater.</p> <p>Darllen a chyfuno gwybodaeth o o leiaf ddwy ddogfen am un clefyd trosglwyddadwy ac un clefyd anhrosglwyddadwy, gan gynnwys sylfaen fiolegol y clefydau ac ymateb y corff (arwyddion a symptomau), achosion a dosbarthiad y clefyd, cefnogaeth i'r claf (diagnosis, triniaeth, ffactorau sy'n effeithio ar y triniaethau sydd ar gael a'u canlyniadau) a strategaethau ar gyfer ata; y clefyd a ffactorau allai effeithio arnynt.</p> <p>Darllen a chyfuno gwybodaeth o o leiaf ddwy ddogfen am wreiddiau materion cymdeithasol a lles (<i>welfare</i>), newid demograffig ac anghenion lles cymdeithasol, materion cymdeithasol ac ymateb y llywodraeth i faterion cymdeithasol ac anghenion lles.</p>
<p><b>C3.3</b> Ysgrifennu dwy ddogfen o fath gwahanol, gyda'r ddwy yn cynnwys gwybodaeth wahanol am bynciau cymhleth.</p> <p>Rhaid i un ddogfen gynnwys o leiaf 1,000 o eiriau.</p>	<p>6</p> <p>9</p> <p>11</p> <p>5</p>	<p>Ysgrifennu adroddiad am ymchwiliad i fater iechyd cyhoeddus sy'n effeithio — neu a all effeithio yn y dyfodol — ar iechyd, datblygiad neu les rhai neu bob un o'r bobl sy'n ffurfio poblogaeth y DU. Dylid seilio'r adroddiad ar y darllen a gyflawnwyd ar gyfer C3.2 a dylai ddiwallu'r meini prawf ar gyfer asesu mewnol.</p> <p>Ysgrifennu traethawd yn cymharu clefyd trosglwyddadwy â chlefyd anhrosglwyddadwy. Dylid seilio'r traethawd ar y darllen a gyflawnwyd ar gyfer C3.2 a dylai ddiwallu'r meini prawf ar gyfer asesu mewnol.</p> <p>Ysgrifennu adroddiad ar fater cymdeithasol sydd o ddiddordeb i'r dysgwyr. Dylid seilio'r traethawd ar y darllen a gyflawnwyd ar gyfer C3.2 a dylai ddiwallu'r meini prawf ar gyfer asesu mewnol.</p> <p>Ysgrifennu adroddiad am weithgaredd yr ymgwymerwyd ag ef gyda defnyddwyr gwasanaethau/gr p o ddefnyddwyr gwasanaethau penodol sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer yr asesu mewnol.</p>

Defnyddiwch o leiaf un ddelwedd, naill ai i gael gwybodaeth, neu i gyfleu gwybodaeth yn un o'r dogfennau a ysgrifennwch.



## Technoleg gwybodaeth – lefel 3

Ddangos eich bod yn medru cynllunio a chyflawni nifer o dasgau, a rhaid i un o'r rhain fod yn dasg fawr sy'n cwmpasu TGCh3.1, TGCh3.2 a TGCh3.3.

Rhaid cwrdd â gofynion pob cydran, TGCh3.1, TGCh3.2 a TGCh3.3, o leiaf ddwywaith, a rhaid cwrdd â gofynion TGCh3.3 ar gyfer o leiaf ddwy gynulleidfa wahanol. Gellir defnyddio tasgau llai i sicrhau bod pob cydran wedi'i chynnwys.

Yn gyfan gwbl, trwy wneud o leiaf ddau weithgaredd, mae'n rhaid i chi:

- gynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth wedi'i seilio ar TGCh
- cynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth heb ei seilio ar TGCh
- defnyddio o leiaf un enghraifft o destun, un enghraifft o ddelwedd ac un enghraifft o rif
- defnyddio un enghraifft o wybodaeth gyfunol, megis testun â rhif, neu ddelwedd â rhif neu destun â delwedd
- cyflwyno tystiolaeth o anfon a derbyn negeseuon e-bost; mae'n rhaid i un o'r negeseuon hyn gynnwys atodiad sy'n berthnasol i'r dasg.

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
TGCh 3.1 Chwilio am wybodaeth, gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos.	3 7 8	Gallai dysgwyr ddefnyddio TG fel y rhyngwyd, cronfeydd data yn ogystal â ffynonellau nad ydynt yn TG fel cyhoeddiadau'r llywodraeth a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol lleol i ddod o hyd i wybodaeth (testun, delweddau, rhifau) ar e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>• deddfwriaeth yn ymwneud â hawliau defnyddwyr gwasanaethau</li> <li>• strwythur a darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal yn lleol ac yn genedlaethol</li> <li>• targedau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer iechyd a lles.</li> </ul>
TGCh 3.2 Bwydo i mewn a datblygu'r wybodaeth ac olrhainio gwybodaeth newydd.	3 7 8	Gallai dysgwyr ddefnyddio eu canfyddiadau ar gyfer TG3.1 i, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynhyrchu crynodeb o'r deddfwriaeth sy'n ymwneud â hawliau defnyddwyr gwasanaethau (testun)</li> <li>• creu cronfa ddata o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir yn lleol ac yn genedlaethol a siartiau llif i ddangos sut mae'r gwasanaethau gwahanol yn cael eu strwythuro (testun a delwedd)</li> <li>• cynhyrchu portreadau graffigol o dargedau ar gyfer iechyd a lles (delwedd a rhif).</li> </ul>

Gofyniad dystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
<b>TGCh 3.3</b> Cyflwyno gwybodaeth gyfunol megis testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif.	3 7 8	Gallai dysgwyr gyflwyno'r wybodaeth a ddeilliwyd ar gyfer TG3.2 fel, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyflwyniad PowerPoint neu atodiad i e-bost</li> <li>• copi caled neu arddangosiad sgrin statig oddi mewn i gyflwyniad amlgyfrwng</li> <li>• copi caled oddi mewn i adroddiad mewn llawysgrifen neu ar brosesydd geiriau.</li> </ul>

## Gwella eich dysgu a'ch perfformio – lefel 3

Ddarparu o leiaf un enghraifft ohonoch yn cwrdd â'r safon ar gyfer GDP3.1, GDP3.2 a GDP3.3 (dylai'r enghraifft gwmpasu tri tharged o leiaf). Yn gyffredinol, dangoswch eich bod yn medru defnyddio o leiaf ddwy ffordd wahanol o ddysgu i wella eich perfformiad.

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
<p><b>GDP3.1</b> Gosod targedau gan ddefnyddio gwybodaeth oddi wrth bobl briodol a chynllunio sut y byddwch yn cyrraedd y rhain.</p>	<p>1, 4, 7, 12</p> <p>10</p>	<p>Ceir cyfleoedd i ddysgwyr osod a chynllunio targedau pan fyddant yn paratoi ar gyfer yr asesu allanol. Gallai canlyniadau profion ymarfer roi gwybodaeth a fyddai'n galluogi gosod targedau penodol a gallai dysgwyr gynllunio i wella eu perfformiad yn y profion ymarfer sy'n dilyn.</p> <p>Ceir cyfleoedd i ddysgwyr ddangos y gallant ddefnyddio gwybodaeth a chefnogaeth gan eu tiwtor i osod targedau ar gyfer gwella eu perfformiad eu hunain tra byddant yn cynnal eu prosiect ymchwil. Hefyd, ceir cyfleoedd iddynt ddangos y gallant gynllunio eu gweithgareddau er mwyn cwrdd â'u targedau.</p>
<p><b>GDP3.2</b> Cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu drwy ddefnyddio eich cynllun i'ch helpu i gyrraedd targedau a gwella eich perfformiad.</p>	<p>1, 4, 7, 12</p> <p>10</p>	<p>Wrth baratoi am yr asesu allanol, ceir cyfleoedd i ddysgwyr gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ac i gymryd camau i wella eu perfformiad eu hunain trwy, er enghraifft, brofi dulliau newydd o ddysgu, dysgu ar gof ac adolygu a thrwy asesiadau ymarferol.</p> <p>Ceir cyfleoedd ar gyfer gweithio annibynnol a hunan gymhelliad pan fydd dysgwyr yn cynnal y prosiect ymchwil, yn dilyn eu cynlluniau, monitro eu cynnydd yn ôl eu targedau a chymryd camau i wella eu perfformiad.</p>
<p><b>GDP3.3</b> Adolygu cynnydd a sicrhau tystiolaeth o'ch cyflawniadau.</p>	<p>1, 4, 7, 12, 10</p>	<p>Gellid adolygu cynnydd gyda thiworiaid neu gyda'r dysgwr yn cynnal hunanasesiad gyda thystiolaeth ar ffurf e.e. cofnodion trafodaeth/cyfnewid safbwyntiau, gosod targedau newydd. Gellid rhoi tystiolaeth am gyflawniadau trwy nodiadau i ddangos bod y targedau wedi cael eu cyrraedd, enghreifftiau o waith sy'n dangos gwelliant o ran dysgu neu berfformiad neu gofnodi sefyllfaoedd lle mae dysgu newydd wedi diwallu gofynion newydd.</p>

## Datrys problemau – lefel 3

Ddarparu o leiaf un enghraifft ohonoch yn cwrdd â'r safon ar gyfer DP3.1, DP3.2 a DP3.3. Dylai'r enghraifft gynnwys o leiaf tair ffordd wahanol o ddelio â phroblem (ar gyfer DP3.1).

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
DP3.1 Archwilio problem a nodi ffyrdd gwahanol o ddelio â hi.	2 3 8	<p>Ceir cyfleoedd i adnabod, e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol mewn sefyllfa ofal fel nam ar y synhwyr, gwahaniaethau diwylliannol</li> <li>problemau o ran cyrchu gwasanaethau iechyd a gofal fel yr amgylchedd corfforol, gwahaniaethau iaith, rhwystrau emosiynol</li> <li>ymddygiad sy'n cyfrannu at iechyd gwael fel ysmegu, diffyg ymarfer corfforol.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr fedru disgrifio a dadansoddi'r broblem gan awgrymu amrywiaeth o ddewisiadau i'w datrys.</p>
DP3.2 Cynllunio a gweithredu o leiaf un ffordd o ddatrys y broblem.	2 3 8	<p>Dylai dysgwyr drafod dewis datrys problemau priodol gyda'u tiwtor neu eu goruchwyliwr gweithle, e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>codi ymwybyddiaeth staff am wahaniaethau diwylliannol o ran cyfathrebu</li> <li>defnyddio cyfieithwyr, dehonglwyr ac eiriolwyr</li> <li>strategaeth hybu iechyd.</li> </ul> <p>Dylid rhoi cefnogaeth ac adborth iddynt wrth iddynt weithredu eu cynllun i ddatrys y broblem a dylent adolygu eu dull o weithredu yn ôl yr angen.</p>

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
<p>DP3.3 Gwirio a yw'r broblem wedi cael ei datrys ac adolygu eich dull o weithredu wrth ddatrys problemau.</p>	<p>2 3 5 8</p>	<p>Bydd gwirio'r sefyllfa yn golygu bod modd gwneud penderfyniad yngl n â pha mor llwyddiannus mae'r dewis datrys problem wedi bod, e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae staff yn deall gwahaniaethau diwylliannol yn fwy ac yn adolygu'r ffordd maent yn cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau</li> <li>• mae defnyddio eiriolaeth yn gymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n ansicr yn emosiynol gael hyd i ofal</li> <li>• mae safbwyntiau ac adweithiau defnyddwyr gwasanaethau a staff gofal yn dangos fod y gweithgaredd wedi bod yn fanteisiol o ran diwallu anghenion</li> <li>• mae dosbarthiadau ymarfer hygyrch yn gwella lefelau ffitrwydd a lles y boblogaeth darged.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr gytuno pa ddulliau o wirio sy'n briodol gyda'u tiwtor/goruchwyliwr gweithle. Bydd adolygiad o'r ffordd y ceision nhw ddatrys y broblem yn golygu bod modd nodi dulliau amgen a rhagfynegi yngl n â'u llwyddiant cymharol.</p>

## Gweithio gydag eraill – lefel 3

Ddarparu o leiaf un enghraifft ohonoch yn cwrdd â'r safon ar gyfer GGE3.1, GGE3.2 a GGE3.3, gan gynnwys gwaith mewn sefyllfa gr p neu dim. Mae'n rhaid i chi wirio cynnydd ar ddau achlysur (ar gyfer GGE3.2).

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
GE3.1 Cynllunio gwaith gydag eraill.	5	Ceir cyfleoedd i ddysgwyr weithio gydag unigolyn neu gr p arall wrth gynllunio gweithgaredd ar gyfer defnyddiwr/-wyr gwasanaethau gan roi ystyriaeth e.e. i anghenion defnyddwyr gwasanaethau, eu swyddogaeth eu hunain a swyddogaeth/anghenion cefnogaeth eraill, agweddau ar y sefyllfa ofal, materion iechyd a diogelwch, yr adnoddau sydd ar gael.
	10	Ceir cyfleoedd i ddysgwyr weithio gydag eraill (un-i-un ac mewn gr p) wrth drefnu prosiect ymchwil. Gallent gydweithio i nodi testun ymchwil, diffinio'r rhagdybiaeth neu'r cwestiwn ymchwil, cynnal adolygiad o'r llenyddiaeth, disgrifio'r strategaeth ymchwil, creu'r offer casglu data a chynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer cwblhau'r prosiect ymchwil.
	12	Ceir cyfleoedd i ddysgwyr weithio gydag eraill i gynllunio astudiaeth seicolegol, e.e. y cysylltiad rhwng nodweddion personoliaeth a'r ffordd y mae defnyddwyr gwasanaethau yn profi ac yn ymateb i wasanaethau gofal. Gallent weithio gyda'i gilydd i ddiffinio rhagdybiaeth neu gwestiwn yr astudiaeth, cynnal adolygiad o'r llenyddiaeth, disgrifio'r strategaeth astudio, creu'r offer casglu data a chynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer cwblhau'r astudiaeth.
GE3.2 Ceisio datblygu cydweithrediad a gwirio cynnydd tuag at eich amcanion cytunedig.	5	Gallai dysgwyr weithio gyda'i gilydd wrth roi eu gweithgaredd ar waith, gyda chyfarwyddyd gan eu tiwtor/goruchwyliwr gweithle fel bo'n briodol. Bydd adroddiadau am gynnydd, ffotograffau, logiau, datganiadau tystion a.a. yn rhoi tystiolaeth o gydweithredu gan gynnwys datrys gwrthdaro, cytuno a gwneud newidiadau.
	10	Gallai dysgwyr weithio gyda'i gilydd wrth gynnal eu hymchwil a chasglu eu data, gyda chyfarwyddyd gan diwtor yn ôl yr angen. Bydd adroddiadau am gynnydd, ffotograffau, logiau, datganiadau tystion a.a. yn rhoi tystiolaeth o gydweithredu. Gallent weithio gyda'i gilydd wrth ddadansoddi'r data ymchwil a'u cyflwyno mewn adroddiad ymchwil ac i'w cymheiriaid.
	12	Gallai dysgwyr weithio gyda'i gilydd wrth gynnal eu hastudiaeth seicolegol a chasglu eu data, gyda chyfarwyddyd gan diwtor yn ôl yr angen. Bydd adroddiadau am gynnydd, ffotograffau, logiau, datganiadau tystion a.a. yn rhoi tystiolaeth o gydweithredu. Gallent weithio gyda'i gilydd wrth ddadansoddi'r data ymchwil a'u cyflwyno mewn adroddiad ac i'w cymheiriaid.

Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol	Unedau UG/U2	Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:
<b>GE3.3</b> Adolygu gwaith gydag eraill a chytuno ar ffyrdd o wella'r cydweithio yn y dyfodol.	5, 10, 12	Mae adolygiadau cyson, wedi eu cofnodi yn rhoi cyfle i gytuno yngl n â pha mor llwyddiannus mae'r gwaith gydag eraill wedi bod ac a yw'r amcanion arfaethedig wedi cael eu bodloni. Ar ben hynny, maent yn rhoi cyfle i nodi ffactorau sydd wedi dylanwadu ar gydweithio ac i gytuno ar ffyrdd o wella gweithio gydag eraill yn y dyfodol.





## Atodiad C: Y cwricwlwm ehangach

### Arwyddo

Mater	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6	Uned 7	Uned 8	Uned 9	Uned 10	Uned 11	Uned 12
Ysbrydol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Moesol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Moesegol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cymdeithasol			✓								✓	
Diwylliannol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Dinasyddiaeth	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Amgylchedd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cynlluniau Ewropeaidd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Iechyd a diogelwch	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

## Awgrymiadau datblygu

Mater	Unedau UG/U2	Cyfleoedd ar gyfer datblygu neu asesu mewnol
Ysbrydol	Pob un	<ul style="list-style-type: none"> <li>ee Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol, yn cynnwys datblygu medrau ysbrydol</li> </ul>
Moesol	Pob un	<ul style="list-style-type: none"> <li>ee Uned 11: Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles, mae'n rhaid llunio ymatebion i faterion cymdeithasol a lles gan ystyriaethau moesol</li> </ul>
Moesegol	Pob un	<ul style="list-style-type: none"> <li>ee Uned 10: Defnyddio a Deall Ymchwil, yn gofyn am ystyriaeth foesegol</li> </ul>
Cymdeithasol	Pob un	<ul style="list-style-type: none"> <li>ee Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw, effeithir yn fawr ar iechyd a lles person gan ffactorau cymdeithasol</li> </ul>
Diwylliannol	Pob un	<ul style="list-style-type: none"> <li>ee Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd, dengys gofal ar sail gwerth barch at wahaniaethau diwylliannol</li> </ul>
Dinasyddiaeth	Pob un	<ul style="list-style-type: none"> <li>ee Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd, mae cefnogi pobl trwy eiriolaeth a hyrwyddo eu hawliau yn enghreifftiau o ddinasyddiaeth dda</li> </ul>
Amgylchedd	Pob un	<ul style="list-style-type: none"> <li>ee Uned 6: Iechyd Cyhoeddus, mae'r amgylchedd corfforol yn effeithio ar iechyd cyhoeddus mewn amrywiaeth o ffyrdd</li> </ul>
Cynlluniau Ewropeaidd	Pob un	<ul style="list-style-type: none"> <li>ee Uned 11: Materion Cymdeithasol ac Anghenion Lles, deddfwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd a'i heffaith ar y boblogaeth</li> </ul>
Iechyd a diogelwch	Pob un	<ul style="list-style-type: none"> <li>ee Uned 2: Cyfathrebu a Gwerthoedd, rhyngweithio â grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau</li> </ul>

## Atodiad CH: Disgrifiadau perfformiad

- Nod y disgrifiadau perfformiad ar gyfer TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw disgrifio deilliannau dysgu a lefelau cyrhaeddiad sy'n debygol o gael eu dangos gan ddysgwyr cynrychioliadol sy'n perfformio ar ffiniau A/B ac E/U ar gyfer UG ac U2. Mae'r disgrifiadau perfformiad yn darlunio'r disgwyliadau ar y ffiniau hyn ar gyfer UG ac U2 yn gyfan; nid ydynt wedi eu hysgrifennu ar lefel manyleb neu uned.
- Mae pob disgrifiad perfformiad wedi ei gysylltu ag un Amcan Asesu. Defnyddiwyd system yr wyddor i ddynodi pob elfen o ddisgrifiad perfformiad. Nid oes hierarchaeth o elfennau.
- Cafodd disgrifiadau perfformiad eu cynllunio i gynorthwyo arholwyr wrth ddefnyddio'u barn broffesiynol mewn cyfarfodydd dyfarnu lle y bydd y ffiniau am raddau A/B ac E/U wedi eu gosod gan arholwyr gan ddefnyddio barn broffesiynol. Bydd y farn hon yn adlewyrchu ansawdd gwaith y dysgwyr, ar sail tystiolaeth ystadegol a thechnegol sydd ar gael. Caiff y disgrifiadau perfformiad eu hadolygu'n barhaus a'u diweddarau pan fydd angen.
- Efallai y caiff athrawon fod disgrifiadau perfformiad yn ddefnyddiol wrth ddeall perfformiad dysgwyr ar draws cymwysterau yn gyfan ond dylid defnyddio'r meini prawf marcio a nodwyd yn y fanyleb wrth asesu gwaith dysgwyr.

## TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol Disgrifiadau perfformiad

### UG Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r disgrifiadau perfformiad ar gyfer UG TAG yn dangos lefel cyrhaeddiad sy'n nodweddiadol o ymgeiswyr ffiniau A/B ac E/U. Dylid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys a amlinellir yn y fanyleb; ni chawsant eu cynllunio i ddiffinio'r cynnwys yna. Maent yn rhoi arwydd gyffredinol o'r deilliannau dysgu sy'n ofynnol a'r lefelau cyrhaeddiad sy'n debyg o gael eu dangos gan ymgeisydd cynrychiadol yn perfformio ar bob ffin. Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos proffiliau anwastad ar draws y cyraeddiadau a restrir gyda chryfderau mewn rhai meysydd yn unioni cam yn y broses ddyfarnu am wendidau neu fylchau mewn manau eraill.

Diwellir yr angen i bob manyleb UG a Lefel A asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig pob ymgeisydd trwy bob un o'r pedwar amcan asesu.

UG	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3	Amcan Asesu 4	Ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig
Amcan Asesu	Gwybodaeth a dealltwriaeth  Mae ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol.	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth  Mae ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.	Ymchwil a dadansoddi  Mae ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i ddod o hyd i wybodaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau i ddadansoddi materion a phroblemau'n ymwneud â'r gweithle.	Gwerthuso  Mae ymgeiswyr yn gwerthuso tystiolaeth, yn ffurfio barn resymedig ac yn llunio casgliadau dilys am faterion sy'n ymwneud â'r gweithle.	

UG	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3	Amcan Asesu 4	Ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig
Disgrifiadau perfformiad ffin A/B	<p>Mae ymgeiswyr yn dangos:</p> <p>a ag ychydig o fylchau, wybodaeth drylwyr am y sector iechyd a gofal cymdeithasol a gyflwynwyd</p> <p>b dealltwriaeth drylwyr o swyddogaethau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>c ystod o sgiliau perthnasol yn ymwneud â'r gweithle mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac mewn dull effeithiol.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn gywir i amrywiaeth o sefyllfaoedd yn ymwneud â'r gweithle sy'n cynnwys gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a ymgymryd ag ymchwil gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau</p> <p>b defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth perthnasol</p> <p>c defnyddio'r wybodaeth a ddetholwyd i ddadansoddi materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a dadansoddi tystiolaeth i lunio casgliadau dilys</p> <p>b ffurfio barn resymedig am faterion sy'n ymwneud â'r gweithle.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a defnyddio mynegiant ysgrifenedig sy'n</p> <p>b cyfleu ystyr briodol</p> <p>c defnyddio geirfa arbenigol briodol.</p>

UG	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3	Amcan Asesu 4	Ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig
Disgrifiadau perfformiad ffin E/U	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a dangos gwybodaeth sylfaenol o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol; gall fod cryn fylchau</li> <li>b dangos dealltwriaeth sylfaenol o bwrpasau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol</li> <li>c dangos ystod gyfyngedig o sgiliau'n ymwneud â'r gweithle.</li> </ul>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gydag arweiniad i grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau a chyd-destunau cyfarwydd sy'n ymwneud â'r gweithle.</li> </ul>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a casglu gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â'r gweithle gan ddefnyddio technegau penodol</li> <li>b defnyddio ystod gyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth perthnasol</li> <li>c cynnal peth dadansoddi sylfaenol o faterion a phroblemau'n ymwneud â'r gweithle.</li> </ul>	<p>Mae ymgeiswyr yn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a gwerthuso tystiolaeth i lunio casgliadau sylfaenol am faterion perthnasol sy'n ymwneud â'r gweithle.</li> </ul>	<p>Mae ymgeiswyr yn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a defnyddio mynegiant ysgrifenedig:</li> <li>b sy'n ddigonol ar gyfer cyfleu ystyr</li> <li>c a all gael ei fynegi mewn ffordd nad yw'n arbenigol.</li> </ul>

## U2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r disgrifiadau perfformiad ar gyfer U2 TAG yn dangos lefel cyrhaeddiad sy'n nodweddiadol o ymgeiswyr ffiniau A/B ac E/U. Dylid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys a amlinellir yn y fanyleb; ni chawsant eu cynllunio i ddiffinio'r cynnwys yna. Maent yn rhoi arwydd gyffredinol o'r deilliannau dysgu a'r lefelau cyrhaeddiad sy'n debyg o gael eu dangos gan ymgeisydd cynrychiadol yn perfformio ar bob ffin. Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos proffiliau anwastad ar draws y cyraeddiadau a restrir gyda chryfderau mewn rhai meysydd yn unioni cam yn y broses ddyfarnu am wendidau neu fylchau mewn manau eraill.

Diwellir yr angen i bob manyleb UG a Lefel A asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig pob ymgeisydd trwy bob un o'r pedwar amcan asesu.

U2	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3	Amcan Asesu 4	Ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig
Amcan Asesu	Gwybodaeth a dealltwriaeth  Mae ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol.	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth  Mae ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.	Ymchwil a dadansoddi  Mae ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i ddod o hyd i wybodaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau. Maent yn dadansoddi materion a phroblemau'n ymwneud â'r gweithle.	Gwerthuso  Mae ymgeiswyr yn gwerthuso tystiolaeth, yn ffurfio barn resymedig ac yn llunio casgliadau dilys am faterion sy'n ymwneud â'r gweithle.	

U2	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3	Amcan Asesu 4	Ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig
<b>Disgrifiadau perfformiad ffin A/B</b>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a dangos gwybodaeth drylwyr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>b dangos dealltwriaeth drylwyr o swyddogaethau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>c dangos ystod o sgiliau yn ymwneud â'r gweithle mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac mewn dull effeithiol.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau trylwyr yn gywir ac yn annibynnol i amrywiaeth eang o sefyllfaoedd yn ymwneud â'r gweithle gan gysylltu'r rhain, fel bo'n briodol, â gwahanol gyd-destunau a grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a dethol a chyfiawnhau'r defnydd o dechnegau ymchwil a dadansoddi</p> <p>b defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth perthnasol</p> <p>c defnyddio'r wybodaeth a'r technegau a ddetholwyd i ddadansoddi materion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a gwerthuso amrywiaeth o dystiolaeth i lunio a chyfiawnhau casgliadau dilys</p> <p>b ffurfio barn resymedig am faterion perthnasol sy'n ymwneud â'r gweithle.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a defnyddio mynegiant ysgrifenedig sy'n:</p> <p>b cyfleu ystyr briodol</p> <p>c defnyddio geirfa briodol.</p>



UG	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3	Amcan Asesu 4	Ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig
Disgrifiadau perfformiad ffin E/U	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a dangos gwybodaeth sylfaenol o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>b dangos dealltwriaeth sylfaenol o bwrpasau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol; gall fod cryn fylchau</p> <p>c dangos ystod gyfyngedig o sgiliau'n ymwneud â'r gweithle.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gydag arweiniad i grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau a chyd-destunau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a ymgymryd ag ymchwil i faterion yn ymwneud â'r gweithle gan ddefnyddio technegau penodol</p> <p>b defnyddio ystod gyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth perthnasol</p> <p>c defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i gynnal dadansoddiad syml o faterion a phroblemau sy'n ymwneud â'r gweithle.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a gwerthuso tystiolaeth i lunio casgliadau sylfaenol am faterion perthnasol sy'n ymwneud â'r gweithle</p> <p>b nodi cryfderau a gwendidau'r dystiolaeth.</p>	<p>Mae ymgeiswyr yn:</p> <p>a defnyddio mynegiant ysgrifenedig:</p> <p>b sy'n ddigonol ar gyfer cyfleu ystyr</p> <p>c a all gael ei fynegi mewn ffordd nad yw'n arbenigol.</p>

Mehefin 2005

Am ragor o wybodaeth ar gymwysterau Edexcel a BTEC cysylltwch â  
Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0870 240 9800  
neu <http://enquiries.edexcel.org.uk>  
neu ewch i'n gwefan: [www.edexcel.org.uk](http://www.edexcel.org.uk)

Edexcel Cyfyngedig. Yn gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 4496750  
Swyddfa Gofrestredig: One90 High Holborn, Llundain WC1V 7BH

